

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol:  
29/2017  
Dyddiad Cyhoeddi:  
12/06/2017

# Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd

YMCHWIL I'R AMODAU SYDD YN DYLANWADU AR  
DROSGLWYDDO'R GYMRAEG A'I DEFNYDD  
MEWN TEULUOEDD

Teitl: Ymchwil i'r Amodau sydd yn Dylanwadu ar Drosglwyddo'r  
Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd

Jeremy Evas a Jonathan Morris, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol  
Caerdydd

Lorraine Whitmarsh, Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd



Mewn cydweithrediad â:

Hywel M. Jones, Statiaith

Sioned Lewis a Tanwen Grover, Arad



Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r  
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6255

E-bost: [Heledd.Jenkins2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Heledd.Jenkins2@cymru.gsi.gov.uk)

Cafodd yr adroddiad hwn ei adolygu'n annibynnol gan yr Athro Hugo Baetens  
Beardsmore

## Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	5
2.	Fframwaith Damcaniaethol .....	12
3.	Dadansoddiad Ystadegol o Ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol .....	50
4.	Methodoleg .....	66
5.	Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith .....	80
6.	Dadansoddi'r Data Ansoddol .....	104
7.	Trafodaeth, Casgliadau ac Argymhellion .....	126
	Llyfryddiaeth .....	142
	Atodiadau .....	157
	Atodiad 1: Tablau Ystadegol .....	157
	Atodiad 2: Straeon y Cyfranogwyr .....	199
	Atodiad 3: Tabl o gefndir ieithyddol yr Holl Ymatebwyr, Sir Breswyl ac Ymddygiad Trosglwyddo rhwng y Cenedlaethau .....	193
	Atodiad 4: Dogfen Briffio i Ddarpar Gyfranogwyr .....	197
	Atodiad 5: Holiadur Sgrinio .....	199
	Atodiad 6: Ffurflen Cydsynio'r Cyfweliadau .....	203
	Atodiad 7: Holiadur Cyn Cyfweld â Rhiant .....	205
	Atodiad 8: Cwestiynau'r Cyfweliad .....	210
	Atodiad 9: Holiadur i'r Partner nas cyfwelwyd .....	216

## Rhestr Tablau

Tabl 1: Canlyniadau posibl o ran trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn ddwyieithog yn yr un ieithoedd.....	17
Tabl 2: Canlyniadau posibl o ran trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae un riant yn ddwyieithog.....	17
Tabl 3: Gwerthoedd craidd a nodau ysgogiadol cysylltiedig (Schwartz 2003).....	71
Tabl 4: Canran y siaradwyr Cymraeg a canran yr aelwydydd sydd yn cynnwys un neu fwy o rhieni sydd yn siarad Cymraeg a phlant sydd yn siarad Cymraeg .....	75
Tabl 5: Cymwysterau ymatebwyr a phartneriaid .....	88
Tabl 6: Galwedigaethau ymatebwyr a phartneriaid .....	88
Tabl 7: Defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn awr ac yn y gorffennol.....	89
Tabl 8: Gallu rhieni ymatebwyr a phartneriaid i siarad Cymraeg .....	90
Tabl 9: Ffynhonnell addysg Gymraeg rhieni .....	91
Tabl 10: Defnydd o'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf (fel yr adroddwyd gan yr Ymatebydd) .....	92
Tabl 11: Ymatebion ymatebydd a phartner i'r newidynnau seicolegol.....	95
Tabl 12: Rhagfynegyddion seicolegol trosglwyddo'r Gymraeg i'r plentyn ieuengaf fesul ymatebydd .....	97
Tabl 13: Rhagfynegyddion trosglwyddo'r Gymraeg i'r plentyn ieuengaf fesul ymatebydd .....	99
Tabl 14: Cyfatebiaeth rhwng ymatebwyr yn siarad Cymraeg â'u plentyn ieuengaf a'u gwerthoedd.....	100
Tabl 15: Codau a ddefnyddiwyd i labelu'r data ansoddol .....	106
Tabl 16: Cyfansoddiad cartrefi Cymru yn ôl y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran plant dibynnol tair i bedair oed.....	157
Tabl 17: Cyfanswm nifer y plant dibynnol tair i bedair oed mewn teulu lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg yn ôl NS-SeC Person Cyswllt y Cartref.....	158
Tabl 18: Canran a nifer y plant dibynnol tair i bedair oed mewn teulu lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg sydd hefyd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl NS-SeC Person cyswllt y Cartref.....	159
Tabl 19: Cyfraddau a Niferoedd Trosglwyddo: Crynodeb Cymru .....	160
Tabl 20: Cyfraddau trosglwyddo yn ôl Awdurdod Unedol.....	161
Tabl 21: Niferoedd plant tair i bedair oed yn ôl awdurdod unedol, yn ôl oedran a gallu i siarad Cymraeg .....	172

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Canran y plant oed tair neu bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd .....	53
Ffigur 2: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant .....	59
Ffigur 3: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae un riant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant. ....	56
Ffigur 4: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd unig riant lle mae'r riant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant. ....	57
Ffigur 5: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad aelwydydd a rhyw'r riant sydd yn siarad Cymraeg.....	58
Ffigur 6: Tebygolrwydd trosglwyddo ar sail canlyniadau atchweliad logistaidd oedd yn cynnwys blwyddyn y Cyfrifiad, y math o aelwyd, yr awdurdod lleol a'r dosbarthiad economaidd-gymdeithasol (NS-SEC) yn newidynnau annibynnol (Jones 2013a).....	61
Ffigur 7: Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (Ajzen 1991) .....	81
Ffigur 8: Cymhwyso'r Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad i Gynllun TWF .....	82
Ffigur 9: Defnydd o'r Saesneg neu'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf, yn ôl rhanbarth93	

## Geirfa

Acronym/ Gair Allweddol	Diffiniad
BFLA	<i>Caffael Dwy iaith Gyntaf (Bilingual First Language Acquisition)</i> . Y broses lle mae dwy iaith yn cael eu caffael ar yr un pryd yn y cartref (Gweler hefyd ESLA a De Houwer (2009)).
ESLA	<i>Caffael Ail iaith yn Gynnar (Early Second Language Acquisition)</i> . Y broses lle mae un iaith yn cael ei chaffael trwy drosglwyddiad gan rieni ac un arall yn cael ei chaffael cyn dechrau addysg ffurfiol (Gweler De Houwer (2009)).
FLP	Mae <i>Polisi iaith Teuluoedd (Family Language Policy)</i> yn canolbwyntio ar y defnydd o iaith yn y cartref a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y defnydd hwnnw. Mae gwaith yn y maes hwn yn ceisio bwrw goleuni newydd ar y ffordd y mae ieithoedd yn cael eu 'rheoli' yn y cartref. Mae hyn wedi cael ei esgeuluso i raddau helaeth mewn astudiaethau BFLA (Gweler Smith-Christmas & Smakman (2009); Smith-Christmas (2012, 2014, 2016)). <sup>1</sup>
OPOL	<i>Un Rhiant Un iaith (One Parent One Language)</i> . Lle bo gan ddau riant neu un ohonynt nifer o ieithoedd i ddewis ohonynt, bydd y naill rhiant yn siarad yn gyson yn iaith X â'r plentyn, a'r llall yn siarad yn gyson yn iaith Y (Gweler Döpke (1992)).
SRBAI	<i>Mynegai Awtomatigrwydd Ymddygiad Hunan-gofnodedig (Self-reported Behavioural Automaticity Index)</i> (Gweler Gardner et al. 2012).
TPB	<i>Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (The Theory of Planned Behaviour)</i> , a gynigiwyd gan (Ajzen 1991).
ByIG	<i>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</i> . Corff statudol a grëwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a chanddo gyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r Gymraeg. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Gweler Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2012) am adolygiad o weithgareddau'r Bwrdd, a Mac Giolla Chríost (2016) am drosolwg feirniadol o'r prosesau a arweiniodd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

<sup>1</sup> Crëwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio meddalwedd llyfryddiaethol. Bydd clicio ar unrhyw ddyfyniad yng nghorff yr adroddiad yn mynd â'r darlennydd i'r cofnod perthnasol yn y llyfryddiaeth. Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn cynnwys llawer o groesgyfeiriadau mewnol i'r gwahanol adrannau a geir ynddo. Mae pob un o'r rhain yn 'ddolenni byw', a bydd clicio ar unrhyw groesgyfeiriad yn mynd â'r darlennydd i'r adran berthnasol o'r adroddiad. Cafodd gwaith cyfieithu ar gyfer yr adroddiad hwn ei wneud gan Dr Fiona Gannon, Tidy Translations, a Dr Jeremy Evas. Lle dyfynnir gwaith awduron eraill yn y gwaith hwn, fe'i dyfynnir yn yr iaith wreiddiol. Lle bo dyfynnu at waith dwyieithog, e.e. adroddiadau, defnyddir dyfyniad Cymraeg yn fersiwn Cymraeg yr adroddiad hwn, a dyfyniad Saesneg yn y fersiwn Saesneg.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Tachwedd 2015, comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i gynnal astudiaeth ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru. Nod yr astudiaeth yw gwella dealltwriaeth o sut mae'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd. Bwriedir i'r astudiaeth helpu Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- mireinio ei dealltwriaeth o batrymau trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd sydd â phlant rhwng 0 a 4 oed ledled Cymru; a
- chynyddu ei dealltwriaeth o'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y tueddiadau hyn.

### Cefndir Polisi

1.2 Mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn chwarae rhan wrth ddatblygu cyfeiriad gweithgarwch cynllunio iaith yn y dyfodol yng Nghymru.

1.3 Amlinellodd Strategaeth bum-mlynedd Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw* (Llywodraeth Cymru 2012) weledigaeth Llywodraeth Cymru, sef 'gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru 2012, t. 14). Mae Maes Strategol 1 y Strategaeth (Llywodraeth Cymru 2012, tt. 25-27) yn ymdrin yn benodol â'r 'Teulu.' Y canlyniad a ddymunir yw 'mwy o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a ddefnyddir gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn yn y teulu sydd mewn cyswllt rheolaidd â hwy' (Llywodraeth Cymru 2012, t. 25).

1.4 Datblygwyd Fframwaith Gwerthuso (Llywodraeth Cymru 2013) ar gyfer y Strategaeth i greu sylfaen o dystiolaeth a fyddai'n canfod i ba raddau y cyflawnwyd y nodau strategol a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei dogfennau strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Comisiynwyd yr ymchwil a gyflwynir yma o dan y Fframwaith Gwerthuso hwnnw.

1.5 Roedd dogfen strategol Llywodraeth Cymru (2014a, tt. 18-19) *Bwrw 'Mlaen* (a grëwyd yn dilyn ymgynghoriad ar bolisi'r Gymraeg ar ffurf 'sgwrs genedlaethol') yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut byddai *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn cael ei gweithredu. Mae'n pwysleisio bod trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn flaenoriaeth allweddol.

- 1.6 Cyhoeddodd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 (cynllun terfynol oes 5 mlynedd Iaith Fyw: *Iaith Byw*) gynllun 'Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni newydd i gyflwyno'r Gymraeg o fewn y Teulu' (Llywodraeth Cymru 2014a, t. 11).
- 1.7 Ym mis Awst 2016, lanswyd ymarfer ymgynghori (Llywodraeth Cymru 2016) ar gyfer strategaeth newydd i'w rhoi ar waith pan fydd *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn dod i ben (mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gofyn bod Gweinidogion Cymru yn paratoi, yn adolygu ac yn diweddarau strategaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg). Mae fersiwn ymgynghorol y strategaeth yn arddel nod hirdymor, yn rhagweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050, ac yn rhoi pwyslais ar gyfraniad y system addysg i'r nod hwn. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-destun y teulu ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd, gan nodi:
- Yn ogystal ag addysg, bydd yn hollbwysig cynyddu nifer y bobl sy'n trosglwyddo Cymraeg i'w plant. Mae angen rhagor o gyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac annog rhagor ohonynt i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ar lefel unigolion, y teulu, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd (Llywodraeth Cymru 2016, t. 4).
- 1.8 Mae'r fersiwn ymgynghorol hon o'r strategaeth hefyd yn cysylltu'r system addysg â throsglwyddiad rhwng y cenedlaethau fel dolen gyswllt bosibl mewn cadwyn gyflenwi ar gyfer creu rhagor o siaradwyr, â'r dyhead y bydd y system addysg ei hun yn creu effaith lluosydd (trwy greu mwy o siaradwyr Cymraeg [o deuluoedd di-Gymraeg] 'sydd yn mynd i drosglwyddo'r iaith i'w plant' (Llywodraeth Cymru 2016, t. 7).
- 1.9 Ers i'r gwaith cyntaf ar drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau gael ei gyhoeddi gan Harrison et al. (1981) (ceir adolygiad o'r gwaith hwn yn 2.40) mae amrywiaeth eang o fesurau cynllunio statws yr iaith wedi dod yn rhan o'r gyfraith, sydd yn golygu bod y Gymraeg bellach yn llawer mwy gweladwy



yn y dirwedd ieithyddol<sup>2</sup> (Gweler, er enghraifft, Llywodraeth EM (1981); Llywodraeth EM (1988, 1993, 1998, 2006, 2010); Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011)). Bellach mae argaeledd teledu, radio a chyfryngau Cymraeg eraill yn ehangach o lawer, a bu twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg (Williams 1989; Williams 2000; Williams 2003; Redknap et al. 2006; Lewis 2008). Mae Cymraeg fel ail iaith wedi'i sefydlu yn un o brif golofnau'r cwricwlwm yng Nghymru, er bod pryderon ynghylch ei heffeithiolrwydd (gweler, er anghraifft, adroddiad y gweithgor a gadeiriwyd gan yr Athro Sioned Davies—Llywodraeth Cymru 2014b). Adroddir hefyd fod cefnogaeth gyhoeddus eang i'r Gymraeg mewn arolygon agwedd (e.e. NOP Social and Political (1996); Beaufort Research et al. (2013)).

- 1.10 Gwelwyd y system addysg cyfrwng Cymraeg fel elfen ganolog o adfywio'r iaith yng Nghymru, ond ychydig o waith ymchwil a wnaed i'r cysylltiad (os oes un) rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac a yw'r rhai o deuluoedd di-Gymraeg sydd yn ei mynychu yn defnyddio'r Gymraeg pan ddeuant yn rhieni. Mae Llywodraeth Cymru (2012, t. 25), sydd yn adleisio Fishman (1991a, t. xii),<sup>3</sup> yn rhybuddio ynghylch peryglon gorddibyniaeth ar ymyriadau *systemig* yn unig yng nghyswllt trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau:

Trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yw un o ddau faes pwysicaf cynllunio iaith—addysg yw'r llall. Mae'n annhebygol y bydd y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel modd i alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl—ac nid oes unrhyw amheuaeth bod dysgu'r iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl.

- 1.11 Er gwaethaf y ffaith bod y system addysg *fel y cyfryw* y tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn, bydd yr holl siaradwyr Cymraeg y buom yn cyfweld â hwy yn naturiol wedi cael addysg ar ryw adeg yn y system ysgol. Mae'r cysylltiad posibl rhwng addysg a throsglwyddo'r Gymraeg rhwng y

---

<sup>2</sup> Gweler Cenoz & Gorter (2006); Gorter (2006b, 2006a, 2006c); Cenoz & Gorter (2008); Gorter & Shohamy (2008) am ddiffiniadau ac astudiaethau academaidd o dirwedd ieithyddol.

<sup>3</sup> Mae Fishman (1991a, t. xii) yn nodi bod '[ceisio adfywio iaith] via stylish efforts to control the language of education, the workplace, the mass media and governmental services, without having safeguarded [intergenerational language transfer] is equivalent to constantly blowing air into a tire that still has a puncture.'

cenedlaethau yn berthnasol i'r ymchwil o ystyried y dymuniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae fersiwn ymgynghorol ei dogfen strategaeth (Llywodraeth Cymru 2016, t. 7) yn nodi bod dymuniad i greu dolen achosol rhwng y naill a'r llall:

Mae pen draw i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellid eu creu o drosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf oni bai bod rhagor o rieni, yn y man cyntaf, yn penderfynu dysgu Cymraeg, ac yn ail yn ei throsglwyddo i'w plant. Dyma pam mae'n hanfodol defnyddio'r gyfundrefn addysg i greu siaradwyr a fydd yn trosglwyddo'r iaith i'w plant hwythau.

- 1.12 Ar ôl sefydlu'r ffactorau a sbardunodd gomisiynu'r prosiect ymchwil presennol, mae adran nesaf yr adroddiad yn troi at fanylion y gwaith ymchwil ei hun.

### **Cwestiynau Ymchwil**

- 1.13 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ymdrin â'r prif gwestiynau ymchwil canlynol:
- Beth yw'r amodau sydd yn hwyluso trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd, a'r amodau sydd yn gwneud trosglwyddo'r Gymraeg yn llai tebygol?
  - Beth yw'r amodau sydd yn dylanwadu ar batrymau defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd â phlant yn y grŵp oedran 0-4?
- 1.14 I ateb y cwestiynau hyn, rydym yn cyflwyno data a gasglwyd gan 60 o brif roddwyr gofal plant 0-4 oed, sydd yn byw yng ngogledd-orllewin a de-ddwyrain Cymru. Casglwyd y data trwy holiadur ysgrifenedig a chyfweliad llafar.
- 1.15 Cymerwyd y data meintiol o ddadansoddiad o rieni oedd/nad oedd yn trosglwyddo'r Gymraeg, gan edrych ar hynny trwy brism nifer o wahanol ffactorau ieithyddol, cymdeithasol a phragmataidd. Yn ogystal ag ystyried nodweddion y gwelwyd eu bod yn berthnasol mewn gwaith blaenorol ar drosglwyddo iaith (megis cefndir ieithyddol rhieni), rydym hefyd yn ystyried agweddau ar seicoleg ymddygiadol. Yn gyntaf, rydym yn archwilio i ba raddau y mae (diffyg) trosglwyddo yn weithgaredd sydd yn cael ei ystyried ac yn tynnu ar fodelau a geir yn y Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad

(TPB). Yn ail, rydym yn ymchwilio i weld a yw gwerthoedd cymdeithasol ehangach rhieni yn dylanwadu ar drosglwyddo. Rydym yn dadansoddi pa mor *awtomatig* y mae trosglwyddo iaith fel ymddygiad ac a yw canfyddiadau o hunaniaeth genedlaethol a normau cymdeithasol yn rhagfynegyddion perthnasol o ran tebygolrwydd o drosglwyddo'r Gymraeg. Rydym yn credu mai dyma'r tro cyntaf i fframwaith dulliau cymysg, rhyngddisgyblaethol o'r fath gael ei fabwysiadu er mwyn dadansoddi trosglwyddo rhwng y cenedlaethau, a bod ein dadansoddiad, felly, yn cynnig gwedd unigryw, sydd yn plethu seicoleg ymddygiadol, profiadau rhieni, â dull gweithredu ansoddol a meintiol.

### **Cwmpas a Chyfyngiadau'r Prosiect**

- 1.16 Ni ddylid cymryd bod modd i ganlyniadau'r data sylfaenol a gasglwyd gennym (oherwydd bod y sampl yn fach) gael eu cyffredinoli'n ystadegol i boblogaeth Cymru ar lefel genedlaethol; yn hytrach, yr hyn a geir yma yw dadansoddiad archwiliadol o drosglwyddiad. Yr hyn y mae'r ymchwil yn ei gynnig yw dull gwreiddiol o ymdrin â throsglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, h.y. dadansoddiad arwyddocaol a thrylwyr gan ddefnyddio dulliau cymysg a seicoleg gymdeithasol. Hefyd rydym yn seilio ein canfyddiadau ar ddadansoddiad a gomisiynwyd yn arbennig o ffigurau Cyfrifiad y degawd ac adolygiad o'r llenyddiaeth berthnasol. Mae'r rhain yn rhoi cyd-destun lefel Cymru i'r data ystadegol ac ansoddol sylfaenol rydym yn eu dadansoddi.
- 1.17 Dylid egluro sawl cyfyngiad ar gwmpas yr ymchwil o'r cychwyn cyntaf:
- Bu nifer o ymyriadau polisi ym maes trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yng Nghymru, er enghraifft: *Twf*, a oedd yn annog y rhieni hynny sydd yn gallu siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant, ac yn gysylltiedig â hynny *Tyfu gyda'r Gymraeg* a oedd yn cefnogi teuluoedd dwyieithog. Nid yw'r gwaith ymchwil hwn yn gwerthuso'r rhain nac unrhyw ddatblygiad polisi neu ymyrraeth arall o waith Llywodraeth Cymru neu gorff arall—mae'n dadansoddi data ymchwil sylfaenol a gasglwyd gan brif roddwyr gofal plant 0-4 oed, a ddewiswyd yn unol â'r fethodoleg a nodir ym Mhennod 4 (Methodoleg).

- Mae'r ymchwil yn casglu data hunan-gofnodedig gan brif roddwyr gofal plentyn yng nghyd-destun cyfweiliad. Nid yw'n cynnwys elfen arsylwadol (e.e. arsylwi cyfranogwr), h.y. nid yw'n dadansoddi a yw ymddygiad ymatebwyr yng nghyswilt y cwestiynau ymchwil yn wahanol i ymddygiad a adroddwyd i ni gan y rhoddwr gofal dan sylw.
- Mae ymchwil yn dibynnu ar ddata hunan-gofnodedig ymatebwyr. Nid ydym yn cynnal cyfweiliadau â phlant, nac yn eu harsylwi, ac nid ydym ychwaith yn profi nac yn asesu cwmpas iaith plant, eu gramadeg, eu rhuglder ac ati.
- Nid yw'r ymchwil yn dadansoddi arddulliau na chyweiriau iaith y mae'r ymatebwyr yn eu defnyddio â'u plant, h.y. nid un o'r prif nodau yw ymchwilio i gyfnewid neu gymysgu codau, trawsieithu na strategaethau adborth cywiro (h.y. sut mae ymatebydd o bosibl yn cywiro iaith plentyn). Fodd bynnag, lle mae themâu o'r fath yn codi o'r data, cânt eu dadansoddi yn 6.48-6.53.
- Nid yw'r ymchwil yn casglu data sylfaenol gan unrhyw unigolion nad ydynt yn brif roddwyr gofal. Ni chyfrannodd athrawon, aelodau o'r teulu estynedig, nac unrhyw unigolion eraill at y broses o gasglu data.

1.18 Amlinellir cyfyngiadau dyluniad yr ymchwil ymhellach yn y fethodoleg (gweler 4.50) a thrafodir canlyniadau hynny o safbwynt ein canlyniadau meintiol (e.e. 5.28; 5.31; 5.34) a'n canlyniadau ansoddol (e.e. 6.8). Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol sydd yn ystyried cyfyngiadau'r gwaith ymchwil cyfredol (gweler 7-Trafodaeth, Casgliadau ac Argymhellion).

### **Fframwaith cysyniadol**

1.19 Lleolir fframwaith cysyniadol y gwaith ymchwil hwn yn bennaf ym maes cymdeithaseg iaith (wedi'i lywio gan seicoleg gymdeithasol) gan ein bod yn ymchwilio i ffactorau sydd yn ymwneud ag ymddygiad ieithyddol yng nghyd-destun trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau. Mae SIL International (1996) yn diffinio fframwaith cysyniadol sosio-ieithyddol fel 'a system involving the attitudes of a speech community toward their language, the identity of social groups, standard and non-standard forms of language, patterns and needs of national language use, the social basis of multilingualism.' Mae'r gwaith

ymchwil presennol yn ystyried sawl agwedd sosio-ieithyddol yn ei fethodoleg a'i ddadansoddi, e.e.:

- Defnydd hunan-gofnodedig rhieni o iaith â'u plant
- Defnydd personol, teuluol a chymdeithasol o'r Gymraeg
- Canfyddiadau o allu yn y Gymraeg
- Canfyddiadau mwy cyffredinol o'r Gymraeg
- I ba raddau mae trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn ymddygiad 'awtomatig', ynghyd â dadansoddiad o hunaniaeth genedlaethol a gwerthoedd personol.

### **Strwythur yr Adroddiad**

- 1.20 Mae Pennod 2 ( Fframwaith Damcaniaethol) yn ymdrin ag astudiaethau perthnasol ynghylch trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau. Yn gyntaf, edrychir yn feirniadol ar lenyddiaeth ddamcaniaethol a rhyngwladol, a dilynir hynny gan ddadansoddiad o'r gwaith ymchwil a'r gwerthuso a wnaed ym maes trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yng Nghymru. Ym Mhennod 3 (Dadansoddiad Ystadegol o Ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol), rydym yn manylu ar gefndir ystadegol trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yng Nghymru (ar sail adolygu'r llenyddiaeth ystadegol eilaidd berthnasol, a dadansoddiad newydd o ddata Cyfrifiad y degawd, a luniwyd gan y tîm). Wedyn mae Pennod 4 (Methodoleg) yn troi at agweddau methodolegol ein hymchwil sylfaenol ein hunain, â Phenodau 5 (Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosoglwyddo Iaith) a 6 (Dadansoddi'r Data Ansoddol) yn cyflwyno ein canfyddiadau. Ym Mhennod 7 (Trafodaeth, Casgliadau), rydym yn dod i gasgliadau ar sail y llenyddiaeth, a'n gwaith ymchwil sylfaenol ac eilaidd, ac yn cynnig argymhellion. Mae'r Atodiadau'n cynnwys cyfres o "hanesion" ymatebwyr, ynghyd â gwybodaeth gefndir ystadegol fanwl, yr holl offerynnau ymchwil, cyfeiriadau a dogfennau eraill cysylltiedig.

## 2. Fframwaith Damcaniaethol

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu fframwaith damcaniaethol y gwaith ymchwil presennol. Yn gyntaf, rydym yn diffinio trosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i edrych ar y defnydd o iaith o fewn y teulu. Yn ail, rydym yn crynhoi'r ffactorau y dangoswyd eu bod yn dylanwadu ar ddefnyddio mwy nag un iaith yn y cartref. Yn drydydd, rydym yn archwilio'r amrywiol strategaethau a ddefnyddir gan rieni sydd yn trosglwyddo mwy nag un iaith yn y cartref. Yn olaf, rydym yn amlygu sut mae'r gwaith hwn yn berthnasol i astudio trosglwyddiad yng nghyd-destun Cymru ac yn dangos y cyfraniadau y mae'r gwaith ymchwil hwn yn ei wneud i'r maes ehangach.

### Trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau

2.2 Diffinnir trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau gan Chrisp (2005, t. 150) fel 'the ongoing process whereby a language is transferred from generation to generation through the normal familial interactions of parents and children.' Yn benodol, mae astudiaethau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn archwilio'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol (yn ieithoedd treftadaeth ac yn ieithoedd lleiafrifol brodorol) mewn teuluoedd dwyieithog ac amlieithog.<sup>4</sup> Mae astudiaethau o'r fath felly yn eithrio drwy ddiffiniad blant sydd yn caffael ail iaith drwy addysg drochi neu'n ddiweddarach mewn bywyd ('siaradwyr newydd' fel y'u gelwir, gweler O'Rourke et al. (2015)).

### *Datblygiad iaith plant dwyieithog*

2.3 Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau o ddatblygiad iaith plant dwyieithog wedi canolbwyntio ar gaffael dwy iaith ar yr un pryd gan fabanod (Caffael Dwy Iaith Gyntaf (BFLA)) yn hytrach na chaffael dwy iaith yn ddilyniannol gan blant ifanc (Caffael Ail Iaith yn Gynnar (ESLA), gweler De Houwer (2009, t. 4)). Yr astudiaeth gynharaf o ddatblygiad iaith plentyn dwyieithog (Ronjat 1913), oedd adroddiad arsylwadol ar ddatblygiad cyfochrog plentyn yn Ffrangeg ac Almaeneg, oedd yn darparu trosolwg cyffredinol o ddatblygiad iaith. Mae astudiaethau mwy modern yn tueddu i ganolbwyntio ar gaffael

---

<sup>4</sup> Y mae nifer cynyddol o astudiaethau sydd yn edrych ar drosglwyddiad iaith mewn sefyllfa dairieithog, a datblygiad ieithyddol plant (e.e. Hoffmann (1985); Stavans (1992); Barnes (2006); Barnes (2011); Braun (2008); Braun (2012); Chevalier (2012); Devlin (2014)). Rydym yn canolbwyntio yma ar astudiaethau sydd â chyd-destun dwyieithog.

agweddau penodol ar iaith (e.e. gramadeg neu ffonoleg, ond gweler Caldas (2006) a fu'n dogfennu datblygiad dwyieithog ei blant ar draws gwahanol feysydd) ac yn aml yn cymharu datblygiad dwyieithog ag eiddo siaradwyr uniaith o'r ddwy iaith. Mae astudiaethau o'r fath yn rhy niferus i'w hadolygu yma (gweler De Houwer (1990) a De Houwer (2009) am adolygiadau helaeth) ond maent yn archwilio agweddau ar ddewis iaith a chymysgu iaith (e.e. De Houwer (1990); Genesee et al. (1995); Köppe (1996); Meisel (2001); Cantone (2007)), gramadeg (e.e. De Houwer (1990); Deuchar (1992); Meisel (2001); Serratrice (2002)), seineg a ffonoleg (e.e. Bosch & Sebastián-Gallés (2003); Paradis (2001); Kehoe (2002)) a'r lecsicon (e.e. Fenson et al. (1993); Thordardottir et al. (2006); Ezeizabarrena et al. (2013)).

- 2.4 Cafwyd sawl astudiaeth oedd yn canolbwyntio ar gaffael y Gymraeg a'r Saesneg gan blant (Jones 1970; Griffith 1976). Mae astudiaethau mwy diweddar yn archwilio agweddau penodol ar ddatblygiad iaith megis ffonoleg (Ball et al. 2001a; Ball et al. 2001b; Munro et al. 2005; Mayr et al. 2015), gramadeg (Gathercole et al. 2001; Thomas 2007; Thomas & Gathercole 2007; Gathercole & Thomas 2009), a chaffael geirfa (Rhys & Thomas 2013). Oherwydd bod modd i blant gaffael y Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft yn y cartref gan un rhiant neu'r ddau, neu trwy addysg drochi, mae sawl un o'r astudiaethau hyn wedi canolbwyntio ar effeithiau'r dull caffael ar y caffael ei hun. Mae hyn yn wahanol i'r dull BFLA sydd yn canolbwyntio ar blant sydd fel arfer yn dod i gysylltiad â dwy iaith o'r crud. Ymddengys mai canfyddiad cyffredin yw nad yw iaith y plant yn y cartref yn effeithio i raddau helaeth ar allu ieithyddol yn Saesneg ymhlith plant dwyieithog Cymraeg-Saesneg (er bod Rhys & Thomas (2013) wedi canfod gwahaniaethau rhwng plant 11 oed o gartrefi Cymraeg a chartrefi Saesneg o ran geirfa Saesneg), ond bod iaith y cartref yn cael dylanwad pwysig ar sut mae plant o'r un oed yn perfformio yn y Gymraeg (Gathercole & Thomas 2009; Mayr et al. 2015).

#### *Astudiaethau sosio-ieithyddol*

- 2.5 Tan yn ddiweddar, bu llawer o astudiaethau sosio-ieithyddol yn tueddu i ystyried trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yng nghyd-destunau ehangach cynnal iaith ar lefel facro, shifft ieithyddol, a pholisi iaith (e.e. Kloss (1966), Fishman (1991b), Clyne (1991)) yn hytrach na chynnal astudiaethau

manwl o weithredoedd unigolion a chymunedau penodol. Mae eraill yn canolbwyntio ar gyd-destunau iaith treftadaeth (h.y. grwpiau ethno-ieithyddol sydd wedi ymfudo i wlad arall. Gweler er enghraifft Barnes (1996) am astudiaeth gynnar o gyd-destun iaith frodorol). Mae astudiaethau o'r fath yn pwysleisio bod y defnydd o iaith leiafrifol yn y cartref yn benderfynydd hollbwysig ar gyfer ei ddefnydd gan blant yn ddiweddarach mewn bywyd (Fishman 1991a, t. 20; Kenji & D'Andrea 1992; Lao 2004; Park & Sarkar 2007). Mae Fishman (1991a, t. 20) yn nodi mai'r rheswm am hyn yw mai yn y cartref y mae 'the bulk of language socialisation, identity socialisation, and commitment socialisation generally takes place.' Gwelir trosglwyddiad parhaus iaith leiafrifol yn y cartref, felly, i raddau helaeth fel un o gonglfeini cynnal iaith yn y gymuned (Fishman 1991a; Kenji & D'Andrea 1992; Aitchison & Carter 1994, t. 5) ac mae'n cael ei drafod oddi mewn i fframweithiau ehangach fel ffactor sydd yn cyfrannu at hyfywedd ethno-ieithyddol cymharol<sup>5</sup> iaith (Giles et al. 1977; Darquennes 2007; Rasinger 2013). Dylid nodi bod rhai yn beirniadu'r rôl ganolog y mae Fishman (1991a) yn ei rhoi i drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, e.e. Romaine (2006), er mai ychydig sydd yn gwadu ei bwysigrwydd (Ó hlfearnáin 2013, t. 349). Yn hytrach, mae beirniaid wedi dadlau nad oes digon yn wybyddus am drosglwyddo fel proses (King et al. 2008, t. 907) ac mae gwaith diweddar, gan gynnwys yr astudiaeth hon, wedi canolbwyntio llawer mwy ar batrymau defnydd iaith yn y cartref yn hytrach nag ar effeithiau trosglwyddo ar gynnal iaith.

- 2.6 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Polisi Iaith Teulu (FLP) wedi dod i'r amlwg fel llinyn ymchwil sydd yn canolbwyntio ar y defnydd o iaith yn y cartref a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y defnydd hwnnw. Mae gwaith o'r fath yn ceisio bwrw goleuni newydd ar sut defnyddir ieithoedd yn y cartref gan rieni a phlant, a sut mae eu hagweddau'n dylanwadu ar y defnydd hwnnw. Nid yw'r ffocws ar ryngweithio *in situ* a rôl agweddau at iaith wedi cael ei astudio'n ddigonol mewn gwaith blaenorol ar BFLA, sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau Polisi Iaith Teulu o ran cynhyrchu llafar a chymdeithasoli ieithyddol (Smith-Christmas 2014, t. 511), ac ymchwil i bolisi iaith ar lefel

---

<sup>5</sup> Mae hyfywedd ethno-ieithyddol yn cyfeirio at y graddau mae grŵp yn gallu cynnal eu hunaniaeth ddiwylliannol a ieithyddol ac yn ystyried dylanwad ffactorau demograffig ar ddefnydd iaith.



macro, sydd wedi anwybyddu'r amrywiol ffactorau sydd yn dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol mewn gwahanol beuoedd (Spolsky 2012, t. 3). Fel mae King et al. (2008, t. 908) yn datgan, 'such an approach takes into account what families actually do with language in day-to-day interactions; their beliefs and ideologies about language and language use; and their goals and efforts to shape language use and learning outcomes.' Cafwyd sawl enghraifft o fynd ati i astudio Polisi Iaith Teulu yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae Schwartz & Moin (2012) yn edrych ar sut mae rhieni sydd wedi mewnfudo i Israel, ac sydd yn siarad Rwsieg, yn asesu galluoedd eu plant mewn Rwsieg a Hebraeg, ac i ba raddau mae hynny'n llywio Polisi Iaith y Teulu. Mae Ó hlfearnáin (2013) yn ymchwilio i agweddau ac arferion siaradwyr Gwyddeleg o ran trosglwyddo rhwng y cenedlaethau yng nghyd-destun mentrau cynllunio iaith diweddar, ac yn dadansoddi data meintiol ac ansoddol. Mae Smith-Christmas (2014) yn archwilio rôl aelodau estynedig y teulu ar drosglwyddo Gaeleg yr Alban ac yn ystyried sut maent yn cyd-drafod Polisi Iaith y Teulu trwy fynd ati i ddadansoddi'r data mewn modd micro-ryngweithiol.

- 2.7 Er bod astudiaethau Polisi Iaith Teulu yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a'r ideolegau penodol yng nghyswllt defnydd iaith yn y cartref (Schiffman 1996; Shohamy 2006), nodwyd nad yw'r defnydd bob amser yn benodol nac yn ganlyniad penderfyniad ymwybodol. Mae Tannenbaum (2012, t. 57) yn nodi 'the mother tongue is a central aspect of people's internal sense of self and identity [...] even when family members are not aware of these links.' Nid yw'r syniad nad yw Polisi Iaith Teulu bob amser yn cael ei fynegi'n bendant, hynny yw, nad yw teuluoedd o reidrwydd yn gwneud penderfyniadau ymwybodol ynghylch trosglwyddo iaith a'i defnydd, wedi cael ei archwilio, ac mae'n gwestiwn allweddol sydd yn derbyn sylw yn y gwaith ymchwil cyfredol.
- 2.8 Mae'r gwaith ymchwil presennol yn ymdrin â Pholisi Iaith Teulu i'r graddau yr ydym yn canolbwyntio'n bennaf ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ar gyfer hyfywedd ethno-ieithyddol a chynnal yr iaith, nid dyna sydd yn destun ymchwiliad yma (gweler 2.5). Yn yr un modd, rydym yn canolbwyntio yma ar un agwedd ar Bolisi Iaith Teulu, sef

i ba raddau mae rhieni'n penderfynu'n ymwybodol y byddant yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant a'r ffactorau demograffig, ideolegol, ac agweddol sydd yn dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref â phlant 0-4 oed. Mae angen gwaith pellach felly i edrych ar sut mae Polisi Iaith Teulu yn cael ei gyd-drafod gan rieni a phlant *in situ* (Smith-Christmas 2014), sut mae Polisi Iaith Teulu yn newid dros amser, a sut mae Polisi Iaith Teulu yn effeithio'n uniongyrchol ar gaffael a defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg gan y plant eu hunain. Symudwn ymlaen yn awr i archwilio'r strategaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer trosglwyddo dwy iaith, a ffactorau y gwelwyd eu bod yn dylanwadu ar drosglwyddo mwy nag un iaith.

### **Dulliau o fynd ati i drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau**

- 2.9 Fel y dangoswyd yn 2.4 a 2.5, cytunir i raddau helaeth mai defnydd o'r iaith leiafrifol yn y cartref yw'r ffactor mwyaf dylanwadol sydd yn dylanwadu ar gaffael a defnydd. Mae i ba raddau mae trosglwyddo iaith leiafrifol rhwng y cenedlaethau yn benderfyniad ymwybodol yn dibynnu gan mwyaf ar deuluoedd unigol (Baker 2000, t. 5). Fel y dangosir yn ein dadansoddiad o'n data ymchwil, mae llawer o rieni mewn astudiaethau blaenorol ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg yn adrodd bod siarad Cymraeg â'u plant wedi digwydd 'yn naturiol.' Fel y nodwyd yn 2.7, mae Tannenbaum (2012) yn dadlau nad yw'r pwyslais mae astudiaethau Polisi Iaith Teulu yn ei roi ar ddewisiadau penodol a wnaed gan rieni yn ystyried sut gall agweddau ac ideolegau rhieni ddylanwadu ar eu hymddygiad ieithyddol â'u plant.

#### *Cyflwyniad iaith*

- 2.10 Efen bwysig o waith ymchwil BFLA a sosio-ieithyddol fel ei gilydd, felly, fu archwilio'r berthynas rhwng cysylltiad y plant â'r iaith yn y cartref a'u hymddygiad ieithyddol wedi hynny. Mae agweddau rhieni at drosglwyddo yn troi o gwmpas 'cyflwyniad iaith.' Mae cyflwyniad iaith yn cyfeirio at 'pwy a faint o bobl sydd yn siarad pa ieithoedd â phlentyn' (De Houwer 2009, t. 107). Mae'r penderfyniadau ynghylch cyflwyniad iaith yn aml yn digwydd yn wahanol wrth ryngweithio o ddydd i ddydd (gweler 2.12; 2.19), a dylanwadir arnynt gan amrywiaeth o ffactorau (a drafodir yn yr adran nesaf). Gall cyflwyniad iaith mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad dwy iaith (Iaith A ac Iaith Alfa) gael ei ddsbarthu'n fras gan ddefnyddio'r sgema a welir yn y tabl isod.

**Tabl 1: Canlyniadau posibl o ran trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn ddwyieithog yn yr un ieithoedd.**

Senario	Rhiant A	Defnydd Rhiant A â'r plentyn	Rhiant B	Defnydd Rhiant B â'r plentyn
1	laith A + laith Alfa	laith A	laith A + laith Alfa	laith A
2	laith A + laith Alfa	laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith Alfa
3	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa
4	laith A + laith Alfa	laith A	laith A + laith Alfa	laith Alfa
5	laith A + laith Alfa	laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A
6	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A
7	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith Alfa
8	laith A + laith Alfa	laith A	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa
9	laith A + laith Alfa	laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa

2.11 Mae Tabl 1 yn dangos y gall rhieni dwyieithog ddefnyddio'r un dull trosglwyddo (cymharer senarios 1-3) neu wahanol ddulliau (cymharer senarios 4-9) ac y gallai hynny olygu defnyddio un iaith neu'r ddwy. Mae Tabl 2 yn dangos yr un dosbarthiad mewn sefyllfaoedd lle mae un riant (mewn teuluoedd dau riant) yn ddwyieithog.

**Tabl 2: Canlyniadau posibl o ran trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae un riant yn ddwyieithog.**

Senario	Rhiant A	Defnydd Rhiant A â'r plentyn	Rhiant B	Defnydd Rhiant B â'r plentyn
1	laith A + laith Alfa	laith A	laith A	laith A
2	laith A + laith Alfa	laith Alfa	laith A	laith A
3	laith A + laith Alfa	laith A + laith Alfa	laith A	laith A

- 2.12 Gellir gweld llawer o'r senarios uchod fel dulliau Un Rhiant, Un Iaith (OPOL) o ymdrin â throsglwyddo, lle mae'r naill riant yn siarad un iaith â'r plentyn, a'r rhiant arall yn siarad iaith arall (gweler Arnberg (1987, t. 87); Barron-Hauwaert (2004)). Mae astudiaethau BFLA (sydd i raddau helaeth yn ymddiddori mewn caffael dwy iaith o'r crud) wedi canolbwyntio'n bennaf ar amgylcheddau OPOL ar gyfer caffael. Mae hyn yn berthnasol i'r cyd-destun Cymreig lle gallai hon fod yn strategaeth a ddefnyddir gan gyplau os nad yw un rhiant yn siarad Cymraeg neu os nad yw'n teimlo'n hyderus yn yr iaith ac mae'n defnyddio Saesneg. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos, er bod OPOL yn aml yn cael ei hyrwyddo fel opsiwn gorau wrth drosglwyddo dwy iaith, y gallai fod yn ddelfrydol yn achos llawer o rieni, ond nad yw hynny'n cael ei wireddu'n llwyr mewn gwirionedd (Goodz 1994).
- 2.13 Dadansoddodd De Houwer (2007) hunan-adroddiadau rhieni a phlant ynghylch defnydd iaith mewn 1,899 o deuluoedd dwyieithog yn Fflandrys (lle roedd o leiaf un rhiant yn siarad iaith arall). Canfu fod y berthynas rhwng defnydd rhiant a defnydd plentyn yn gymhleth. Roedd bron 17 y cant o'r rhieni'n defnyddio'r strategaeth OPOL, o gymharu â 42.35% o rieni oedd ill dau yn defnyddio'r ddwy iaith. Yn y 40.91% o deuluoedd a oedd yn weddill, roedd y naill riant yn defnyddio'r ddwy iaith a'r llall yn defnyddio un (ni nodwyd a oedd y teuluoedd hyn yn cynnwys dau riant dwyieithog neu un). Mewn teuluoedd â dau riant (lle roedd o leiaf un ohonynt yn defnyddio'r iaith leiafrifol), gallai 76.15% o'r plant siarad yr iaith leiafrifol. Er bod hyn yn dangos bod trosglwyddo'r iaith leiafrifol yn y cartref yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion,<sup>6</sup> roedd gwahaniaethau trawiadol yng ngallu'r plant i siarad yr ieithoedd lleiafrifol, yn dibynnu ar sut roedd y rhieni'n defnyddio'r iaith leiafrifol. Roedd y trosglwyddo'n fwyaf llwyddiannus pan fyddai'r ddau riant yn defnyddio'r iaith leiafrifol yn unig yn y cartref (roedd gan 96.92% o deuluoedd o leiaf un plentyn a oedd yn siarad yr iaith leiafrifol). Roedd hyn yn cymharu â 93.42% lle roedd un rhiant yn defnyddio'r ddwy iaith a'r rhiant arall yn siarad yr iaith leiafrifol, 79.18% lle roedd y ddau riant yn defnyddio'r ddwy iaith, 74.24% lle roedd y rhieni'n gweithredu polisi OPOL a 35.70% lle'r oedd un rhiant yn siarad Iseldireg a'r iaith leiafrifol a'r rhiant arall yn siarad

---

<sup>6</sup> Nid oedd yr ieithoedd lleiafrifol a siaredid gan gyfranogwyr yr astudiaeth yn cael eu haddysgu yn y system addysg, ac felly roedd eu caffael yn digwydd o ganlyniad i drosglwyddo gan y rhieni.

Iseldireg yn unig (t. 419). Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod strategaethau rhieni ar gyfer trosglwyddo (p'un a ydynt yn fwriadol ai peidio) yn effeithio ar y defnydd o'r iaith leiafrifol. Yn arbennig, ac fel mae De Houwer (2007, t. 420) yn nodi, 'parents in a bilingual setting have often been advised to use a one person-one language condition. [...] As many parents have unfortunately found out, and as the results of this study show, the one person-one language situation appears to be neither a necessary nor a sufficient condition [for the acquisition of both languages].' Nid yw canfyddiadau De Houwer (2007) yn golygu nad yw'r strategaeth OPOL yn fuddiol mewn sefyllfaoedd lle nad oes ond un rhiant yn siarad yr iaith leiafrifol. Serch hynny, y mae'n awgrymu bod trosglwyddo llwyddiannus yn fwy tebygol mewn cyd-destunau lle mae mewnbyn plentyn yn yr iaith leiafrifol yn cael ei fwyafu gymaint â phosibl. Mae gwaith dilynol wedi pwysleisio pwysigrwydd 'amlder mewnbyn' fel y'i gelwir ar gyfer plant uniaith a dwyieithog (De Houwer (2009, t. 119).

*Defnydd o iaith in situ: modd iaith, dwyieithrwydd deinamig, a strategaethau disgwrs.*

- 2.14 Yn ogystal â hyn, mae angen i'r defnydd o iaith o fewn y teulu roi sylw i'r ymchwil sydd yn ymdrin yn fwy cyfannol â dwyieithrwydd, gan bwysleisio nad yw dwy iaith pobl ddwyieithog wedi'u gwahanu gymaint ag y gellid ei ragdybio (Treffers-Daller & Sakel 2012). Mae hyn yn adlewyrchu'r syniad o 'fodd iaith' (Grosjean 1989, 2001) sydd yn honni y gellir rhoi llafar dwyieithog ar gontinwmm. Mae Grosjean (2001, t. 2) yn datgan, 'in the monolingual speech mode, the bilingual deactivated one language (but never totally) and in the bilingual mode, the bilingual speaker chooses the base language, activates the other language and calls upon it from time to time in the form of code-switches and borrowings.' Mae De Houwer (2009, t. 116) yn pwysleisio rôl bosibl sefyllfa neu ddewis hyd yn oed ar a yw siaradwyr yn cynhyrchu llafar uniaith neu ddwyieithog, ac mae'n diffinio hynny fel 'cyfeiriadedd iaith.' Mae García (2013, t. 112) yn nodi 'bilingual children growing up in bilingual households can change ways of speaking, as well as "accents" on and off, depending on the social context in which they're interacting and the identities they're performing or want to project.'

- 2.15 Mae astudiaethau sosio-ieithyddol wedi cyflwyno ‘dwyieithrwydd deinamig’ fel fframwaith (gweler García (2009) a Lewis et al. (2012b) am drosolwg o dermau tebyg<sup>7</sup>) ar gyfer astudio rhyngweithio beunyddiol ieithoedd mewn cyd-destunau dwyieithog ac amlieithog. Mae cysyniad dwyieithrwydd deinamig yn cyfuno prosesau amrywiol sydd yn rhan o lafar dwyieithog, megis cyfnewid codau, trawsieithu a sgysiau sydd yn defnyddio’r ddwy iaith, ac mae’n pwysleisio bod defnydd dwyieithog o iaith yn hyblyg ac yn dibynnu ar ffactorau sefyllfaol.
- 2.16 Er bod ‘cymysgu iaith’ yn aml yn cael ei nodi fel cyfnod yn natblygiad caffael dwyieithog, lle mae plant yn ‘drysu’ rhwng ieithoedd (Cantone 2007, t. 13), mae ymchwil ar gyfnewid codau (e.e. Poplack (1980)) wedi dangos bod cymysgu ieithoedd yn nodweddu llafar plant ac oedolion dwyieithog, dan ddylanwad nifer o ffactorau. Yn wir, mae gwaith yng nghyd-destun y Gymraeg wedi dangos bod cyfnewid codau ar lefel y frawddeg (cynnwys elfennau Saesneg mewn cymalau Cymraeg) yn fwy tebygol ymhlith siaradwyr sydd yn oedolion iau ac ymhlith y rhai sydd yn caffael y ddwy iaith o’r crud, yn hytrach na’r rhai sydd yn caffael un o’r ieithoedd yn ddiweddarach (Deuchar et al. 2016). Yn hytrach na bod yn arwydd o gaffael annigonol, felly, mae cyfnewid codau yn strategaeth a ddefnyddir i raddau amrywiol gan bob siaradwr dwyieithog wrth gyfathrebu â siaradwyr dwyieithog eraill (h.y. pan fyddant yn gweithredu mewn ‘modd mwy dwyieithog’). Mae plant dwyieithog yn caffael strategaethau o’r fath fel rhan o’u cymhwysedd sosio-ieithyddol yn eu dwy iaith (e.e. Lanza (2004)).
- 2.17 Mae trawsieithu yn cyfeirio at yr ystod o arferion disgwrs y gall siaradwyr dwyieithog eu defnyddio, ac mae’n pwysleisio natur ddeinamig defnydd posibl siaradwyr dwyieithog o’u dwy iaith (Baker 2011, t. 288). Datblygwyd y cysyniad hwn mewn perthynas ag addysg (ac addysg ddwyieithog Cymraeg-Saesneg yn benodol, gweler Lewis et al. (2012a) am drosolwg), ond mae sut mae siaradwyr dwyieithog yn trawsieithu mewn gwahanol gyd-destunau yn ffocws ymchwiliad ar hyn o bryd (García & Wei 2014). Mae Song (2015), er enghraifft, yn edrych ar arferion trawsieithu mewn cartrefi dwyieithog

---

<sup>7</sup> Er enghraifft, mae Creese & Blackledge (2010) yn defnyddio’r term ‘dwyieithrwydd hyblyg’ i ddisgrifio dulliau addysgu iaith nad ydynt yn dibynnu ar gadw ieithoedd yn bendant ar wahân.

Saesneg-Corëeg yn yr Unol Daleithiau, a chanfu fod rhieni a phlant yn aml yn defnyddio'r naill iaith i helpu i ategu ystyron yn y llall.

- 2.18 Canlyniad arall posibl i ryngweithio dwyieithog yw sgysiau 'deuieithog' (dilingual), lle mae gan y ddau sydd yn cyfathrebu ddealltwriaeth o ddwy iaith, ac maent yn defnyddio gwahanol ieithoedd wrth sgwsio â'i gilydd (De Houwer 2009, t. 361). Nodir hyn mewn nifer o astudiaethau o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau (e.e. Nesteruk (2010); Smith-Christmas (2014); McCabe (2016)) a chanfuwyd yn aml ei fod yn arwain at rwystredigaeth i rieni yn y sefyllfa orau a theimlad o bellter emosiynol rhwng rhieni a phlant yn y sefyllfa waethaf (McCabe 2016, t. 185). Mae hyn hefyd yn amlygu sut gall strategaethau rhieni ar gyfer trosglwyddo iaith fod yn aflwyddiannus, a'r gwahaniaethau posibl rhwng canlyniadau cadarnhaol tuag at drosglwyddo a'r realiti ieithyddol (Nesteruk 2010, t. 283).
- 2.19 Mae dadansoddiadau o ddisgwrs rhwng rhieni a phlant mewn cyd-destunau dwyieithog wedi dangos y gall sut mae ymddygiad 'dwyieithog deinamig' o'r fath yn datblygu ddibynnu ar agweddau'r rhieni at ddwyieithrwydd. Er enghraifft, gall rhieni ymateb yn ffafriol i gymysgu, gwneud dim mwy na symud ymlaen â'r sgws, neu fynd ati'n benodol i'w wrthweithio trwy ddefnyddio nifer o strategaethau disgwrs (gweler De Houwer (2009, t. 135) am drosolwg o strategaethau o'r fath) megis gofyn i'r plentyn ailadrodd eu hunain yn yr iaith arall (gweler Lanza (1997); Nicoladis & Genesee (1998); Lanza (2004)).
- 2.20 I grynhoi, er bod llawer o astudiaethau yn trin defnydd dwyieithog o iaith fel dewis pendant neu ddeuaidd, mae gwaith yn BFLA wedi dangos bod rhyngweithio rhiant a phlentyn o ddydd i ddydd yn nodweddiadol yn cynnwys y ddwy iaith ac, mewn achosion lle gwelir hyn fel rhywbeth negyddol gan y rhiant, strategaethau disgwrs sydd yn ceisio cywiro dewis iaith y plant. Yn yr un modd, mae astudiaethau sosio-ieithyddol yn pwysleisio natur gyfannol y repertoire dwyieithog ac yn gweld dewis iaith dwyieithog fel proses ddeinamig. Fel y nodwyd yn 2.4, ein pwyslais yn y gwaith ymchwil hwn yw'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a defnydd iaith yn y teulu. Er ein bod yn cydnabod natur gyfnewidiol rhyngweithio plentyn a rhoddwr gofal dwyieithog, rydym yn canolbwyntio ar adroddiadau rhieni ynghylch eu defnydd cyffredinol o iaith â'u plant a'r ffactorau sydd yn

dylanwadu ar y defnydd hwn o iaith. Yn ein dadansoddiad o'r data ansoddol a gasglwyd gennym, rydym hefyd, fodd bynnag, yn ymchwilio i sut gallai defnydd rhieni a phlant o iaith fod yn fwy hyblyg.

### **Ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau**

- 2.21 Amlygodd yr adran flaenorol y dulliau o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a ddefnyddir gan rieni a'r defnydd dilynol o iaith yn y cartref. Nod yr adran hon yw edrych ar y ffactorau sydd yn dylanwadu ar p'un a fydd yr iaith yn cael ei throsglwyddo yn y cartref ai peidio.

#### *Ffactorau mewnbwn yn y cartref*

- 2.22 Dangosodd yr adran flaenorol mai'r dulliau trosglwyddo sydd yn ffafrio'r mewnbwn mwyaf yn yr iaith leiafrifol yw'r rhai mwyaf tebygol o hwyluso trosglwyddo llwyddiannus. Ymddengys bod trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn fwy tebygol mewn sefyllfaoedd lle mae'r ddau riant (mewn teuluoedd dau riant) yn siarad yr iaith darged ('cyplau lle ceir priodas ieithyddol' fel y'u gelwir mewn cyd-destunau treftadaeth) nag mewn achosion lle mae un riant yn unig yn ddwyieithog ('cyplau lle na cheir priodas ieithyddol', gweler Varro (1998)). Er y gall y rhesymau dros hyn fod yn amlwg (efallai bod y ddau riant yn defnyddio'r iaith â'i gilydd cyn geni'r plentyn a gellir ystyried hynny'n 'naturiol'), mae lluo o ffactorau eraill yn effeithio ar drosglwyddo ac yn sicr, nid y math o deulu yw'r unig ffactor sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo. Mewn astudiaeth o ymfudwyr o'r Swistir yn Awstralia, er enghraifft, ni chafodd Schüpbach (2009) hyd i unrhyw gyfatebiaeth wirioneddol rhwng y math o deulu a'r penderfyniad i drosglwyddo Almaeneg y Swistir. Yr hyn sydd yn amlwg, o'r astudiaeth hon ac astudiaethau blaenorol, yw bod agweddau tuag at yr iaith a dwyieithrwydd yn dylanwadu ar drosglwyddo, beth bynnag yw cefndir iaith y rhieni.
- 2.23 Dangoswyd hefyd y gall strategaethau tuag at drosglwyddo a iaith/ieithoedd y cartref newid wrth i'r plentyn fynd yn hŷn, yn enwedig mewn achosion iaith treftadaeth lle mae'r plentyn yn cymdeithasu fwyfwy yn iaith y mwyafrif. Mae'r oed pan fydd plentyn yn dechrau addysg (Arnberg 1987, t. 89) a hefyd y glasoed yn gyfnodau penodol. Mae De Houwer (2009, t. 132) yn datgan 'it is a well-known phenomenon that once young BFLA children start to attend



school in one of their languages, the school language [...] “takes over.” Gall hynny arwain at ailwerthuso sut mae ieithoedd yn cael eu defnyddio yn y cartref. Mewn llawer o gyd-destunau, gall hyn arwain at newid i iaith y mwyafrif (McCabe 2016), ymdrechion llymach i orfodi defnydd o’r iaith leiafrifol (Remennick 2003) neu fwy o strategaethau disgwrs deueithog (Smith-Christmas 2014). Er bod strategaethau o’r fath fel petaent yn gweithio mewn llawer o gyd-destunau, adroddwyd hefyd fod rhieni’n newid i iaith y mwyafrif yn ystod y glasoed oherwydd eu bod yn teimlo bod strategaethau o’r fath yn creu pellter emosiynol rhyngddynt a’u plant (Nesteruk 2010).

- 2.24 Ymddengys mai rhwystr cysylltiedig rhag trosglwyddo yw’r defnydd o iaith rhwng brodyr a chwiorydd. Mewn llawer o gyd-destunau, yn enwedig lle mae addysg a rhyngweithio o fewn y grŵp cyfoedion yn digwydd yn iaith y mwyafrif, dangoswyd bod brodyr a chwiorydd yn defnyddio iaith y mwyafrif â’i gilydd. O ganlyniad, nodwyd bod trosglwyddo’n haws â’r plentyn hynaf, gan fod y dylanwad hwn yn absennol (e.e. Smolicz et al. (2001); Nesteruk (2010, t. 280); Velázquez et al. (2015)).
- 2.25 Gwnaed llawer o waith ar y berthynas rhwng rhyw a defnydd iaith ym maes cymdeithaseg iaith, ond mae llawer o’r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar y gwahaniaethau o ran sut mae dynion a menywod yn siarad, yn hytrach na’u defnydd o iaith (gweler Labov 2001; Coates 2004; Eckert & McConnell-Ginet 2013 am orolwg). Gellid dadlau’n arbennig nad yw rôl rhyw’r rhiant ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau wedi cael ei hastudio’n ddigonol (Gweler Lük 1986; Lyon 1991, 1996; Leconte 1997, t. 120; Jones & Morris 2009). Mewn astudiaethau BFLA, dangoswyd bod gan rieni heterorywiol wahanol arddulliau rhyngweithio (Lanza 1997) ond nid ymddengys bod hynny’n effeithio ar debygolrwydd defnydd y plant o iaith (De Houwer 2007). O ran y trosglwyddo ei hun, dylid nodi bod mamau, yn hanesyddol, wedi bod yn fwy tebygol o fod yn brif roddwr gofal, a gall hyn olygu mai rôl y prif roddwr gofal sydd yn bwysig yn hytrach na rhyw y rhiant.
- 2.26 Mewn achosion lle nad oes ond un rhiant yn ddwyieithog, gall pwy yw’r prif roddwr gofal ddylanwadu ar a yw’r iaith leiafrifol yn cael ei throsglwyddo, hynny yw, pwy sydd yn treulio fwyaf o amser yn rhyngweithio â’r plentyn. Canfu Lük (1986), er enghraifft, mai iaith y fam oedd yn dylanwadu ar ba iaith roedd y plentyn yn ei defnyddio amlaf. Mewn astudiaeth o ryw 400 o

rieni o Ynys Môn (Gogledd Cymru), canfu Lyon (1991) fod 72% o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf pan oedd y fam yn siarad Cymraeg, o gymharu â 46% mewn teuluoedd lle roedd y tad yn unig yn siarad yr iaith. Mewn astudiaeth fwy diweddar o 12 teulu cymysgiaith yng Nghymru, canfu Jones & Morris (2009) fod plant oedd â mamau Cymraeg eu hiaith yn cael mwy o gyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg (y fam oedd y prif roddwr gofal hefyd ym mhob achos ond un). Canfu Jones & Morris (2009) hefyd batrymau gwerth eu nodi yn agweddau rhieni at drosglwyddo'r Gymraeg. Yn yr un achos lle roedd plentyn yn cymdeithasu'n bennaf yn Gymraeg, er nad oedd y prif roddwr gofal (y fam) yn siarad Cymraeg, roedd gan y ddau riant agweddau cadarnhaol iawn at drosglwyddo'r iaith. Yn yr un modd, roedd gan y plant hynny a oedd yn cymdeithasu i raddau helaeth yn Saesneg rieni nad oeddent yn gosod llawer o werth ar yr iaith na'i throsglwyddo. Mae hyn yn dangos rôl ideolegau rhieni o safbwynt trosglwyddo, ac at hynny y trown yn awr.

#### *Ideolegau rhieni*

- 2.27 Mae'n hysbys bod agweddau neu ideolegau rhieni yn chwarae rôl allweddol wrth drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a bod hynny'n wir yn achos teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad yr iaith dan sylw a theuluoedd lle nad oes ond un rhiant dwyieithog. Mewn achosion lle nad oes ond un rhiant yn ddwyieithog, mae'n amlwg bod trosglwyddo yn fwy tebygol pan fydd gan y partner uniaith agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd ac mae'n cefnogi'r defnydd o'r iaith yn y cartref (Varro 1998; Søndergaard & Norrby 2006; Jones & Morris 2009; Mejía 2015; Festman et al. 2017).
- 2.28 Hyd eithaf ein gwybodaeth, nid oes unrhyw astudiaethau sydd yn archwilio rôl polisi iaith teulu penodol (o gymharu â bod heb strategaeth ar gyfer defnydd iaith) ar lwyddiant trosglwyddo. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae arbenigwyr yn pwysleisio'r angen am gynllun clir ar gyfer trosglwyddo (yn enwedig mewn cyd-destunau OPOL) i hwyluso'r trosglwyddo ac i sicrhau bod y plentyn yn derbyn cymaint â phosibl o fewnbwn yn yr iaith leiafrifol (e.e. Arnberg (1987, t. 96); Cunningham & Andersson (2006, t. 18)). Mae Baker (2000, t. 6) yn awgrymu, er enghraifft, 'in families where bilingualism seems more of a challenge than cloudless sunshine, language engineering is important. Careful decisions about family language planning need making.'

Mae De Houwer (2009) yn cydnabod na fydd rhieni o reidrwydd yn gwneud penderfyniadau ymwybodol ynghylch defnydd iaith â'u plant, ond mae'n pwysleisio'r angen i rieni gydnabod eu rôl yn natblygiad iaith eu plant ('cred mewn effaith' fel y'i gelwir'). Dywed 'parents with an impact belief will undertake specific steps to foster their children's language development. Even though their decisions here may not be very conscious, they may seek out opportunities for their children to hear more of a particular language' (De Houwer 2009, tt. 95-96). Gellir gweld agweddau rhieni tuag at eu gallu eu hunain yn yr iaith leiafrifol hefyd fel rhwystr rhag trosglwyddo. Canfu Beykont (2010, t. 103), er enghraifft, fod hynny'n wir ymhlith ymfudwyr o Dwrci yn Awstralia, a oedd yn ofni nad oedd eu Twrceg yn 'ddigon da' i'w defnyddio â'u plant.

- 2.29 Er na chynhaliwyd astudiaethau cymharol o bwysigrwydd meddu ar strategaeth ar gyfer trosglwyddo, dangoswyd eisoes yn yr adran hon y gall strategaethau fod yn hyblyg (gweler 2.6) ac na fyddant o reidrwydd yn cynrychioli realiti'r rhyngweithio o ddydd i ddydd (gweler 2.14). Ffactor arall sydd yn dylanwadu ar lwyddiant trosglwyddo, felly, yw defnydd y plentyn o iaith yn y cartref a chanfyddiadau rhieni ynghylch cymhwysedd. Er enghraifft, gall ofnau rhieni ynghylch effeithlonrwydd trosglwyddo<sup>8</sup> arwain at ymdrech fwy ymwybodol i leiafu defnydd o iaith y mwyafrif (e.e. Remennick (2003)). Fel arall, gall ofnau y bydd trosglwyddo'r iaith leiafrifol yn effeithio ar gaffael iaith y mwyafrif arwain at ddefnydd mwy cymysg o iaith yn y cartref (e.e. Ó hlfearnáin (2013)).
- 2.30 Mewn llawer o gyd-destunau iaith treftadaeth, dangoswyd bod teimladau cryf tuag at ethnigrwydd y dreftadaeth yn ffactor pwysig sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo. Mewn astudiaeth o 858 o ymfudwyr cenhedlaeth gyntaf ac ail genhedlaeth o Dwrci a aeth i Awstralia, canfu Beykont (2010) fod 91% o'r ymatebwyr yn teimlo bod trosglwyddo Twrceg yn bwysig. Er mai 3% yn unig a oedd yn nodi rhesymau economaidd am hynny, dywedodd 53% fod trosglwyddo'n bwysig i gynnal eu hunaniaeth fel pobl o Dwrci. Cafwyd y canlyniad hwn mewn nifer o sefyllfaoedd iaith dreftadaeth eraill (Smolicz et al. 2001; Park & Sarkar 2007, t. 228; Nesteruk 2010, t. 278).

---

<sup>8</sup> Dangoswyd bod y gyfatebiaeth rhwng canfyddiadau rhieni ynghylch gallu ieithyddol a gallu gwirioneddol yn gymharol wan, gweler Schwartz & Moin (2012).

- 2.31 Cafwyd llai o astudiaethau sydd yn archwilio dylanwad ethnigrwydd mewn cyd-destunau iaith frodorol. Mae Bankston & Henry (1998, t. 11) yn cwestiynu'r rhagdybiaeth bod y berthynas rhwng ethnigrwydd a throsglwyddo iaith yn un syml. Yn eu hastudiaeth o ethnigrwydd Cajun a throsglwyddo Ffrangeg Louisiana (UDA), canfuwyd bod siaradwyr Ffrangeg a oedd yn hawlio ethnigrwydd Cajun yn llai tebygol o drosglwyddo'r Ffrangeg. Nodant fod 'profound ambivalence regarding language and ethnicity of those who identify most strongly with the ethnic group' (Bankston & Henry 1998, t. 21) ac maent yn priodoli hyn i'r stigma hanesyddol sydd ynghlwm wrth eu hamrywiaeth hwy ar Ffrangeg.
- 2.32 Mae Smolicz (1981) yn amlinellu fframwaith damcaniaethol ar gyfer y berthynas rhwng iaith a ieithoedd lleiafrifol a seiliwyd ar y cysyniad o Werthoedd Craidd. Mae'n nodi mai '[core values] form the heartland of a group's culture and act as identifying values that are symbolic of the group and its membership' (Smolicz 1992, t. 279). Mae'r gwerthoedd craidd hyn yn debygol o amrywio rhwng grwpiau ac unigolion (Smolicz 1981). Mae grwpiau neu hyd yn oed deuluoedd lle gwelir iaith fel un o werthoedd craidd hunaniaeth ddiwylliannol yn fwy tebygol o gynnal yr iaith honno drwy drosglwyddo (Remennick 2003, t. 437).
- 2.33 Mae hefyd yn amlwg y gall ideoleg rhieni o safbwynt trosglwyddo gynnwys y manteision gwybyddol ac academaidd canfyddedig (McCabe 2016, t. 180) neu'n wir fanteision economaidd dwyieithrwydd (Mejía 2015, t. 33). Canfuwyd bod y canfyddiadau hyn yn bodoli mewn astudiaethau o rieni sydd yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg (Hodges 2012) er na welwyd eto a yw hwn yn ffactor sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo.

*Rôl y teulu estynedig, a rhwydweithiau cymdeithasol a chymuned ar drosglwyddo iaith*

- 2.34 Dangoswyd hefyd fod dod i gysylltiad estynedig â'r iaith leiafrifol drwy ryngweithio rheolaidd â phobl heblaw rhieni hefyd yn dylanwadu ar drosglwyddo. Yn achos siaradwyr iaith treftadaeth, amlygir teithiau i'r famwlad a chyfathrebu rheolaidd â'r teulu estynedig dros y rhyngrwyd fel ffactorau sydd yn cynorthwyo trosglwyddo. Ymddengys bod yr effaith hon yn cael ei chryfhau (er nad edrychwyd yn feintiol ar hynny) pan fydd y teulu

estynedig (fel arfer neiniau a theidiau) yn byw â'r teulu neu gerllaw gan eu bod yn cynnal defnydd o'r iaith leiafrifol (Nesteruk 2010).

- 2.35 Mae ieithoedd hefyd yn fwy tebygol o gael eu defnyddio yn y cartref pan fydd rhieni a phlant yn dod i gysylltiad rheolaidd â phobl eraill sydd yn siarad yr iaith (Nesteruk 2010, t. 273). Mewn geiriau eraill, pan fydd y teulu'n rhan o gymuned lafar ehangach y mae'n dod i gysylltiad â hi'n rheolaidd. Yn ôl (Meyerhoff 2011, t. 315) 'subjective criteria would group speakers as a speech community if they shared a sense of and belief in co-membership.' Gall yr aelodaeth hon fod yn seiliedig ar ffiniau daearyddol neu ar hunaniaeth ieithyddol (neu ethnig) gyffredin (Cohen 1985).
- 2.36 Cysyniad cysylltiedig yw'r 'Gymuned Ymarfer' (Community of Practice neu CoP, gweler Eckert & McConnell-Ginet (1992)). Mae dull CoP yn archwilio sut mae unigolion *oddi mewn i* gymuned lafar yn ffurfio CoP ar sail gwerthoedd a rennir a sut mae arferion cymdeithasol yn deillio o hynny. Cysyniad ychydig yn wahanol, er ei fod yn gysylltiedig, yw'r rhwydwaith cymdeithasol. Er eu bod yn aelodau o gymuned lafar ehangach, mae gan unigolion rwydweithiau cymdeithasol a all gynnwys aelodau o gymunedau llafar eraill. Mae'n hysbys y bydd siaradwyr sydd â rhwydweithiau cymdeithasol dwysach, h.y. cysylltiadau clòs â rhai o'r un gymuned lafar, yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith na'r rheiny sydd â rhwydweithiau cymdeithasol llac, h.y. y rhai â chysylltiadau mwy rhydd (Milroy & Milroy 1985). Mae'n bosibl y bydd aelodau o rwydweithiau cymdeithasol rhieni yn mynd ati i annog neu i atal trosglwyddo (e.e. Søndergaard & Norrby (2006). Gweler hefyd y 'clystyrau' o deulu a ffrindiau y mae (Gathercole et al. 2007) yn cyfeirio atynt).
- 2.37 Mae astudiaethau o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn cyfeirio'n bennaf at bwysigrwydd cysylltiadau â'r gymuned lafar ethno-ieithyddol ehangach trwy rwydweithiau cymdeithasol (Velázquez (2013); Velázquez et al. (2015)). Gellid dadlau bod angen mwy o waith i ganfod sut mae siaradwyr yn 'dychmygu' (Anderson 1991) eu cymuned lafar, i ba raddau mae rhwydweithiau cymdeithasol yn gwahaniaethu o un teulu i'r nesaf, a dylanwad hynny ar drosglwyddo, ac ar CoPs yn y cymunedau hynny. Er nad yw'r gwaith ymchwil cyfredol yn darparu cyfrif ethnograffig o safbwynt CoP, rydym yn ystyried i ba raddau mae rhieni'n teimlo eu bod yn rhan o gymuned

ehangach o siaradwyr Cymraeg ac i ba raddau mae eu rhwydweithiau cymdeithasol yn cynnwys siaradwyr o'r gymuned hon.

#### *Cefndir economaidd-gymdeithasol*

- 2.38 Gall cefndir economaidd-gymdeithasol rhieni ddylanwadu ar drosglwyddo/peidio â throsglwyddo iaith. Mewn astudiaeth o ymfudwyr Rwsieg eu hiaith yn Israel, mae Remennick (2003, t. 450) yn nodi 'educated migrant parents perceive Russian as an important vehicle for transmission of their core cultural values' (gweler hefyd Nesteruk (2010)). Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill wedi canfod bod hyn yn wir yn achos rhieni o grwpiau economaidd-gymdeithasol is (gweler 2.30) ac mae'r graddau mae hyn yn ffactor fel petai'n dibynnu ar gyd-destun diwylliannol-gymdeithasol y trosglwyddo. Yn eu hastudiaeth o Ffrangeg Louisiana, er enghraifft, canfu Bankston & Henry (1998) mai po uchaf oedd lefel addysg pen yr aelwyd, lleiaf tebygol oedd hi y byddai Ffrangeg yn cael ei throsglwyddo. Ni chafwyd bod incwm yr aelwyd yn rhagfynegydd pwysig ar gyfer trosglwyddo. Dylid nodi hefyd nad yw mwyafrif yr astudiaethau'n ymchwilio i gefndir economaidd-gymdeithasol fel ffactor yng nghyswllt trosglwyddo, a bod tuedd iddynt ganolbwyntio ar ymfudwyr o gefndiroedd tebyg.

#### **Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau**

- 2.39 Mae'r adran hon yn adolygu llenyddiaeth ar ymchwil ac ymyriadau ym maes trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yng Nghymru.
- 2.40 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil academaidd cynharaf sydd yn dadansoddi trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yng nghyd-destun y Gymraeg gan Harrison et al. (1981); y prif gwestiwn ymchwil oedd 'why do some bilingual mothers in Wales rear monolingual children?' (Harrison et al. 1981, t. 1).
- 2.41 Pynciau ymchwil yr astudiaeth oedd 311 'bilingual mothers with at least one child aged from exactly two up to seven years', a oedd yn byw mewn ardaloedd 'that are traditionally, and still, are strong ground for Welsh' (Harrison et al. 1981, t. 1). Roedd gan yr ardaloedd a dargedwyd boblogaeth o 60% o leiaf a oedd yn siarad Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad 1971.<sup>9</sup>

---

<sup>9</sup> Yr ardaloedd lle cynhaliwyd y gwaith ymchwil oedd (Abergwaun, Amlwch *neu* Langefni, Blaenau Ffestiniog *neu* Fethesda, Caernarfon, Caerfyrddin *neu* Lanbedr-pont-Steffan, Rhydaman *neu* Ystradgynlais, a Phontardawe).

- 2.42 Holwyd yr ymatebwyr ynghylch cyfrwng iaith addysg eu plant (a dymuniadau eu gŵr [mae'r awduron wedi cymryd yn ganiataol bod y rhieni ar aelwydydd lle ceir cwpl yn briod] o ran addysg y plentyn, er mwyn canfod a yw'r ddau bartner yn gytûn yn hyn o beth). Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch ym mha sefydliadau yr oedd yr ymatebydd yn teimlo y byddai gwybodaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg o fantais, a oedd y Gymraeg yn 'colli tir', ac a oedd hynny'n beth da, drwg neu niwtral. Ychwanegwyd at ddata'r holiadur gan arsylwadau ysgrifenedig gweithwyr maes ynghylch defnydd o iaith yn y cartref.
- 2.43 Prif gasgliad yr adroddiad yw nad yw mamau dwyieithog yn 'intentionally damage the Welsh language by rearing monolingual English children. Indeed, the fact that their children do not speak Welsh is a source of concern and possible regret to them' (Harrison et al. 1981, t. 61). Yn hytrach na phenderfyniad iaith ymwybodol gwrth-Gymreig, canfu'r adroddiad 'bilingual mothers rear monolingual English children because the encouragement, even pressures, for that language generally are stronger and more widespread than the corresponding support and facilities fostering bilingualism in Wales' (Harrison et al. 1981, t. 61). Daw Hindley (1991) i gasgliadau tebyg ynghylch diffyg trosglwyddo'r Wyddeleg i'r genhedlaeth nesaf.
- 2.44 Mae'r ymchwilyr yn nodi bod elfennau trawiadol o debyg yn eu hagwedd at y Gymraeg yn cael eu rhannu gan y mamau dwyieithog oedd wedi trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a'r rhai oedd heb wneud hynny. Mae mwyafrif llethol y ddau grŵp 'collectively and solidly against Welsh declining' (Harrison et al. 1981, t. 61) ac roedd un o bob pump o'r mamau hynny yn yr arolwg oedd wedi magu eu plant yn uniaith Saesneg yn credu 'it would have been better had their children been bilingual.'
- 2.45 Credai chwe deg y cant o'r sampl cyfan 'that family life was better for having Welsh-speaking children, and 80 per cent of all mothers wanted their children to have education in secondary schools teaching 'in both English and Welsh' (Harrison et al. 1981, t. 61). Mae'r ymchwilyr yn nodi bwlch rhwng gwerthoedd a gweithredu, 'a gulf between the generalised goodwill and the particular failures to transmit the Welsh language' (Harrison et al. 1981, t. 61). Mae'r prosiect ymchwil presennol yn dadansoddi agweddau

tuag at drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau ym Mhennod 5 (Cymhwysu Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith).

- 2.46 Mae Harrison et al. (1981) yn dod i'r casgliad bod cymdeithas yn ymrannu ar sail dosbarth o ran y mamau hynny sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny, a bod y gwahaniaeth hwn o ran dosbarth cymdeithasol yn amlygu ei hun yn nyheadau mamau ar gyfer eu plant. Mae aelodau o ddosbarth cymdeithasol tri (galwedigaethau gwaith llaw medrus a galwedigaethau heblaw gwaith llaw) 'strikingly [do] not rear bilingual children' (Harrison et al. 1981, t. 62). Mae'r ymchwilyr yn priodoli'r canfyddiad hwn i ddyheadau mamau ar gyfer cyflogaeth eu plant yn y dyfodol, ac nad yw'r mamau hynny'n gweld eu plant yn mynd i yrfaedd 'in which a knowledge of Welsh is recognised as helpful' (Harrison et al. 1981, t. 62). Mae ein dadansoddiad ninnau (gweler, yn arbennig, Tabl 17 i Dabl 21), hefyd yn darparu data ynghylch trosglwyddo yn ôl dosbarth cymdeithasol, a gasglwyd o'r Cyfrifiad dengmlyneddol).
- 2.47 Datgelodd Harrison et al. (1981) fod 'family tensions in some linguistically mixed marriages', a dangosodd, os oedd gan dad deimladau negyddol ynghylch y Gymraeg, nad oedd gan neb yn y sampl blant dwyieithog. Mae'r ymchwilyr yn nodi bod dylanwad tadau ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn aruthrol. Ar sail hyn deuir i'r casgliad y byddai darparu deunydd llawn gwybodaeth o ddefnydd i sicrhau bod y math o fam a fuasai fel arall yn magu plant uniaith yn trosglwyddo'r Gymraeg.
- 2.48 Adeg cynnal yr ymchwil (1981), mae'r ymchwilyr yn nodi â rhwystredigaeth mai ychydig iawn o wybodaeth *hygyrch* oedd ar gael i famau ynghylch manteision trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Yn wir, dyma'r ddau bwynt olaf mae'r ymchwilyr yn eu gwneud yng nghorff yr adroddiad: '(a) bilingual mothers need to have sources of good information on bilingual children (b) that if they knew that bilingualism had a clear place in Wales and concrete support from society more bilingual mothers in Wales would rear bilingual children' (Harrison et al. 1981, t. 64). Yn y chwarter canrif a aeth heibio ers Harrison et al. (1981), mae'r wybodaeth hon *wedi* dod ar gael, ac mae datblygiadau deddfwriaethol wedi rhoi cefnogaeth bendant i statws dwyieithrwydd ar gyfer y Gymraeg (gweler 1.9).



- 2.49 Roedd [diffyg] hunanhyder mamau yn eu sgiliau Cymraeg eu hunain hefyd yn ffactor perthnasol o ran eu hymddygiad wrth drosglwyddo iaith. Mae Harrison et al. (1981, t. 63) yn credu bod:
- this suggests a need for material to strengthen what is already there. Formal courses may have some scope here but such courses are, to a degree, separate from everyday life. [...] the use of Welsh for such mundane activities as shopping and in local government communications [should be encouraged]. This practice would not only extend mastery of Welsh, it would demonstrate how the language was part of the modern society in which their children were growing up.
- 2.50 Canfu'r ymchwil, yn achos y rhieni a holwyd, fod y Gymraeg wedi cael ei gwahanu oddi wrth fyd gwaith 'which can hardly foster the language amongst people who seek successful careers. There is scope for a new association.' Mae'n dod i'r casgliad 'while mothers can be the first means of bilingualism for their children, many bilingual mothers see schools as having that function' (Harrison et al. 1981, t. 64). Dyma grybwyll yr hyn a alwn yn *rhoddi* iaith i'r genhedlaeth nesaf, yr awn i'r afael ag ef yn ddiweddarach yn yr adroddiad.
- 2.51 Roedd canlyniadau Harrison et al. (1981) yn cael eu hategu hefyd gan Lyon (1996), a fu'n ymchwilio i ddefnydd iaith mewn teuluoedd ar Ynys Môn. Daeth Lyon i'r casgliad 'a mother's language is the most powerful predictor of her child's language development.' Noda Bellin & Thomas (1996) 'where both partners [surveyed by Lyon] spoke Welsh, there was considerable use of Welsh within the family [...] when the linguistic status of the partners differed, there was a predominant influence of the male partner on the language of the household and especially on the language spoken to children. When the father was English-speaking, and the mother Welsh-speaking, the mother was much less likely to speak Welsh with the children than in a household where both partners were Welsh-speaking.' Daw Bellin i'r casgliad 'From Jean Lyon's survey it is clear that even in the historical Welsh heartlands, the only way of acquiring Welsh is side-by-side with English, with a strong risk of becoming an English monolingual in spite of family wishes. A special commitment is needed for language transmission and maintenance. Unless individuals and families follow a 'policy' of

sustained usage, fluency cannot be maintained in adults and the language is not acquired by children.'

- 2.52 Cynhaliodd Bellin (1994, t. 60) ddadansoddiad rhwydwaith cymdeithasol ar raddfa fach (45 o ymatebwyr) drwy gynnal cyfweiliadau yn Nyfed<sup>10</sup> â rhoddwyr gofal teuluoedd plant tair i bedair oed 'where the patterns of Welsh language usage was [sic] unlikely to lead to family based transmission of Welsh.' Roedd canlyniad ei waith yn ymdebygu i astudiaethau eraill trwy ganfod bod dau riant Cymraeg eu hiaith a oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf [â'i gilydd] bron bob amser yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Pan oedd y tad ar aelwyd dau riant yn siarad Saesneg ac nid Cymraeg, ond y fam yn siarad Cymraeg, roedd iaith y tad yn cael dylanwad mawr ar yr iaith neu'r ieithoedd y gallai'r plentyn eu siarad (Bellin 1994, t. 62). Yn y sefyllfa hon, mae Bellin yn nodi 'the language was transmitted more efficiently by her [y fam] when [...] the partner had a positive attitude towards the language' (Bellin 1994, t. 62).
- 2.53 Yn y sampl, defnyddid Saesneg â'r plant (gan dros hanner y sampl) oherwydd problemau hyder, a phryderon ynglŷn â gallu i helpu â gwaith cartref. Mae Bellin yn nodi bod canlyniadau ei ymchwil ar raddfa fach yn dangos 'a very striking absence' h.y. cyferbyniad â'r hyn a ganfu wrth gydweithio'n gynharach â Harrison et al, yn yr ystyr na chafwyd cyfeiriadau at symudedd cymdeithasol fel rheswm dros *beidio* â throsglwyddo'r Gymraeg i blant (Bellin et al. 1997, t. 12).
- 2.54 Ers yr ymchwil a arolygwyd hyd yma, cynhaliwyd ymchwiliadau pellach i faes trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau (Bellin 1994; Bellin & Thomas 1996; Bellin et al. 1997; Kay & Hancock 2001; Jones & Morris 2002; Edwards & Newcombe 2003, 2005; Jones & Morris 2005b, a; Gathercole et al. 2007; Jones & Morris 2007b, a; Irvine et al. 2008; Jones & Morris 2009; Roberts et al. 2010; Tranter et al. 2011; Morris 2012). Bu llawer o'r gwaith a wnaed ar ffurf gwerthuso dulliau ymyrryd er mwyn sicrhau bod rhieni sydd yn gallu siarad Cymraeg yn gwneud hynny â'u plant. Mae hyn yn cael sylw penodol yn ddiweddarach yn yr adroddiad presennol. Gellir gweld yr ymyriadau hyn fel rhai sydd yn deillio'n uniongyrchol o ysbryd canfyddiadau'r

---

<sup>10</sup>A d-drefnwyd Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 1996. Nid yw Sir Dyfed yn bodoli mwyach.

ymchwil gynnar (Harrison et al. 1981; Bellin 1994; Bellin & Thomas 1996; Bellin et al. 1997), h.y. yr angen am gywiro syniadau [darpar] rieni sydd yn siarad Cymraeg ynghylch arwyddocâd negyddol trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau (e.e. y bydd hynny'n amharu ar ddatblygiad gwybyddol eu plentyn), ac yn wir y bydd plant yn *e/wa* o siarad mwy nag un iaith (yn wybyddol ac yn offerynnol drwy fod â mwy o ddewisiadau gyrfya yn ddiweddarach mewn bywyd). Mae'r Athro Colin Baker hefyd wedi bod yn eithriadol o weithgar yn y maes hwn (yn enwedig ar ffurf argraffiadau niferus o'i waith *A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism* (Baker 2000)).

- 2.55 Mae'r gydnabyddiaeth hon o gyfyngiadau'r system addysg o safbwynt adfywio iaith yn darparu cyfiawnhad digonol dros drafod 'rhoddi iaith i'r genhedlaeth nesaf', gan fod posibilrwydd bod rhai rhoddwyr gofal Cymraeg eu hiaith yn gweld addysg fel unig gyfrwng i sicrhau bod eu plant yn dod yn ddwyieithog (yn hytrach na sicrhau *trosglwyddo* gweithredol yn y cartref).

*'Rhoddi' iaith i'r Genhedlaeth Nesaf*

- 2.56 Adroddodd Lyon (1996) fod mwyafrif clir o'r holl rieni yn ei harolwg fel rhan o'i gwaith ymchwil ar Ynys Môn (85%) yn dymuno i'w plant fod yn rhugl yn y Gymraeg (gweler hefyd 2.25). Sylwodd hefyd fod rhai rhieni o'r farn bod y system addysg yn ddull amgen o sicrhau bod eu plant yn dysgu'r Gymraeg.
- 2.57 Cynhaliodd Evas (1999, tt. 261-265) arolwg o 100 o ddisgyblion chweched dosbarth (16-18 oed) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru. Canfu fod 80%+ o'r disgyblion hynny yn bwriadu anfon eu plant eu hunain yn y dyfodol i gael addysg Gymraeg, ond bod 58% yn datgan bwriad i *siarad* Cymraeg â'u plant yn y dyfodol. O ystyried yr anghysondeb rhwng y ddau ffigur hyn, ac ymchwil sydd yn dangos defnydd isel o'r Gymraeg gan ddisgyblion ysgolion Cymraeg y tu allan i'r ysgol, cyflwynodd gysyniad '*rhoddi iaith i'r genhedlaeth nesaf.*' Byddai rhoddi o'r fath yn digwydd pan fyddai siaradwyr Cymraeg yn sicrhau bod eu plant yn caffael sgiliau yn y Gymraeg, trwy'r system addysg, ond nid trwy sicrhau mai'r Gymraeg oedd iaith y cartref, ac o bosib heb ddefnyddio'r iaith â'r plentyn o gwbl. Mynegodd amheuaeth hefyd ynghylch a fyddai'r 58% a oedd yn dweud y byddent yn siarad Cymraeg â'u plant yn gwneud hynny, o ystyried bod gwaith ymchwil arall wedi dangos mai cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddefnyddio'r iaith y tu

allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol. Themâu yw'r rhain y byddwn yn dychwelyd atynt wrth ddadansoddi ein data ymchwil ein hunain.

*Prosiect 'Cymdeithasoli'r' Gymraeg*

- 2.58 Yn 2004, dyfarnwyd grant i Delyth Morris a Kathryn Jones (yr edrychir yn ddiweddarach ar eu gwerthusiad o gynllun ymyrraeth Twf yn 2002) gan y Cyngor Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ESRC)<sup>11</sup> i ymchwilio i 'Gymdeithasoli'r Gymraeg â'r Teulu.' Mae eu gwaith yn ceisio olrhain hynt 12 teulu o ymatebwyr (sydd yn byw yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin a Sir Ddinbych). Ar gyfer cyfnod cychwynol yr ymchwil, cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig ac ymchwil dyddiadur er mwyn:

Investigate minority language socialization within the family in the context of Wales and, specifically, identifying why some Welsh-speaking parents in Wales 'transmit' the language to their children, while others do not;

To collect detailed information about the language backgrounds and values of parent; the role of parents and others [sic] carers/siblings in a child's language socialization; and the wider social context which shapes family values and practices within the home;

To contribute to theories of minority language socialization and language shift; and,

To inform the Welsh Assembly Government's Twf (family language transfer) project as a key component in maintaining Welsh as a family and community language (Jones & Morris 2005a, t. 5).

- 2.59 Canfu'r ymchwil fod 'one-to-one interaction with parents [...] is crucial in the early language socialization of babies and young children up to two years of age' (Jones & Morris 2005a, t. 5). Mae hefyd yn nodi bod 'most of the Welsh-speaking parents frequently use English with the child when the non-Welsh-speaking partner is present. It is, therefore, the amount of time the child spends alone with the Welsh-speaking parent that is a significant factor in the early language socialization of the child' (Jones & Morris 2005a, t. 5).

---

11 *Welsh Language Socialisation within the Family*, Economic and Social Research Council. Cyfeirnod Grant R000220611. Prosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru, Bangor a Chwmni Iaith. Gweler <http://www.researchcatalogue.esrc.ac.uk/grants/RES-000-22-0611/read/outputs> am fanylion pellach. Gwneir cyfeiriadau at allbynnau unigol y prosiect hwn yn unol â'r confensiynau llyfryddiaethol a ddilynwyd ar hyd yr adroddiad.

Cyhoeddodd yr awduron yr adroddiad hwn hefyd ar ffurf erthyglau mewn cyfnodolion ysgolheigaidd (Jones & Morris 2007a, b; Morris 2012).

- 2.60 Mae gwaith ymchwil Jones & Morris (2005a, t. 14) yn nodi 'language values, issues of politeness and inclusion of non-Welsh-speakers, and power relations between the mother and father' fel materion perthnasol o ran trosglwyddo'r iaith rhwng y cenedlaethau yng Nghymru.
- 2.61 Un o'r sylwadau mwyaf perthnasol a geir gan Jones & Morris (2005a, t. 14) yw bod, 'family and individual language practices are established early and are very hard to change even when the individuals involved develop a greater understanding and fluency in the language.' Maent hefyd yn canfod (Jones & Morris 2007a, t. 496) mai 'mainly one partner [took] the language-related decisions. O fewn y teuluoedd hynny oedd i'w gweld yn cymdeithasoli eu plentyn yn llwyddiannus yn y Gymraeg, y partner a oedd yn siarad Cymraeg a oedd yn penderfynu ar faterion iaith [yn y rhan fwyaf o deuluoedd] fel y gwelwyd hefyd gan (Bellin 1994; Bellin et al. 1997). Nid oedd y sawl a oedd yn gwneud penderfyniadau iaith yn siarad Cymraeg, yn yr achosion hynny lle credai'r ymchwilwyr na fyddai'r plant yn datblygu'n ddwyieithog. Canfuwyd hefyd mai '[...] mothers more often than fathers were the language decision makers in the family although it is also clear from [the] data that parental language values shape the dynamics of parental roles and responsibilities within the household' (Jones & Morris 2007a, t. 496).
- 2.62 Er gwaethaf hyn, maent yn nodi ei bod yn 'possible for Welsh-speaking fathers to establish Welsh as the primary or equal language of the home. This appeared to require commitment from the father to use the language with his child(ren) at all opportunities, including in the presence of non-Welsh-speakers.'

*Trosglwyddo iaith mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru: Gathercole, Thomas, Deuchar, Williams*

- 2.63 Bu Gathercole et al. (2007) yn cyfweld â 302 o rieni mewn teuluoedd a oedd yn perthyn i gymuned a oedd yn bennaf yn Gymraeg eu hiaith neu'n ddwyieithog. Buont yn archwilio i ba raddau roedd cyfatebiaeth rhwng sawl ffactor ac (1) yr iaith/ieithoedd y bydd rhieni sydd yn siarad Cymraeg yn eu defnyddio i gyfathrebu â'u plentyn a (2) yr iaith/ieithoedd y bydd plentyn yn

eu defnyddio i gyfathrebu â'i r(h)ieni. Canfuwyd bod llawer o gyfatebiaeth rhwng cefndir ieithyddol y rhieni eu hunain a'u gallu canfyddedig a'r iaith roedd rhieni a phlant yn ei siarad â'i gilydd (Gathercole et al. 2007, t. 97). Roedd rhieni o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant (a'r rhai oedd â phartner Cymraeg ei (h)iaith a oedd fwyaf tebygol o wneud hynny), a hefyd y rhai a oedd yn barnu bod ganddynt lefel uchel o allu yn y Gymraeg (ac roedd cyfatebiaeth bwysig rhwng hyn yn ei dro a defnydd o'r Gymraeg â ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol clòs).

2.64 Yn seiliedig ar eu dadansoddiad meintiol, nodâ Gathercole et al. (2007, t. 89) fod rhieni yn tueddu i beidio â gwneud dewis bwriadol ynghylch defnydd iaith â'r plentyn na thrafod defnydd iaith â'u partneriaid, ond yn hytrach roeddent yn gwneud yr hyn a oedd yn teimlo'n 'naturiol' iddynt. Fodd bynnag, maent hefyd yn nodi bod dewis yn aml yn cael ei wneud cyn i'r plentyn gael ei eni, sydd yn awgrymu bod o leiaf rai rhieni yn ystyried eu harferion iaith. Mae'n amlwg bod angen dadansoddi ymhellach er mwyn deall i ba raddau mae dewis iaith yn benderfyniad ymwybodol, yn arbennig mewn teuluoedd lle nad yw un rhiant yn siarad Cymraeg, neu lle na fagwyd y rhieni gan rieni Cymraeg (sydd yn golygu felly eu bod yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg). Mae'r gwaith ymchwil presennol yn archwilio hyn ymhellach drwy ddadansoddi ansoddol, a fydd yn bwrw goleuni ar sut mae siaradwyr yn diffinio 'dewis naturiol' ac unrhyw benderfyniadau ymwybodol a wneir cyn ac ar ôl yr enedigaeth.

2.65 Gall llenyddiaeth seicolegol gymdeithasol ar arferion megis gwaith Verplanken & Wood (2006) fwrw goleuni ar y broses bosibl hon o wneud penderfyniadau. Mae'r ymchwil hon yn amlygu y gall cael plentyn fod yn adeg arwyddocaol o newid sydd yn torri ar draws llawer o arferion, fel bod patrymau ymddygiad newydd yn dod i'r amlwg (Thompson et al. (2011). O'r safbwynt hwn, gellid disgwyl i rieni newydd adfyfrio—efallai am y tro cyntaf—ar eu hiaith eu hunain a'i throsglwyddo, er y byddai defnydd beunyddiol o iaith fel arall yn arferiadol yn bennaf (h.y. yn anymwybodol a heb fod yn destun penderfyniadau).

*Demograffeg, Agweddau a Gwerthoedd Personol*

2.66 Gellid dadlau hefyd nad yw dylanwad demograffeg gymunedol ar drosglwyddo ac arferion iaith wedi cael ei archwilio'n ddigonol. Roedd yr

ymatebwyr yn Gathercole et al. (2007) yn dod o ardaloedd lle roedd rhwng 40% a 75%+ o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Cafwyd bod cyfatebiaeth wan rhwng canran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a'r iaith/ieithoedd yr oedd plentyn a'i rhieni'n eu siarad (Gathercole et al. 2007, t. 84). Fodd bynnag, cymhlethwyd y gyfatebiaeth hon gan newidynnau eraill megis dosbarthiad categorïau teulu (mae ardaloedd lle ceir nifer uwch o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys mwy o gartrefi lle mae pob un o'r rhieni neu un ohonynt yn gallu siarad Cymraeg (Gathercole et al. 2007, t. 85)). Bernir bod cyfran siaradwyr iaith benodol mewn cymuned yn chwarae rôl bwysig yn 'hyfywedd ethno-ieithyddol' (Giles 1977) yr iaith honno, ac yng nghyd-destun y Gymraeg, dangoswyd bod canran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal yn effeithio ar ddefnydd beunyddiol o'r iaith ac arferion iaith (Jones & Morris 2007a, b; Jones 2008; Jones 2012; Beaufort Research et al. 2013). Yn eu hastudiaeth mwy ansoddol o drosglwyddo a adolygwyd uchod, mae Jones & Morris (2007a, t. 498) yn honni bod argaeledd rhwydweithiau cymdeithasol a rhyngweithio yn Gymraeg yn ffactor pwysig o ran cynnal y Gymraeg yn y teulu. Mae defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn annatod gysylltiedig â rhanbarth yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg (Jones 2008) ac mae'r rhyngweithio'n fwy mynych yn yr ardaloedd lle ceir y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Dylid cofio'r cysylltiad hwn drwy gydol yr ymchwil bresennol ac fe'i trafodir ymhellach mewn perthynas â dadansoddi data'r Cyfrifiad (gweler 3.30) a'r canlyniadau (gweler 5.47).

- 2.67 O ran trosglwyddo iaith, mae dadansoddiad meintiol o ddata Cyfrifiad 2011 yn dangos bod cyfraddau trosglwyddo hefyd yn amrywio'n ddaearyddol ac ar eu huchaf yn Sir Gwynedd (Jones 2013b). O ystyried hyn, mae angen ymchwiliad mwy trylwyr o gymunedau penodol. Nid ymchwiliwyd i ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd sydd yn Saesneg eu hiaith yn bennaf, lle gall defnydd o'r Gymraeg fod yn gyfyngedig i rwydweithiau cymdeithasol culach, (gweler hefyd Bennod 5, Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith).
- 2.68 Mae astudiaethau blaenorol wedi archwilio'r gyfatebiaeth rhwng agweddau at y Gymraeg a'r Saesneg a throsglwyddo a defnydd (Gathercole et al. 2007; Morris 2014) a chanfuwyd, mewn modd tebyg i astudiaethau agwedd eang, fod yr agweddau tuag at y Gymraeg yn ymddangos yn gadarnhaol.

Ymddengys, felly, nad oes fawr ddim cyfatebiaeth rhwng agweddau at iaith a throsglwyddo. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn archwilio agweddau ymhellach trwy ddefnyddio technegau a ddatblygwyd yn y gwyddorau ymddygiadol.

- 2.69 Mae gwaith arall yn awgrymu y gall hunaniaeth a gwerthoedd fod yn bwysig ar gyfer trosglwyddo iaith (e.e.Lambert (2008); Nash et al. (2012)). Cynhaliodd Nash et al. (2012), er enghraifft, gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru i archwilio gwerthoedd Cymreig, hunaniaeth lle ac agweddau tuag at faterion cynaliadwyedd. Canfuwyd bod cysylltiad cryf rhwng hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg, sydd yn awgrymu y gall ymdeimlad o hunaniaeth a hunaniaeth gymdeithasol Gymraeg fod yn ffactor wrth drosglwyddo ieithoedd lleiafrifol rhwng y cenedlaethau. Mae hon hefyd yn elfen yr ydym yn ei harchwilio wrth gasglu ein data gwreiddiol ein hunain ym Mhennod 5 (Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith).
- 2.70 Yn yr un modd, gall gwerthoedd sydd yn pwysleisio traddodiad a threftadaeth ddiwylliannol fod yn berthnasol. Mae theori gwerth Schwartz (1992) yn nodi sawl clwstwr o werthoedd (h.y. egwyddorion neu safonau ymddygiad) sydd yn bodoli ar draws diwylliannau, ac mae diwylliannau'n amrywio o ran y pwyslais maent yn ei roi ar wahanol glystyrau gwerth. Mae rhai diwylliannau—ac unigolion oddi mewn iddynt—yn rhoi mwy o bwyslais ar barch at draddodiad (gweler hefyd Smolicz (1981)). Rydym yn archwilio gwerthoedd fel rhan o'n dadansoddiad data sylfaenol.

### **Ymchwil i Ymyraethau Trosglwyddo Iaith rhwng y Cenedlaethau yng Nghymru**

- 2.71 Ar ôl astudio canlyniadau Harrison et al. (1981), a derbyn adborth gan randdeiliaid fod trosglwyddo ieithyddol rhwng y cenedlaethau yn achosi problemau mewn rhai ardaloedd, yn ystod 1996-97, sefydlodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) brosiect peilot mewn cydweithrediad â Mudiad Ysgolion Meithrin [...] i annog rhieni i ystyried cylch chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant (Jones & Morris 2002, t. 3). Yn 1999, dechreuwyd cyflogi



cyfres o weithwyr maes fel rhan o brosiect a fyddai'n ddiweddarach yn datblygu'n frand Twf.<sup>12</sup>

- 2.72 Noda Irvine et al. (2008, tt. 8-9) 'Cafodd cynllun Twf ei sefydlu er mwyn cynyddu'r niferoedd o deuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant [...]. Amcanion cyfredol [2007] y cynllun yw:

Amcan 1: Cydweithio gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd fel eu bod yn cyfleu neges Twf i'r gynulleidfa darged.

Amcan 2: Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol o werth cyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd a manteision addysg Gymraeg. Prif darged twf yn hyn o beth yw darpar rieni a rhieni â babanod o dan 6 mis oed [...].'

- 2.73 Cynhaliwyd y gwerthusiad cyntaf o Twf gan Kay & Hancock (2001), wedi i brosiect peilot Twf fod yn gweithredu ers tair blynedd (roedd y cynllun peilot hwn ar waith yn Sir Gaerfyrddin yn unig). Mae'n darparu gwerthusiad sylfaenol o'r dull darparu gwybodaeth a fabwysiadwyd gan Twf yn y cyfnod peilot. Sampl y prosiect oedd 198 mam (neu '20% o'r holl enedigaethau yn [yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 6 mis cyn cynnal y gwaith maes]' (Kay & Hancock 2001, t. 5). Gostyngwyd y sampl hon i 137 i ddadansoddi dim ond ymatebion mamau babanod a anwyd wedi Ionawr 2000 'gan mai dim ond ers Ionawr 2000 mae'r deunyddiau [Twf] yn cael eu dosbarthu'n eang' (Kay & Hancock 2001, t. 6). Yn arwyddocaol, dim ond 27% o'r mamau hyn a oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf (Kay & Hancock 2001, t. 10).
- 2.74 Dull 'trosglwyddo gwybodaeth' a ddefnyddiwyd yn nhreial Twf yn Sir Gaerfyrddin. Gwnaed hyn yn bennaf drwy 'D[d]arparu gwybodaeth i fenywod beichiog ar ffurf taflenni drwy law bydwagedd. Yn ogystal, roedd amrwyaeth [sic] o daflenni'n cael eu cyflwyno i'r mamau drwy'r pecyn Bounty<sup>13</sup> yn yr ysbyty, a chyswllt pellach gyda'r fam yn digwydd [sic] ar ôl genedigaeth y babi drwy'r ymwelydd iechyd' (Kay & Hancock 2001, t. 5). Ymddengys fod yr

<sup>12</sup> Pan ddi-ddymwyd ByIG yn 2012, daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y prosiect. Yn 2016, yn sgil proses dendro gystadleuol, fe wnaeth Mudiad Meithrin (mudiad cylchoedd chwarae Cymraeg) ysgwyddo cyfrifoldeb am hyrwyddo trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau—o dan frand 'Cymraeg i Blant.'

<sup>13</sup> Mae Pecynnau Bounty (gweler [www.bounty.com](http://www.bounty.com)) yn fagiâu a blychau anrheg sydd yn cynnwys samplau o gynnyrch am ddim a gwybodaeth ar gyfer mamau beichiog. Mae Twf wedi defnyddio'r cynllun Bounty i dddosbarthu taflenni a gwybodaeth am drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf i ddarparu famau yng Nghymru.

adroddiad hwn yn fwy o archwiliad o broses nag o asesiad *effaith* o gynllun Twf, gan ei fod yn mesur sawl taflen a gyraeddodd y mamau a faint o'r mamau a oedd wedi eu darllen (20% yn achos y daflen Twf 'Dwy iaith: Dwywaith y dewis), 23.5% yn achos gwybodaeth Pecyn Bounty (Kay & Hancock 2001, t. 6).

- 2.75 Mae Eaves (2007, 2015) yn nodi pwysigrwydd ymwybyddiaeth *gritigol* o iaith, h.y. yr angen am drafod, cywiro a dadlau ynghylch rhagdybiaethau personol ag eraill. Mae'n dod i'r casgliad bod ymgysylltu wyneb yn wyneb yn llawer mwy ffrwythlon o ran cynyddu ymwybyddiaeth o iaith (ac o ganlyniad ymddygiad cadarnhaol tuag at/mewn iaith) na dim ond dulliau amheronol, darparu gwybodaeth (e.e. taflenni ar ddwyieithrwydd a anfonwyd mewn pecyn Bounty).
- 2.76 Mae effeithiau cadarnhaol trafodaeth wyneb yn wyneb rhwng bodau dynol hefyd i'w weld yn Kay & Hancock (2001, t. 8). Roedd bron i dri deg y cant a 24% o'r sampl yn nodi bod trafod manteision dwyieithrwydd â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd wedi cael 'rhywfaint o effaith' neu 'effaith fawr.' Noda'r awduron 'wrth gwrs, yr arfer gorau fyddai dosbarthu'r llenyddiaeth ac yna cynnig rhyw gymaint o drafodaeth ond mae'n werth nodi fod y llenyddiaeth, hyd yn oed yn absenoldeb unrhyw drafodaeth, yn siarad drosto'i hunan.'
- 2.77 Mae'r adroddiad fel pe bai wedi'i seilio ar fodel dewis rhesymegol ac nid ymddengys fel pe bai'n ystyried yn benodol allbriodi/hyder siaradwyr Cymraeg yn eu gallu ieithyddol eu hunain, nac ychwaith ddylanwad y teulu estynedig (yn wahanol i ymchwil Gathercole et al. (2007) a ddangosodd ddylanwad 'clystyrau' a rhwydweithiau ar drosglwyddo neu ddiffyg trosglwyddo'r Gymraeg).
- 2.78 Yn wir, ymddengys nad yw gwaith Kay & Hancock (2001) yn delio ag anogaeth i *drosglwyddo'r* Gymraeg rhwng y cenedlaethau (h.y. defnyddio'r Gymraeg rhwng rhieni sydd yn siarad Cymraeg a phlant sydd yn siarad Cymraeg), ond yn hytrach â *rhoddi* iaith rhwng y cenedlaethau (h.y. negeseuon marchnata/gwybodaeth ar gyfer rhieni di-Gymraeg).
- 2.79 Mae dylanwad addysg Gymraeg yn ffactor pellach sydd yn cymhlethu'r sefyllfa yma, gan fod y data a gasglwyd gennym yn dangos tystiolaeth yng nghyswllt *rhoddi iaith i'r genhedlaeth nesaf*, â rhai ymatebwyr a *allai* siarad

Cymraeg â'u plant yn peidio â gwneud hynny, er eu bod yn dangos awydd pendant i'w plentyn fedru siarad Cymraeg (ac felly'n dewis ei anfon i sefydliad addysg cyfrwng Cymraeg).

- 2.80 Mae'r gwahaniaeth rhwng trosglwyddo rhwng y cenedlaethau a rhoddi iaith yn haeddu sylw, a gall fod yn berthnasol i nodau ymyriadau newydd a mentrau gan y Llywodraeth. Rydym yn dychwelyd at y thema hon ym Mhennod 7 (Trafodaeth, Casgliadau). Yn achos rhoddi a throsglwyddo iaith, bydd plant rhiant penodol yn gallu siarad Cymraeg. Wrth roddi, bydd y rhiant yn rhoi'r cyfrifoldeb am greu gallu ieithyddol y plentyn i asiant arall (megis y system addysg), ac ni fydd yn *defnyddio* Cymraeg â'r plentyn.
- 2.81 Pwysleisiwn yr angen am ddefnyddio terminoleg yn gyson a synhwyrol ym maes polisi iaith teuluol. Mae (Kay & Hancock 2001) yn defnyddio'r term cyffredinol 'magu' plant drwy gydol eu hadroddiad waeth pa iaith a *ddefnyddir* rhwng rhieni a phlant. Mae eu methiant i bwysleisio ymddygiad trosglwyddo neu roddi yn lleihau gallu'r awduron i gyflwyno argymhellion wedi'u teilwra'n ddigonol ar gyfer ymyriadau a allai dargedu darpar roddwyr a/neu drosglwyddwyr y Gymraeg.
- 2.82 Mae Kay & Hancock (2001, t. 10) yn argymhell sicrhau bod llenyddiaeth ar gael 'Hyd yn oed os yw rhai gweithwyr proffesiynol yn anfodlon trafod dwyieithrwydd gyda mamau fel rhan o'u dyletswydd proffesiynol.' Wrth droi at hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol, nodant: 'Byddai'n gwbl resymol i gynnwys ffyrdd o gyflwyno'r math yma o drafodaeth [â mamau ynghylch dwyieithrwydd] mewn rhaglenni hyfforddi ar gyfer y gweithwyr proffesiynol yma. [...] Ni ddylai problem godi wrth ofyn i weithwyr iechyd proffesiynol siarad am fanteision dwyieithrwydd yng nghyd-destun y Cyngor maent yn ei roi i famau ar ofal a magwraeth plant' (Kay & Hancock 2001, tt. 10-11). Mae prif-ffrydio ymyriadau cynllunio iaith i'r sector iechyd y tu hwnt i gwmpas ein gwaith ymchwil, ac yn thema sydd yn derbyn sylw gan Roberts et al. (2010).
- 2.83 Trown yn awr at y cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ynghylch prosiect Twf ei hun. Mae Jones & Morris (2002, t. 5) yn nodi bod Twf wedi gweithio mewn partneriaeth â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, Mentrau Iaith, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cychwyn Cadarn, a Chymdeithas Cyloedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ac erbyn 2002, roedd ei nodau strategol wedi esblygu fel a ganlyn:

Prif ffrydio neges y prosiect i waith bydwragedd ac ymwelwyr iechyd  
Codi ymwybyddiaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog ymysg  
rhieni a'r cyhoedd; a

Newid arferion defnydd iaith y grŵp targed (sef y rhieni hynny lle mae  
rhywfaint o Gymraeg ar eu haelwyd nhw'n barod) â'u plant

- 2.84 Mae'r awduron yn nodi'n eglur nad yw eu hadroddiad yn ceisio monitro  
llwyddiant y trydydd nod strategol a'i fod yn fwy o archwiliad rheoli. O  
ganlyniad, mae'n ddealladwy bod ei ddadansoddiad yn canolbwyntio'n fwy  
ar allbwn a gweithgarwch, heb fod yn rhoi cynnig ar fonitro cyrhaeddiad  
deilliannau. Fodd bynnag, noda Jones & Morris (2002, t. 5) 'yn wir, credir  
bod angen rhedeg y cynllun am o leiaf 10 mlynedd gan defnyddio ystadegau  
cyfrifiadau 2001 a 2011 fel cyd-destun i fesur ei effaith.' Mae eu barn yn cyd-  
fynd â llawer o'r llenyddiaeth ynghylch canlyniadau neu gynllunio ar sail  
canlyniadau. Risg dull gweithredu o'r fath, sydd yn archwilio, wrth gwrs, yw  
bod y prosiect yn cael ei werthuso o safbwynt 'gwneud pethau'n iawn, yn  
hytrach na gwneud y pethau iawn' (Bennis 1989), a'r peth iawn yn yr achos  
hwn yw ei fod yn sicrhau trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn y  
cartref.
- 2.85 Ni ddylid diystyru anhawster sefydlu dolen achosol rhwng ymyrraeth benodol  
megis Twf, a'i chanlyniadau (diffinnir canlyniadau o'r fath yn gyffredinol yn y  
llenyddiaeth fel newid a ddymunir mewn poblogaeth darged).
- 2.86 Mae Jones & Morris (2002) yn adolygu deunyddiau rheoli, dogfennau  
llywodraethu corfforaethol a deunyddiau Twf a luniwyd at ddefnydd y  
cyhoedd, dadansoddiadau SWOT gan staff perthnasol, yn arsylwi  
cyfarfodydd rheoli ac yn cynnal cyfweiliadau anffurfiol â gweithwyr maes,  
staff rheoli a staff ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg. Nid arsylwyd gweithwyr maes  
wrth eu gwaith (Jones & Morris 2002, tt. 10-11). Roedd yr awduron, felly, yn  
dibynnu ar farn a sylwadau goddrychol y gweithwyr maes. Un o'r pryderon a  
fynegwyd gan y gweithwyr maes hynny oedd nad oedd bydwragedd,  
oherwydd pwysau amser, neu oherwydd eu bod yn anghytuno â phrif-ffrydio  
pryderon ieithyddol i'w cylch gorchwyl, o reidwydd yn effeithlon wrth sicrhau  
bod neges Twf yn treiddio i'r uned deuluol.

- 2.87 Mae Jones & Morris (2002) yn cyflwyno canlyniadau 215 holiadur ôl-sesiwn Twf a lanwyd gan grwpiau rhieni ac a gafodd eu darparu a'u casglu gan weithwyr maes Twf. Mae canlyniadau'r holiaduron hyn yn gadarnhaol a nodant gred yr ymatebwyr bod y sesiwn wedi:
- '[Llwyddo] i gynnig llawer o wybodaeth fydd yn help (72% yn cytuno/cytuno'n gryf)
- roedd y sesiwn yn help i mi feddwl am fanteision magu fy mhlentyn yn ddwyieithog (83% yn cytuno/cytuno'n gryf)
- yn dilyn y sesiwn rydw i'n fwy tebygol o ystyried magu fy mhlentyn yn ddwyieithog (66% yn cytuno/cytuno'n gryf).
- 2.88 Dylid nodi, fodd bynnag, fod 83% *eisoes* wedi penderfynu magu eu plant yn ddwyieithog. Mae'r awduron yn nodi bod angen mireinio pellach ar yr holiadur a ddefnyddiwyd i osgoi dryswch ynghylch y mater hwn (t. 23-24). O'r 17% *nad oeddent* eisoes wedi penderfynu magu eu plentyn yn ddwyieithog, roedd 70% yn ddi-Gymraeg *ac* â phartner a oedd yn ddi-Gymraeg. Mae'r awduron yn nodi cyfyngiadau maint y sampl a'r risg o gyffredinol ond yn nodi tuedd ymhlith rhieni gogledd-orllewin Cymru i fod eisoes wedi penderfynu magu eu plant yn ddwyieithog.
- 2.89 Mae argymhellion yr adroddiad yn adlewyrchu natur reolaethol brïff yr ymchwil ei hun, ac yn canolbwyntio ar greu system gyfrifiadurol addas ar gyfer olrhain cysylltiadau, mireinio holiaduron, cynorthwyo gweithwyr ieuchyd proffesiynol i feithrin hyder wrth drosglwyddo negeseuon ieithyddol, yr angen am werthuso'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir gan y prosiect, a'r angen am fabwysiadu dull gweithredu strategol a phartneriaeth ehangach, gan gynnwys cydweithio â'r Mentrau Iaith.
- 2.90 Mae'r gwerthusiad nesaf o brosiect Twf (Edwards & Newcombe 2003) yn mabwysiadu dadansoddiad mwy soffistigedig o effaith Twf (h.y. methodoleg ansoddol, yn seiliedig ar gyfweiliadau). Mae ei ganfyddiadau (a gyhoeddwyd hefyd yn Edwards & Newcombe (2005)) yn canmol rhinweddau dull deublyg Twf o fynd i'r afael â chynllunio iaith y teulu (cymorth strwythurol gan sefydliadau llywodraethol sydd yn gyfrifol am hyfforddi staff ieuchyd, ac ar y lefel feicro ag unigolion sydd yn gweithio yn y sector ieuchyd). Canfu'r awduron hefyd fod cefnogaeth sylweddol i'r cynllun gan y proffesiynau

iechyd a sefydliadau cyn-ysgol, ac er eu bod yn cydnabod nad yw iaith yn 'neutral issue' (t. 31) yn ei gymeradwyo am symud y tu hwnt i 'traditionally middle-class 'clientele' [targeting] low income families, and developing a range of promotional activities and materials which are better suited to the needs and interests of all parents with young children. [...] Twf has been careful to respond sensitively to concerns about overzealous promotion of the language and focuses instead on allowing parents to make an informed choice.'

- 2.91 Tra bo Edwards & Newcombe (2003) yn anelu at werthuso 'impact, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun Twf yn erbyn ei nodau strategol', nodant anhawster dadelfennu llwybr deilliant Twf er gwaethaf iddynt dderbyn llawer o dystiolaeth anecdotaidd gadarnhaol ynghylch llwyddiant Twf o ran newid ymddygiad ieithyddol (gweler hefyd 2.84). Maent yn adlewyrchu sawl ymgais i asesu effaith prosiectau ymyraethol mewn llawer o feysydd gan nodi 'Nid yw'n ymarferol mesur yn uniongyrchol y graddau y mae'r cynllun yn cyflawni ei drydydd nod strategol: newid patrymau iaith y grŵp targed, sef teuluoedd cymysg eu hiaith<sup>14</sup> [...]. Mae amrywiaeth eang o ffactorau yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn a dewis iaith ac mae'n amhosibl ynysu dylanwad Twf.'
- 2.92 Fel y nodwyd eisoes, gellir mesur dau nod strategol cyntaf cynllun Twf drwy broses adolygiad perfformiad neu archwiliad rheoli cymharol syml. Fodd bynnag, mae'n anos mesur y deilliant mwyaf perthnasol oll—sicrhau trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Nodant '[Nad] yw'r agweddau hynny ar y cynllun y gellir eu mesur yn hawdd yn dweud llawer wrthym am effeithiolrwydd Twf' (Edwards & Newcombe 2003, t. 5). Maent yn adleisio barn Jones & Morris (2002) ac yn haeru y dylid defnyddio tactegau amgen, parhaus yn yr hir dymor i asesu union effaith Twf ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, fel rhan annatod o'r prosiect ei hun.

---

14 Yn 2003, pan oedd Edwards a Newcombe yn gwneud eu gwaith ymchwil, roedd nodau strategol Twf fel a ganlyn, '1. Dwyn y neges am werth dwyieithrwydd i brif ffrwd y gwaith a wneir gan fydwagedd ac ymwelwyr iechyd. 2. Codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol o werth dwyieithrwydd. 3. Newid arferion ieithyddol y grŵp targed, sef teuluoedd cymysg eu hiaith, er mwyn cynyddu nifer y plant sydd yn siarad Cymraeg yn y cartref (t. 1).

- 2.93 Mae Edwards & Newcombe (2003, t. 6) eu hunain yn cyfaddef bod ffaeleddau yn eu gwaith, ond er hyn, nodant 'nifer o ganlyniadau gwirioneddol' gan gynnwys perthnasau partner llwyddiannus rhwng sefydliadau, ehangu'r gynulleidfa darged y tu hwnt i sefydliadau traddodiadol, cael mynediad i feddygfeydd lleol a sicrhau bod y 'rhan fwyaf o fydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn cymryd eu cyfrifoldeb o drafod dewis iaith gyda mamau o ddifrif.'
- 2.94 Irvine et al. (2008) yw'r darn mwyaf sylweddol o waith gwerthuso a wnaed ar gynllun Twf, a hynny o bell ffordd. Fe'i cynhaliwyd rhwng 2005 a 2008, ac roedd yn defnyddio pedwar dull o gasglu data (cyfweliadau wyneb yn wyneb â rhieni newydd a darpar rieni, grwpiau ffocws ag ymwelwyr iechyd a bydwragedd, a dadansoddiad ethnograffig o weithgareddau Twf (Irvine et al. 2008, t. 3).
- 2.95 Nod yr ymchwili oedd 'Ymchwilio i effaith cynllun Twf ar benderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo iaith yn y Teulu a chynnig ffyrdd o wella'i effaith.' Roedd yr astudiaeth yn ceisio:
- Dilyn cyfranogwyr o siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a Dinbych cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod maent yn cael y profiad o neges Twf, er mwyn asesu ac olrhain effaith cynllun Twf ar benderfyniadau ynghylch dewis iaith a'r defnydd o iaith yn y teulu.
- Asesu effaith cynllun Twf ar gyfranogwyr sydd wedi cael profiad o wahanol lefelau a dwyster y neges ynglyn [sic] â dwyieithrwydd, a gyflwynir gan gynllun Twf.
- Arsylwi patrymau o ddefnyddio iaith yn y Teulu.
- Ymgymryd â dadansoddiad gweithgaredd manwl o gynllun Twf ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, a Phenfro yn ystod y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2005 (Irvine et al. 2008, t. 10).
- 2.96 Canfu'r ymchwili fod y ffactorau sydd yn dylanwadu ar rieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn cynnwys 'lefelau uchel o rwyddineb yn y Gymraeg ymhlith rhieni a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd ag agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd [...] ac mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn cael dylanwad cadarnhaol tebyg (Irvine et al. 2008, t. 3).

- 2.97 Canfu gwaith Irvine et al. (2008, t. 4) fod teulu, ffrindiau a darpariaeth gofal plant yn dylanwadu ar batrymau defnydd iaith â phlant (mewn modd cadarnhaol a negyddol). Mae hefyd yn nodi bod lefel y Gymraeg mewn ardal benodol, a statws y Gymraeg yn yr ardal honno yn 'ddangosyddion hollbwysig ar gyfer trosglwyddo iaith yn y cartref.'
- 2.98 Canfu Irvine et al. (2008, t. 5) fod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ddifater yn gyffredinol o ran trosglwyddo neges Twf, er bod rhai yn ymrwymedig i ddarparu'r adnoddau ysgrifenedig i rieni. Maent yn argymhell mynd i'r afael â'r dasg mewn partneriaeth eang rhwng Twf, Bwrdd yr iaith Gymraeg gynt, ac asiantaethau lefel feicro megis y Mentrau Iaith, a Mudiad Ysgolion Meithrin i ehangu cyrhaeddiad Twf yn y gymuned, gan nodi y 'byddai hyn yn sicrhau nad cyfrifoldeb rhieni unigol yn unig yw trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ond ei fod yn cael ei hwyluso hefyd ar y lefel strwythurol.' Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd â peth o'r gwaith uchod; gan fod yr awduron yn nodi 'Anodd mesur dylanwad unionyrchol prosiect fel Twf a'i ysgaru o ffactorau cymdeithasol eraill sydd yn effeithio ar ddewisiadau iaith ac ymddygiad unigolyn' (Irvine et al. 2008, t. 20).
- 2.99 Yn fwyaf arwyddocaol, ac er gwaethaf y cafeat a nodwyd yn y paragraff blaenorol, daw Irvine et al. (2008, t. 4) i'r casgliad 'y gall mewnbwn Twf ar hyn o bryd gael effaith arwyddocaol ar y penderfyniadau a wneir gan rieni mewn perthynas ag iaith. Fodd bynnag, lle bo cynlluniau ar gyfer trosglwyddo iaith wedi eu sefydlu eisoes, mae hyn fel arfer yn cadarnhau'r penderfyniad i drosglwyddo'r Gymraeg.'
- 2.100 Ar sail yr ymchwil a gyflawnwyd ganddynt, mae Irvine et al. (2008, t. 6) yn darparu cyfres o 15 o argymhellion. Mae saith o'r rhain yn ymwneud ag egluro rôl, hyfforddiant neu greu canllawiau ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol o ran trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Mae'r gweddill yn cynnwys cynyddu trylwyrredd systemau gwerthuso Twf, gweithio mewn partneriaeth a mwy o gysylltiad wyneb yn wyneb â rhieni i gynyddu eu hyder i drosglwyddo'r Gymraeg, a'u gwybodaeth ynghylch manteision gwneud hynny.
- 2.101 Comisiynwyd Roberts et al. (2010) gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt i gynhyrchu adroddiad pellach er mwyn gweithredu pedwar o argymhellion Irvine et al. (2008) ynghylch 'Prif-Ffrydio Neges Twf i Waith Bydwragedd ac



Ymwelwyr Iechyd.' Cynhaliwyd arolwg o 24 o fydwragedd/ymwelwyr iechyd rhwng Tachwedd 2009 a Chwefror 2010 ynghylch 'Canfyddiadau o Twf, Cyfraniad ymarferwyr, Pethau sy'n rhwystro ac yn hyrwyddo'r gwaith o ledaenu neges Twf, Addysg gyn-gofrestru, Hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus' (Roberts et al. 2010, t. 13). Gan fod eu hadroddiad yn ymwneud yn bennaf ag integreiddio neges Twf yn dynnach i drefn ddyddiol gweithwyr iechyd proffesiynol, yn hytrach nag yn uniongyrchol â phrosesau gwneud penderfyniadau rhieni ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf, ni cheir dadansoddiad manwl ohono yn yr adroddiad hwn.

### *Diwedd glo*

- 2.102 Mae'r bennod hon wedi amlinellu'r fframwaith damcaniaethol ar gyfer y gwaith ymchwil presennol. Rydym yn nodi bod trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn cyfeirio at y defnydd o iaith neu ieithoedd gan rieni â'u plant. Rydym yn nodi bod *rhoddi* iaith rhwng y cenedlaethau yn cyfeirio at achosion lle nad yw rhiant yn defnyddio'r Gymraeg â phlentyn, er y gallai gwneud hynny o bosibl, ond yn hytrach yn sicrhau bod y plentyn yn dod yn siaradwr Cymraeg trwy'r system addysg. Locws *trosglwyddo* felly yw'r cartref, yn hytrach na dysgu cymunedol. Mae dulliau o astudio datblygiad iaith plant dwyieithog yn aml yn ystyried dylanwad y mewnbwn a gafodd plentyn gan y rhieni o ran datblygiad ieithyddol. Ffocws yr astudiaeth gyfredol yw'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo a defnydd yn y teulu ac rydym yn defnyddio fframwaith sosio-ieithyddol ar gyfer y dasg hon. Er bod llawer o astudiaethau sosio-ieithyddol yn archwilio trosglwyddo fel rhan o ymchwiliadau ehangach i adfywio, cynnal, polisi a newid iaith, mae astudiaethau mwy diweddar wedi ymdrin â throsglwyddo mewn modd micro ac wedi canolbwyntio ar ddefnydd iaith yn y cartref yn unig. Dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn, er ein bod yn canolbwyntio ein dadansoddiad yn arbennig ar ddeinameg rhieni yng nghyswllt trosglwyddo a rhoddi iaith a'r ffactorau sydd yn effeithio ar hynny.
- 2.103 Rydym hefyd wedi dangos bod gwahanol strategaethau'n cael eu defnyddio ar gyfer trosglwyddo, megis y ddau riant yn siarad yr iaith leiafrifol neu ddull gweithredu OPOL (fel arfer mewn sefyllfaoedd lle nad yw un o'r rhieni'n ddwyieithog). Er bod strategaethau o'r fath (p'un a ydynt yn benderfyniadau ymwybodol ai beidio) o bosib yn cyfleu cysyniad rhieni o'u defnydd o iaith â'u

plant, mae dadansoddiadau wedi dangos bod realiti'r rhyngweithio mewn sefyllfaoedd riant a phlentyn yn llawer mwy cyfnewidiol. Mae dadansoddiad o'r rhyngweithio rhieni a phlant y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil bresennol, er ein bod yn ymchwilio i natur gyfnewidiol dwyieithrwydd (h.y. sut mae strategaethau'n gweithio yn ymarferol) yn y data a ddarparwyd gan ein cyfweiliadau wyneb yn wyneb ym Mhennod 6, (Dadansoddi'r Data Ansoddol).

- 2.104 Mae amrywiaeth o ffactorau'n dylanwadu ar drosglwyddo rhwng y cenedlaethau. Yn gyntaf, gall y mewnbwn mae'r plentyn yn ei gael yn y cartref (a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar hyn megis iaith y prif roddwr gofal) a sut mae'n ymateb i'r mewnbwn hwnnw achosi newidiadau yn y strategaethau mae rhieni'n eu defnyddio. Yn ail, ymddengys bod agweddau cadarnhaol rhieni tuag at ddwyieithrwydd a'r iaith, yn ogystal â'u hagweddau at eu gallu i drosglwyddo'r iaith, yn hollbwysig. Yn olaf, mae rôl rhwydweithiau cymdeithasol y rhieni a'r gymuned lafar ehangach yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r iaith a chymdeithasoli a thrwy ddylanwadu ar agweddau rhieni tuag at yr iaith (Gathercole et al. 2007). Mae'r rhain yn ffactorau a gaiff eu hystyried yn y gwaith ymchwil presennol.
- 2.105 Mae cymhwyso canfyddiadau'r llenyddiaeth a adolygwyd i achos trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yng Nghymru yn awgrymu y gallai'r themâu canlynol fod yn berthnasol ar gyfer ein gwaith ymchwil gwreiddiol, a ddadansoddir isod:
- Hyder rhieni o ran eu gallu eu hunain yn y Gymraeg
  - Canfyddiad (a realiti) o ba mor 'Gymraeg' y mae cymuned benodol
  - Credoau normadol ynghylch defnyddioldeb y Gymraeg a manteision neu anfanteision canfyddedig dwyieithrwydd
  - Cred rhieni yn nefnyddioldeb y Gymraeg
  - Allbriodas ieithyddol mewn teuluoedd dau riant (fel ffactor strwythurol ac o ran agwedd y riant di-Gymraeg tuag at drosglwyddo)
  - Faint o amser mae plentyn yn ei dreulio ar ei ben ei hun â'r riant sydd yn siarad Cymraeg
  - Dylanwad y teulu ehangach a ffrindiau

- Cymorth cymdeithasol strwythurol y tu allan i'r teulu o ran dod i gysylltiad â'r Gymraeg
- Gall rhieni o ddosbarthiadau cymdeithasol penodol arddangos ymddygiad trosglwyddo gwahanol i eraill
- Argaeledd gofal plant ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- *Rhoddi'r* iaith i'r genhedlaeth nesaf—gall rhai rhieni weld yr ysgol, yn hytrach na'r teulu, fel prif asiant cymdeithasoli'r Gymraeg i'w plant.

### 3. Dadansoddiad Ystadegol o Ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol

- 3.1 Mae'r adolygiad o'r gwaith blaenorol ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, yn rhyngwladol ac yng nghyd-destun Cymru, wedi datgelu nifer o wahanol ffactorau sydd i'w gweld yn dylanwadu ar drosglwyddo/beidio â throsglwyddo'r iaith leiafrifol. O'r ffactorau hyn, cyfansoddiad ieithyddol y cartref (a yw'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg mewn teuluoedd dau riant), rhyw y rhiant sydd yn gallu siarad Cymraeg mewn perthnasoedd lle ceir ieithoedd gwahanol, i ba raddau y siaredir y Gymraeg yn yr ardal leol,<sup>15</sup> a gellir ymchwilio hefyd i ddisbarthiad sosio-economaidd y rhieni drwy archwilio canlyniadau'r Cyfrifiad cenedlaethol. Mae'r bennod hon, felly, yn cyflwyno dadansoddiad ystadegol o ddata o Gyfrifiad Cymru a Lloegr yn 2011<sup>16</sup> sydd yn berthnasol i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Wrth wneud hynny, nod y bennod yw ymchwilio (1) i'r gyfran o siaradwyr Cymraeg sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant a (2) i'r berthynas rhwng trosglwyddo'r Gymraeg a ffactorau cymdeithasol ar lefel grynodol (gan edrych ar gyfansoddiad aelwydydd, y sir lle preswylir, a chefnidir economaidd-gymdeithasol y rhieni). Y sail resymegol ar gyfer y bennod felly yw bwrw goleuni nid yn unig ar gefndir y rhai sydd yn debygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant ar draws Cymru ond hefyd tynnu sylw at yr amgylchiadau pryd *na* throsglwyddir yr iaith.
- 3.2 Mae llawer o'r ffigurau yn yr adrannau sydd yn dilyn yn seiliedig ar ddadansoddiadau blaenorol o ddata Cyfrifiad (Jones 2013a) a chyfeirir atynt yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae ffigurau newydd wedi'u creu yn ogystal, er mwyn ymhelaethu ar agweddau ar y dadansoddiadau blaenorol. Ni chyhoeddwyd disgrifiad ysgrifenedig manwl o ddata'r Cyfrifiad (hyd y gwyddom), felly rydym hefyd yn darparu hynny (gweler hefyd yr atodiadau i'r adroddiad am ddata manwl ar lefel sirol ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau i blant dibynnol tair i bedair oed). Dylid nodi ein bod wedi defnyddio amrywiaeth o dablau o Gyfrifiadau 2001 a 2011, a bod y canrannau sydd yn deillio ohonynt yn gallu amrywio, oherwydd bod poblogaethau sylfaenol nifer o'r tablau'n amrywio rhyw fymryn.

<sup>15</sup> Mae'r gyfatebiaeth rhwng cyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal ac argaeledd rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith yn drafferthus a gall ffactorau eraill megis argaeledd addysg Gymraeg beri cymhlethdod pellach yn hyn o beth.

<sup>16</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol: <https://www.ons.gov.uk/census/2011census>.

- 3.3 Mae'r dadansoddiad hwn yn dilyn methodoleg gwaith blaenorol ar drosglwyddo'r Gymraeg sydd yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad (e.e. Jones (2012)). Mae'n canolbwyntio'n unig ar ddata o aelwydydd sydd yn cynnwys plant tair i bedair oed lle yr adroddwyd bod o leiaf un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw nad oes cwestiwn uniongyrchol ynghylch ymddygiad ieithyddol rhieni â phlant yn y Cyfrifiad cenedlaethol. Yn lle hynny, holir yr aelod o'r aelwyd sydd yn ymateb i'r Cyfrifiad ynghylch pob aelod o'r aelwyd, a gofynnir iddo/iddi ddatgan a ydynt (a) yn deall Cymraeg llafar, (b) yn siarad Cymraeg, (c) yn darllen Cymraeg, (d) yn ysgrifennu Cymraeg, neu (e) heb unrhyw rai o'r sgiliau uchod yn Gymraeg. Dosberthir rhiant fel un sydd yn siarad Cymraeg at ddiben y dadansoddiad presennol os dewiswyd o leiaf opsiwn (b) wrth ymateb. Dywedir bod trosglwyddo'n digwydd lle dewisir opsiwn (b) ar gyfer unrhyw blentyn rhwng tair a phedair oed yn yr aelwyd.<sup>17</sup> Rydym yn canolbwyntio ar blant tair i bedair oed (plant tair oed yw'r garfan ieuengaf yn y data ynghylch y Gymraeg o'r Cyfrifiad), gan fod hynny cyn oed statudol mynd i'r ysgol, ac felly dyma'r oed mwyaf tebygol o adlewyrchu trosglwyddo iaith o fewn y teulu yn hytrach na chaffael iaith trwy'r system addysg. Fodd bynnag, dylid nodi bod niferoedd y plant pedair oed sydd yn siarad Cymraeg yn gyffredinol uwch na'r rhai tair oed, gan fod mwy o blant pedair oed wedi dechrau mewn rhyw fath o ddarpariaeth cyn ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.4 Mae sawl cafeat y dylid eu nodi cyn mynd ati i ddadansoddi data Cyfrifiad gan nad yw'r Cyfrifiad yn gofyn unrhyw gwestiynau o gwbl ynghylch *defnydd* o iaith. Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio, felly, ar y rhagdybiaeth bod y rhieni sydd wedi nodi gallu i siarad Cymraeg mewn gwirionedd yn gallu gwneud hynny ar lefel a fyddai'n caniatáu iddynt ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant. Ni allwn ganfod ychwaith pa ffurf allai fod i'r trosglwyddo, nac i ba raddau mae galluoedd y rhieni eu hunain yn effeithio ar ymddygiad ieithyddol. Mewn achosion lle mae rhieni wedi nodi bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg hefyd, ni fydd yn glir faint o Gymraeg y maent yn gallu ei siarad o gymharu â'u hiaith/hieithoedd eraill.

---

<sup>17</sup> Neu deulu—bydd yr union ddiffiniad a ddefnyddir yn dibynnu ar dabl adroddiad y Cyfrifiad sydd yn darparu'r data i'w ddadansoddi.

3.5 Er gwaethaf y cafeatau hyn, gellid dadau mai'r Cyfrifiad sydd yn rhoi'r cipolwg mwyaf trylwyr ar sefyllfa ddemograffig y Gymraeg (gan mai dyma'r unig arolwg sydd yn cael ei gwblhau gan bron holl aelwydydd Cymru), a'i fod yn amlygu patrymau allweddol ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg ar lefel genedlaethol yn ogystal â dylanwad rhai ffactorau (gweler 3.1) ar drosglwyddo. Yng ngweddill y bennod hon rydym yn amlinellu'r patrymau allweddol hyn er mwyn llywio'r dewisiadau methodolegol ynghylch casglu data (a amlinellir yn Mhennod 4, Methodoleg). Yn gyntaf rydym yn dadansoddi'r data ynghylch gallu plant tair i bedair oed yn y Gymraeg mewn perthynas â chyfansoddiad yr aelwyd. Yna rydym yn dadansoddi'r data ar lefel awdurdod lleol cyn troi at y data ynghylch trosglwyddo fel y'u gwelir trwy brism cefndir economaidd-gymdeithasol y rhieni. Yn olaf, rydym yn cyflwyno canlyniadau atchweliad logistaidd a luniwyd i ddangos dylanwad y ffactorau hyn ar debygolrwydd trosglwyddo.

*Cyfraddau cyffredinol trosglwyddo yn ôl cyfansoddiad aelwydydd*


3.6 Yn 2011, roedd 14,907 o blant tair i bedair oed yn byw mewn aelwydydd lle gallai o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg. O'r plant hyn, adroddwyd bod 58 y cant yn gallu siarad yr iaith ( $n=8,611$ ). Dengys Ffigur 1 ganran y plant tair i bedair oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad yr aelwydydd. Dengys y ffigur fod 82.2 y cant o blant tair i bedair oed mewn aelwydydd dau riant lle roedd y ddau riant yn siarad Cymraeg hefyd yn medru'r Gymraeg ( $n=3,707$ ). Mae'r gyfran hon yn gostwng i 53 y cant mewn teuluoedd unig riant lle roedd o leiaf un oedolyn ar yr aelwyd yn gallu siarad Cymraeg ( $n=1,236$ )<sup>18</sup> a 45 y cant mewn teuluoedd dau riant ar aelwydydd lle gallai un riant siarad Cymraeg ( $n=3,668$ ).

---

<sup>18</sup> Roedd cyfanswm o 36 o blant mewn teuluoedd unig riant lle'r adroddwyd bod mwy nag un oedolyn ar yr aelwyd (e.e. aelod arall o'r teulu) yn siarad Cymraeg.

## Ffigur 1: Canran y plant oed tair neu bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Tabl ST143; Cyfrifiad 2011, Tabl DC2601).



3.7 O edrych yn fanylach ar rifau moel Tabl 21, o'r 4,508 o blant tair i bedair oed mewn aelwydydd cwpl lle gallai dau oedolyn neu fwy siarad Cymraeg, gwelir na allai 801 (18 y cant) siarad Cymraeg yn 2011. O'r 2,316 o blant tair i bedair oed mewn aelwydydd unig riant lle gallai o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg, ni allai 1,080 (47 y cant) siarad Cymraeg. O'r 8,083 o blant tair i bedair oed mewn teuluoedd dau riant lle roedd un rhiant yn siarad Cymraeg, ni allai 4,415 (55 y cant) siarad Cymraeg. Mae'r data hyn yn cyfeirio at y sefyllfa ledled Cymru. Mae'r adran ganlynol yn archwilio i ba raddau y mae gwahaniaethau ar sail cyfansoddiad aelwydydd a'r awdurdod lleol lle roedd ymatebwyr yn byw adeg y Cyfrifiad.


### *Cyfraddau trosglwyddo yn ôl cyfansoddiad aelwydydd ac awdurdod lleol*

3.8 Dengys Ffigur 2 ganran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant.<sup>19</sup>

<sup>19</sup> Ceir esboniad technegol ar gyfng hyder o 95% mewn llenyddiaeth ystadegol. Dehongliad annhechnegol o hyn yw ei fod yn rhoi syniad o lefel ein hancricwydd ynghylch yr amcangyfrif pwynt—yn yr achos hwn canran y plant sydd yn gallu siarad Cymraeg—ac mae lled y cyfng yn awgrymu ystod lle gellid cael hyd i'r amcangyfrif cywir. Wrth edrych ar unrhyw ddau awdurdod lleol, os yw'r cyfyngau hyder a ddangosir yn gorgyffwrdd mae'n annhebygol bod y gwahaniaeth rhwng y canrannau a welwyd yn achos y ddau awdurdod dan sylw yn adlewyrchu gwahaniaeth gwirioneddol. Mewn cyferbyniad, mae cyfyngau hyder nad ydynt yn gorgyffwrdd yn awgrymu bod gwahaniaeth gwirioneddol yn bodoli rhwng y ddau awdurdod hynny.

**Ffigur 2: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 cant**

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl DC2601).



3.9 O archwilio Ffigur 2 ynghyd â'r ffigurau lefel awdurdod lleol (gweler Tablau 20 a 21), mae'n amlwg bod nifer y plant sydd yn byw mewn aelwydydd dau riant lle mae'r ddau deulu yn siarad Cymraeg yn amrywio'n fawr mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae gan Flaenau Gwent, er enghraifft, gyfradd drosglwyddo o 33 y cant, ond chwe chwpl yn unig a adroddodd fod y ddau ohonynt yn siarad Cymraeg. Gwynedd, ar y llaw arall, sydd yn cynnwys y nifer mwyaf o blant sydd yn byw mewn teuluoedd dau riant ( $n=1,223$ ), ac mae 122 (10 y cant) o'r rhain yn methu siarad Cymraeg. Oherwydd protocolau diogelu data, nid oes gwybodaeth fanylach ar gael ynghylch y 122 hyn. Mae'n werth nodi bod y pedwar awdurdod lle ceir y canrannau uchaf sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y boblogaeth 3 oed a throsodd (h.y. Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin) yn cynnwys 2,450 (66 y cant) o'r 3,707 o blant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg mewn aelwydydd cwpl sydd yn cynnwys dau oedolyn neu fwy sydd yn siarad Cymraeg a 400 (50 y cant) o'r 801 o blant nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Dengys Ffigur 3 ganran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu




siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant.

- 3.10 Sir y Fflint yw'r awdurdod lleol sydd â'r gyfradd drosglwyddo isaf mewn teuluoedd dau riant lle gall un rhiant siarad Cymraeg (29 y cant). Yn wahanol i Flaenau Gwent, a nodwyd yn 3.9, fodd bynnag, nid yw'r niferoedd yn Sir y Fflint yn llawer llai na'r niferoedd mewn siroedd lle mae lefel y trosglwyddo yn uwch. Mae Sir y Fflint yn cynnwys 494 o blant tair a 4 oed mewn aelwydydd lle gall o leiaf un rhiant siarad Cymraeg ac mae 352 (71 y cant) o blant yn yr aelwydydd hyn yn methu siarad yr iaith. Mewn cyferbyniad, mae Gwynedd yn cynnwys 424 o blant tair a phedair oed mewn aelwydydd lle gall o leiaf un rhiant siarad Cymraeg, ond 155 yn unig (37 y cant) sydd yn methu siarad yr iaith. Mae'r data yn dangos bod 2,019 (55 y cant) o'r 3,668 o blant sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd dau riant lle mae un rhiant yn gallu siarad Cymraeg yn dod o'r pedwar awdurdod sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'r awdurdodau hyn yn cynnwys 867 (20 y cant) o'r 4,415 o blant nad ydynt yn gallu siarad yr iaith.

**Ffigur 3: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant.**

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl D2601).




3.11 Dengys Ffigur 3 ganran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd unig riant lle mae'r rhiant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant. Dengys y ffigur<sup>20</sup> mai yng Ngwynedd y ceir y lefel uchaf o drosglwyddo mewn teuluoedd unig riant lle mae'r rhiant yn siarad Cymraeg. O'r 396 o blant yn y categori hwn yng Ngwynedd, mae 323 (82 y cant) yn gallu siarad Cymraeg. Mae Ffigur 3 yn awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng Gwynedd a'r awdurdodau lleol eraill yn fwy nag yn achos categorïau eraill cyfansoddiad aelwydydd. Ceir y gyfradd drosglwyddo ail uchaf mewn teuluoedd unig riant, er enghraifft, yng Ngheredigion, ac eto mae gwahaniaeth o 19 pwynt canran rhwng y ddwy sir. Yn Sir Gaerfyrddin, ceir 300 o blant yn y categori hwn ac eto dim ond 169 (56 y cant) sydd yn gallu siarad Cymraeg. Yn gyffredinol, gellir dweud bod 54 y cant ( $n=666$ ) o'r 1,236 o blant sydd yn siarad Cymraeg o deuluoedd unig riant sydd yn gallu

<sup>20</sup> Sylwer bod y siart wedi'i seilio ar aelwydydd unig riant lle roedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r niferoedd a ddyfynnir yn y paragraff sydd yn dilyn yn cyfeirio at aelwydydd unig riant lle roedd un oedolyn *neu fwy* yn gallu siarad Cymraeg.

siarad Cymraeg yn byw yn y pedair sir lle ceir y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mewn cyferbyniad, dim ond 29 y cant ( $n=311$ ) o'r 1,080 o blant nad ydynt yn siarad Cymraeg sydd ag unig riant sydd yn siarad Cymraeg sydd yn byw yn y pedair sir hynny.

**Ffigur 4: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg o aelwydydd unig riant lle mae'r rhiant yn siarad Cymraeg, â chyfyngau hyder o 95 y cant.**


(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl DC2601).



3.12 Mae gwaith blaenorol ar drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau wedi dangos bod mamau sydd yn siarad Cymraeg o bosibl yn fwy tebygol o siarad yr iaith â'u plant na thadau sydd yn siarad Cymraeg (mewn achosion lle nad yw'r rhiant arall yn siarad Cymraeg, e.e. Jones & Morris (2007a)). I archwilio hyn ymhellach, mae Ffigur 5 yn dangos canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad aelwydydd a rhyw'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg<sup>21</sup>.

<sup>21</sup> Sylwer bod y canrannau ar gyfer aelwydydd cyplau lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg rywfaint yn wahanol i'r hyn a geir yn Ffigur 1. Y rheswm am hynny yw bod y ffynonellau y seiliwyd y ffigurau arnynt yn dod o ddau dabl cyfrifiad gwahanol, sydd yn defnyddio meini prawf rywfaint yn wahanol i ddosbarthu gwahanol fathau o aelwydydd.

**Ffigur 5: Canran y plant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad aelwydydd a rhyw'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg.**  
(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 CT0156, Cyfrifiad 2011 DC2112).



3.13 O ganolbwyntio ar y data o 2011 (yn y golofn lelog), mae cymharu rhyw'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg ym mhob categori o aelwyd yn Ffigur 5 yn datgelu un gwahaniaeth trawiadol. Mewn aelwydydd cyplau, mae tuedd amlwg i'r gyfradd drosglwyddo fod yn uwch pan yw'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg yn fenyw. Trafodir hyn yn 3.28.

#### *Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol*

3.14 Archwiliwyd y berthynas rhwng trosglwyddo a chefnidir economaidd-gymdeithasol y rhieni drwy astudio (1) cyfanswm niferoedd y plant sydd yn byw mewn cartrefi lle ceir o leiaf un rhiant sydd yn siarad Cymraeg ym mhob categori NS-SEC a (2) nifer a chanran y plant hynny sydd yn gallu siarad Cymraeg. Dengys Tabl 17 gyfanswm nifer y plant sydd yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg ar gyfer pob categori NS-SEC. Dengys Tabl 18 nifer a chanran y plant hyn sydd yn gallu siarad Cymraeg.

3.15 Yn achos **aelwydydd cwpl lle roedd dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg**, 68 y cant oedd y gyfradd drosglwyddo isaf—ymhlith 'myfyrwyr llawn-amser'—ond 24 o blant yr oed hwn yn unig oedd ganddynt: ni allai 8 ohonynt siarad Cymraeg. Y gyfradd drosglwyddo nesaf isaf oedd 78

y cant, a welwyd mewn tri grŵp: y rhai hynny oedd mewn galwedigaethau lled-gyffredin a'r rhai hynny nad oeddent erioed wedi gweithio neu a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir (dosbarthiadau dadansoddol 6 ac 8 NS-SEC) a'r rhai â 'Chyflogwyr mawr a galwedigaethau rheoli uwch a gweinyddol' (dosbarth dadansoddol 1.1. NS-SEC).

- 3.16 O ran cyfanswm niferoedd y plant 3 a 4 oed, roedd gan y rhai oedd mewn galwedigaethau lled-gyffredin 379 o'r cyfryw blant, roedd 49 gan y rhai oedd heb weithio erioed neu a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir, tra bod 123 gan y rhai yn nosbarth 1.1. O'r rheiny, y niferoedd na fedrai'r Gymraeg oedd 85, 11 a 27 yn eu tro. Roedd y gyfradd drosglwyddo yn nosbarthiadau dadansoddol eraill NS-SEC yn amrywio o 81 y cant (dosbarth 5. Galwedigaethau goruchwyllo a thechnegol is) i 86 y cant (galwedigaethau proffesiynol uwch 1.2). Roedd y naill ddosbarth yn cynnwys 75 o blant oedd yn methu siarad Cymraeg, o gymharu ag 88 o blant yn y llall.
- 3.17 Gwelwyd y niferoedd uchaf o blant 3 i 4 oed oedd yn methu siarad Cymraeg yn '2. Cartrefi galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is' ( $n=214$ ), '4 Cartrefi cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gofnod' ( $n=133$ ), a '7 cartrefi galwedigaethau cyffredin' ( $n=95$ ). Roedd cyfanswm y plant yn y tri grŵp olaf oedd yn methu siarad Cymraeg yn 446, ac felly yn cyfrif am 56 y cant o gyfanswm nifer y plant 3 i 4 oed nad oeddent yn siarad Cymraeg mewn aelwydydd cwpl lle roedd dau oedolyn neu fwy yn siarad Cymraeg.

*Rhagfynegyddion trosglwyddo ar sail data Cyfrifiad*

- 3.18 Mae adrannau blaenorol y bennod hon wedi dadansoddi canlyniadau'r cyfraddau trosglwyddo ac wedi dangos bod yr amrywiad mwyaf trawiadol i'w weld yn y rhain yn ôl categori'r aelwyd, yr awdurdod lleol lle mae'r teulu'n byw a hefyd—i raddau llai—ddosbarthiad economaidd-gymdeithasol y rhieni. Mae'r adran bresennol yn defnyddio modelu atchweliad logistaidd (a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn Jones (2013a)) er mwyn canfod i ba raddau y mae'r ffactorau hyn (neu newidynnau annibynnol) yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo (gweler Ffigur 6).<sup>22</sup> Mae atchweliad logistaidd yn ddull safonol o fodelu newidyn ymateb deuol fel

---

<sup>22</sup> Dengys y siart y canlyniadau a gafwyd trwy ddefnyddio modelu atchweliad logistaidd â data o Gyfrifiadau 2011 a 2001, a geir yn nhablau cyfrifiad DC2601 a C0801 yn eu tro.


hwn, h.y. newidyn lle mae'r canlyniad yn un o ddau bosibilrwydd yn unig. Yn yr achos hwn, y canlyniad a fodelir yw a all plentyn siarad Cymraeg ai beidio. Mae'r model yn ceisio dangos sut mae'r tebygolrwydd y bydd plentyn yn siarad yr iaith yn amrywio yn ôl lefelau nifer o newidynnau annibynnol.

- 3.19 Yn siartiau cyfraddau trosglwyddo'r 22 awdurdod lleol ar gyfer y 3 math o deulu, mae Gwynedd yn sefyll ar wahân i'r 3 awdurdod arall yn yr hyn a elwir weithiau yn "Fro Gymraeg", h.y. cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, sef Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, gan fod y cyfraddau trosglwyddo yn sylweddol uwch yno. Nid yw'r cyfraddau ar gyfer bron yr holl awdurdodau eraill yn amrywio'n sylweddol ac felly lleihawyd y ddaearyddiaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad o'r 22 awdurdod lleol i dair ardal: Gwynedd; Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin; a gweddill Cymru.
- 3.20 Y ffactorau a gynhwyswyd yn y model oedd 'Cyfrifiad' (er mwyn canfod a oes gwahaniaethau rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011), 'math o deulu' (sef cyplau dau riant lle roedd y ddau riant yn siarad Cymraeg, cyplau dau riant lle roedd un riant yn siarad Cymraeg, a theuluoedd unig-riant lle gallai un oedolyn ar yr aelwyd siarad Cymraeg), 'ardal' (Awdurdod Lleol) ac 'NS-SEC' (dosbarth NS-SEC fel yr amlinellwyd uchod). I gydweddu â'r model, cyflwynwyd y ffactorau un ar y tro, a'u cadw yn y model os oeddent yn ystadegol arwyddocaol. Wedi hynny cyflwynwyd termau rhyngweithio (e.e. ardal a math o deulu) fesul un, gan brofi eu harwyddocâd yn yr un modd. Gellir crynhoi'r model sydd yn cydweddu orau fel a ganlyn:

$$\text{Tebygolrwydd y bydd plentyn yn siarad Cymraeg} = \text{logit}^{-1}(\text{Cyfrifiad} + \text{Math o deulu} + \text{Ardal} + \text{NS-SEC} + \text{Cyfrifiad: Math o deulu} + \text{Ardal: Math o deulu})$$

- 3.21 Nid ailadroddir canlyniadau llawn y modelu ystadegol (y cyfernodau) yma er mwyn bod yn gryno. Yn hytrach, mae Ffigur 6 yn dangos tebygolrwydd trosglwyddo ar sail canrannau'r ffactorau hynny oedd yn arwyddocaol yn y modelu ystadegol.

**Ffigur 6: Tebygolrwydd trosglwyddo ar sail canlyniadau atchweliad logistaidd oedd yn cynnwys blwyddyn y Cyfrifiad, y math o aelwyd, yr awdurdod lleol a'r dosbarthiad economaidd-gymdeithasol (NS-SEC) yn newidynnau annibynnol (Jones 2013a).**



3.22 O gymryd aelwydydd yng Ngwynedd yn sylfaen (fel y nodwyd eisoes roedd trosglwyddo'r Gymraeg yn llai tebygol ymhlith aelwydydd y tu allan i Wynedd, ond roedd effaith yr ardal yn dibynnu ar y math o deulu, h.y. roedd ffactorau'r ardal a'r math o deulu yn rhyngweithio), mae holl linellau siart Gwynedd yn uwch na'r llinellau yn siartiau'r ddwy ardal arall. Fodd bynnag, gwelir mai llinellau'r teuluoedd unig riant sydd yn gostwng fwyaf o lefelau Gwynedd, tra gwelir y newid lleiaf yn lefelau'r teuluoedd cwpl lle ceir dau siaradwr Cymraeg.

3.23 Gwelwyd bod effaith y math o deulu a'r ffactor Cyfrifiad hefyd yn rhyngweithio. O gymryd Cyfrifiad 2001 fel dosbarth sylfaen, roedd tebygolrwydd trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd cwpl lle na allai ond un oedolyn siarad Cymraeg ryw 0.06 yn uwch yn 2011. Ar y llaw arall, roedd tebygolrwydd trosglwyddo mewn teuluoedd unig riant lle gallai'r rhiant dan sylw siarad Cymraeg 0.02 yn is yn 2011. Roedd tebygolrwydd trosglwyddo mewn teuluoedd cwpl lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg heb newid i bob pwrpas yn 2011.

- 3.24 O gymryd dosbarth NS-SEC 1 (Galwedigaethau rheoli uwch, gweinyddol a phroffesiynol) yn ddosbarth sylfaen, roedd yr amcangyfrifon ar gyfer dosbarthiadau NS-SEC 5-9 i gyd yn arwyddocaol wahanol, sydd yn dangos bod trosglwyddo'r Gymraeg i blant mewn aelwydydd lle roedd y person cyswllt yn perthyn i ddosbarthiadau NS-SEC 5–9 yn llai tebygol, os oedd yr holl ffactorau eraill (h.y. Cyfrifiad, y Math o Deulu a'r Ardal) yn gyfartal. Felly, mae holl linellau'r siart yn dangos tuedd ar i lawr ar draws y dosbarthiad NS-SEC.

### **Trafodaeth**

- 3.25 Mae data'r Cyfrifiad wedi dangos gwahaniaeth trawiadol yn y gyfradd drosglwyddo rhwng gwahanol 'fathau' o uned deuluol. Yn genedlaethol, roedd y ganran uchaf o blant tair i bedair oed sydd yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn aelwydydd dau riant lle mae'r ddau riant yn siarad yr iaith (82 y cant). Mae gwahaniaeth 37 pwynt canran rhwng y grŵp hwn a phlant mewn teuluoedd dau riant lle nad oes ond un riant yn gallu siarad Cymraeg (mae 45 y cant o'r rheiny'n siarad yr iaith). Ymddengys, felly, fod plant tair i bedair oed yn fwy tebygol o siarad Cymraeg pan fydd eu dau riant hefyd yn siarad yr iaith. Mae hyn yn ategu canfyddiadau gwaith blaenorol sydd wedi dangos bod plant yn fwy tebygol o siarad yr iaith lleiafrifol pan fydd y ddau riant yn siarad yr iaith honno (e.e. Varro (1998)).
- 3.26 Yr hyn sydd yn llai amlwg o'r llenyddiaeth, fodd bynnag, yw'r rhesymau am y gwahaniaeth rhwng canrannau'r plant sydd yn siarad Cymraeg sydd yn dod o deuluoedd dau riant lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg a'r rhai o deuluoedd unig riant lle mae'r riant dan sylw yn siarad yr iaith (y mae 53 y cant ohonynt yn siarad yr iaith). Ymddengys bod diffyg gwaith ar drosglwyddo mewn teuluoedd unig riant yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol.
- 3.27 Mae canlyniadau'r dadansoddiad o gyfansoddiad aelwydydd yn codi cwestiynau ar gyfer y gwaith ymchwil hwn a gwaith pellach. Er ei bod yn amlwg bod meddu ar ddau riant sydd yn siarad Cymraeg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plentyn tair i bedair oed yn siarad Cymraeg (fel y dangoswyd yn yr atchweliad logistaidd yn 3.22), a bod trosglwyddo'r Gymraeg yn ymddangos yn 'naturiol' i lawer o rieni (Gathercole et al. 2007), nid yw'n eglur pam nad yw 18 y cant o'r plant sydd yn perthyn i'r categori



hwn yn siarad yr iaith. Mae llawer mwy o gwestiynau yn codi ynghylch ymddygiad ieithyddol y rhai mewn teuluoedd unig riant lle mae'r rhiant yn siarad Cymraeg ac ymhlith cyplau lle mae un o'r rhieni yn siarad yr iaith. Er bod yr astudiaeth hon yn ceisio ymchwilio i'r prif ffactorau sydd yn dylanwadu ar y grwpiau hyn, dylid nodi y byddai astudiaethau manwl, ar wahân ar ddeinameg trosglwyddo mewn gwahanol fathau o aelwydydd yn gynhyrchiol.

- 3.28 O droi at y berthynas rhwng rhyw'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg a chyfraddau trosglwyddo, roedd 49 y cant o'r plant yr oedd eu mamau'n siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg eu hunain, o gymharu â 40 y cant ymhlith y rhai yr oedd eu tadau'n siarad yr iaith (mewn teuluoedd dau riant). Mewn teuluoedd unig riant, roedd canran y plant oedd yn siarad Cymraeg hefyd yn uwch pan oedd y fam yn siarad Cymraeg (54 y cant) na chanran y rhai o gartrefi lle roedd y tad yn siarad Cymraeg (42 y cant). Byddem yn dadlau bod dull mwy ansoddol (fel y gwelir yn Jones & Morris (2005b), er enghraifft) yn gynhyrchiol er mwyn ymchwilio i hyn ymhellach, gan fod hynny'n caniatáu i'r ymchwilydd ymchwilio i weld ai rhyw sydd yn dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol mewn gwirionedd neu i ba raddau mae'r ddau riant yn cyflawni'r prif ddyletswyddau gofalu yn ystod blynyddoedd cynnar plentyndod.
- 3.29 Dengys yr archwiliad cychwynnol o'r canrannau a'r atchweliad logistaidd fod perthynas rhwng y gyfran o'r boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg mewn awdurdod lleol penodol a'r gyfradd drosglwyddo. O'u cyfuno, roedd y pedair sir oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys 50 y cant ( $n=4,268$ ) o'r plant tair i bedair oed oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mewn cyferbyniad, nid oeddent yn cynnwys ond 25 y cant ( $n=1,578$ ) o'r plant oedd yn methu siarad yr iaith. Fel y dangoswyd yn yr atchweliad logistaidd (gweler 3.23), roedd y math o aelwyd a'r awdurdod lleol yn rhyngweithio'n gyffredinol. Mewn geiriau eraill, roedd trosglwyddo'n fwy tebygol yng Ngwynedd, ac yna'n gyffredinol uwch yn y tair sir arall oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, yn achos y tri math o aelwyd.
- 3.30 Mae sawl problem ynghlwm wrth y gyfatebiaeth rhwng awdurdod lleol a throsglwyddo. Yn gyntaf, mae'r rhaniad cymdeithasol-hanesyddol rhwng ardaloedd gorllewinol Cymru, lle ceir canran uwch o siaradwyr Cymraeg, ac

ardaloedd y dwyrain, lle ceir canran is, yn golygu bod modd seilio dadansoddiad o awdurdodau lleol unigol ar niferoedd bychain.<sup>23</sup> Gellid dadlau bod hyn wedi'i ddatrys yn y dadansoddiad atchweliad logistaidd trwy grwpio awdurdodau lleol â'i gilydd. Yn ail, mae Gathercole et al. (2007, t. 84) yn nodi y gall canran y bobl mewn ardal sydd yn siarad Cymraeg hefyd gael ei gymhlethu ymhellach gan newidynnau eraill megis defnydd dyddiol unigolion (gweler hefyd Alvarez Enparantza (2001)) a allai effeithio ar drosglwyddo yn ogystal. Yn drydydd, ac yn gyferbyniol i ryw raddau, rydym wedi trafod y problemau sydd yn gysylltiedig â *rhagdybio* cyfatebiaeth rhwng 'cymuned' siaradwr a'u lleoliad daearyddol.

- 3.31 Mae'n werth nodi bod y gwahaniaeth mwyaf rhwng Gwynedd a siroedd eraill i'w weld yn y categori unig riant. Gallai hyn fod oherwydd y tebygolrwydd y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol a mwy o aelodau sydd yn siarad Cymraeg ymhlith y teulu estynedig. Fel y dangoswyd uchod, mae diffyg astudio wedi bod ar drosglwyddo mewn teuluoedd unig riant, ac ni ellir cynnig rhesymau digonol pam yr ymddengys bod hyn yn fwy llwyddiannus yng Ngwynedd nag mewn siroedd eraill mewn dadansoddiad o ddata Cyfrifiad.
- 3.32 Yn olaf, amlygodd yr atchweliad logistaidd duedd i drosglwyddo fod yn llai tebygol ymysg y grwpiau NS-SEC 5-9 sydd yn awgrymu, os yw popeth arall yn gyfartal, bod lefel trosglwyddo'n uwch ymhlith y rhai sydd â busnesau bach, sydd mewn galwedigaethau canolraddol, ac sydd mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol. Ceir tystiolaeth i awgrymu y gall trosglwyddo fod yn fwy tebygol mewn teuluoedd dosbarth canol a all fod yn fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd ac yn fwy tebygol o weld perthynas rhwng gwerthoedd diwylliannol a chynnal iaith (e.e. Nesteruk (2010)). Mae ymchwil ar drosglwyddo'r Gymraeg yn awgrymu y gall y rhai sydd yn perthyn i'r grwpiau economaidd-gymdeithasol is—o leiaf yn hanesyddol—fod yn fwy tebygol o weld trosglwyddo'r Gymraeg fel rhywbeth niweidiol i ddatblygiad y Saesneg sydd yn bwysig ar gyfer symudedd cymdeithasol (gweler Harrison et al. (1981, t. 62)). Rhan o gylch gorchwyl y gwaith ymchwil presennol yw edrych ar agweddau at ddwyieithrwydd (ac yn

---

<sup>23</sup> Fel y dengys y gymhariaeth rhwng Sir y Fflint a Gwynedd yn 3.10, nid yw hyn yn wir ym mhob achos.

benodol ar y gred y bydd caffael y Gymraeg yn niweidio gallu plentyn i gaffael y Saesneg) fel ffactor a allai ddylanwadu ar drosglwyddo. Fel y nodir ym Mhennod 4 (Methodoleg), fodd bynnag, penderfynwyd peidio â rheoli yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol y cyfranogwyr, oherwydd maint y sampl. Er y gellid dadlau y buasai hynny'n gynhyrchiol, ein dadl ni yw ei bod yn fwy defnyddiol cadw'r canlyniadau hyn mewn cof yn ystod y dadansoddiad ansoddol er mwyn canfod a yw cefndir economaidd ac academiaidd y cyfranogwyr yn creu canlyniadau diddorol o ran agweddau at ddwyieithrwydd.

### **Diwedd glo**

- 3.33 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno dadansoddiad o'r data Cyfrifiad sydd yn ymwneud â gallu plant tair i bedair oed yng Nghymru i siarad Cymraeg. Drwy gymharu'r data hyn â gallu'r rhieni i siarad Cymraeg, rydym wedi gallu canfod cyfraddau trosglwyddo ac astudio'r gwahaniaeth rhwng cefndir ieithyddol y rhiant/rhieni a'u rhyw, eu hawdurdod lleol, a'u dosbarthiad economaidd-gymdeithasol. Yna cyflwynwyd canlyniadau atchweliad logistaidd oedd yn dangos bod trosglwyddo yn fwy tebygol yng Ngwynedd, mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg ac, i raddau llai, ymhlith y rhai sydd yn perthyn i ddosbarthiadau economaidd-gymdeithasol uwch.
- 3.34 Mae'r gyfran (a'r nifer) uchaf o blant sydd yn methu siarad Cymraeg yn dod o aelwydydd dau riant lle nad oes ond un rhiant yn siarad yr iaith, ac o ardaloedd y tu allan i'r pedair sir lle ceir y canrannau uchaf sydd yn siarad Cymraeg yn y boblogaeth. Mae hyn yn ategu gwaith blaenorol sydd yn dangos bod trosglwyddo mewn sefyllfaoedd lle nad oes ond un rhiant yn siarad yr iaith leiafrifol a lle ceir llai o fynediad at yr iaith yn yr ardal leol yn fwy anodd. Mae'r rhesymau pam y ceir cyfraddau trosglwyddo cymharol isel mewn teuluoedd unig riant yn llai amlwg, gan fod prinder ymchwil yn y maes hwn.

## 4. Methodoleg

- 4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth o ddylanwad ffactorau ar drosglwyddo'r Gymraeg ac i ba raddau y mae trosglwyddo iaith yn benderfyniad ymwybodol a wneir cyn a/neu ar ôl yr enedigaeth. Mae'r adran yn cynnwys amlinelliad o ddyluniad y sampl, sut recriwtiwyd yr ymatebwyr a'r methodolegau a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu data.
- 4.2 Prif amcanion yr ymchwil yw edrych ar y ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg, i ganfod ai penderfyniad ymwybodol yw trosglwyddo iaith, ac ymchwilio i batrymau defnydd iaith rhwng 0 a 4 oed. I gyflawni'r nodau hyn, aethom ati i gasglu data trwy ddefnyddio dulliau cymysg. Mae'r data meintiol sylfaenol yn casglu gwybodaeth am gefndiroedd rhoddwyr gofal, eu defnydd cyfredol o'r Gymraeg, a'u gwerthoedd cymdeithasol ehangach a allai ddylanwadu ar eu penderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant (os, yn wir, gwneir penderfyniad ymwybodol). Mae'r data ansoddol sylfaenol yn cyfleu naratifau rhoddwyr gofal o ran eu profiadau o ddefnyddio'r iaith â'u plant i ymchwilio i unrhyw batrymau ymddygiad. Mae cynllun yr holiadur yn manteisio ar fewnwelediad seicoleg gymdeithasol, a amlinellir ym Mhennod 5 (Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith). Credwn mai hwn yw'r tro cyntaf i ddull ymddygiadol o'r fath gael ei ddefnyddio'n systematig mewn ymchwil empirig i drosglwyddo iaith leiafrifol rhwng y cenedlaethau.<sup>24</sup>

### Dyluniad yr Ymchwil

- 4.3 Mabwysiadwyd ymagwedd dulliau cymysg (gweler Creswell & Clark (2011) am drosolwg) wrth gynllunio'r ymchwil ac roedd yn cynnwys cwestiynau caeedig meintiol yn ogystal â chwestiynau mwy agored a luniwyd i gasglu data ansoddol. Casglwyd y data hyn trwy holiaduron ysgrifenedig, a gyflwynwyd i ymatebwyr ar ddechrau sesiwn y cyfweliad, ac a ddilynwyd gan gyfweliad lled-strwythuredig â'r prif roddwr gofal. Lluniwyd holiadur ysgrifenedig pellach i'r rhoddwr gofal eilaidd (a oedd yn absennol o'r cyfweliadau) ei gwblhau a'i ddychwelyd drwy'r post.

---

<sup>24</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, bod Irvine et al. (2008) wedi amlinellu cyfraniad posibl TPB petai'n cael ei gymhwyso i ymyriadau trosglwyddo rhwng y cenedlaethau megis Twf. Byddwn yn ymhelaethu ar hyn yn 5.6.

4.4 Mae'r dulliau cymysg a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil presennol yn dilyn dull gweithredu *dyluniad wedi'i fewnosod* (Bryman 2015, t. 639) sydd yn golygu y bydd y data meintiol ac ansoddol yn cael eu hintegreiddio i lunio ein canfyddiadau. Y rhesymeg sylfaenol ar gyfer y dull hwn o ymdrin â dylunio gwaith ymchwil yw y bydd y canlyniadau ansoddol a meintiol yn ein helpu i gyflwyno darlun mwy cyflawn (Bryman 2015, t. 644) nid yn unig o sut mae'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo, ond hefyd o'r dylanwadau o ran (diffyg) trosglwyddo. Yn fwy penodol, roedd yr holiadur ysgrifenedig yn ein galluogi i integreiddio mesurau sefydledig ym maes seicoleg ymddygiadol i archwilio'r gyfatebiaeth rhwng agweddau ar drosglwyddo iaith ac ymddygiad dynol. Rydym yn manylu ar hyn ym Mhennod 5 (Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith).

#### *Data meintiol*

- 4.5 Casglwyd y data meintiol drwy gyfrwng yr holiadur a'r cyfweiliad.<sup>25</sup> Roedd nifer o gwestiynau caeedig wedi'u cynnwys yn rhestr y cyfweiliad, ac roeddent wedi'u codio gan yr ymchwilydd i gwtogi faint o amser a gymerid i lenwi'r holiadur ysgrifenedig. Roedd yr holiadur a gynlluniwyd ar gyfer y rhoddwr gofal nad oedd yn bresennol yn ystod casglu'r data yn cynnwys y cwestiynau meintiol o'r holiadur gwreiddiol.
- 4.6 Mesurwyd trosglwyddo iaith yn feintiol drwy ofyn 'pa ieithoedd byddwch chi a'ch partner yn eu defnyddio â'ch plentyn ifanc?' Roedd yr ateb hwn yn cynnwys nifer o opsiynau gan gynnwys 'bob amser/bron bob amser yn Gymraeg' i 'bob amser/bron bob amser yn Saesneg' ac roedd yn caniatáu i'r ymatebydd wahaniaethu rhwng ei ddefnydd/ei defnydd iaith a defnydd iaith ei bartner/ei phartner. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddefnydd iaith â'r plentyn ieuengaf er mwyn gweld a oedd gwahanol batrymau defnydd iaith gan rieni â phlant iau/hŷn. Holwyd ymhellach ynghylch hyn yn y cyfweiliad.
- 4.7 Roedd yr wybodaeth gefndir feintiol a gasglwyd trwy'r holiadur yn cynnwys rhyw ac oedran y prif roddwr gofal, fel bod modd disgrifio'r sampl terfynol yn ddigonol, ac ymchwilio i gyfatebiaethau posibl.

---

<sup>25</sup> Mae'r holl holiaduron a ddefnyddiwyd yn y prosiect ymchwil hwn ar gael yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

- 4.8 Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr nodi ble roeddent yn byw ac a oeddent wedi byw yn rhywle arall yn ystod eu bywyd. Barnwyd bod hyn yn angenrheidiol yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg, lle ceir cyfatebiaeth rhwng cefndir ieithyddol ac ardal, ac yng nghyd-destun y sampl haenedig fesul ardal.
- 4.9 Ni fuom yn rheoli o safbwynt cefndir addysgol na statws economaidd-gymdeithasol wrth samplu er gwaethaf arwyddion y gall hyn fod yn rhagfynegydd ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg (Jones 2013b). Teimlid na fyddai haenu'r sampl ar hyd y llinellau hyn yn gynhyrchiol o ystyried nifer yr ymatebwyr ( $n=60$ ). Casglwyd data ar lefelau addysgol ymatebwyr a'u cyflogaeth bresennol i ddiffinio'r sampl yn ddigonol ac i ganfod a ellid archwilio perthynas bosibl.
- 4.10 Gofynnwyd i ymatebwyr ddiffinio eu hunaniaeth genedlaethol er mwyn ymchwilio i ba raddau y mae perthynas rhwng hunaniaeth genedlaethol Gymreig unigryw ymhlith yr ymatebwyr (yn hytrach na hunaniaeth luosog) a throsglwyddo iaith wrth ddisgrifio ein sampl.
- 4.11 Cynlluniwyd cyfres o gwestiynau i gasglu data ar gefndir ieithyddol yr ymatebwyr. Roedd y cwestiynau hyn yn cyfateb i gwestiynau cysylltiedig â iaith a ofynnwyd yn y Cyfrifiad Cenedlaethol a'r Arolwg Defnydd o'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru & Comisiynydd y Gymraeg 2015), ac roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn i ymatebwyr nodi a oeddent yn gallu deall, siarad, darllen, a/neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd yr ail gwestiwn yn gofyn i ymatebwyr raddio eu gallu i siarad Cymraeg (yn amrywio o ruglder i allu dweud ambell air). Roedd y trydydd cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr nodi ble bu iddynt gaffael y Gymraeg yn y lle cyntaf. Mae'r cwestiynau hyn yn caniatáu inni ymchwilio i'r berthynas rhwng gallu canfyddedig a hyder yn y Gymraeg (oedd hefyd yn cael ei archwilio yn y cyfweiliad) a'r cefndir ieithyddol wrth drosglwyddo.
- 4.12 Roedd yr holiadur ysgrifenedig hefyd yn cynnwys pedair set o eitemau a luniwyd i gasglu data ymddygiadol gan yr ymatebwyr. Defnyddiwyd y data hyn i archwilio (1) a oedd trosglwyddo iaith yn ymddygiad bwriadol a (2) i ba raddau y gall gwerthoedd a chredoau ymatebwyr ddylanwadu ar drosglwyddo iaith.

- 4.13 Yn gyntaf, i ymchwilio i ba raddau y mae trosglwyddo yn ymddygiad bwriadol, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn siarad â'u plentyn ym mha iaith bynnag oedd yn dod yn fwyaf naturiol iddynt, neu a oeddent wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio iaith benodol. Ymhelaethwyd ar yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn y cyfweiliad.
- 4.14 Mae gwaith ar y Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) yn awgrymu, os na cheir ymyrraeth allanol, y bydd cam gweithredu neu ymddygiad penodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys cymhelliant ac agweddau tuag at yr ymddygiad. Dylanwadir ar y ddau, yn eu tro, gan normau cymdeithasol canfyddedig tuag at yr ymddygiad, rheolaeth ymddygiadol ganfyddedig yng nghyswllt medru cwblhau'r ymddygiad, ac, mewn amrywiadau diweddar ar y model, i ba raddau mae'r ymddygiad yn cyfateb i sut mae person yn ei weld ei hun (Ajzen 1991; Fielding et al. 2008). Rydym yn ymgorffori elfennau o'r model hwn i'r dyluniad meintiol er mwyn profi a yw'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a dadansoddir hynny ym Mhennod 5 (Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith).
- 4.15 Cynhwyswyd cyfres o eitemau (a addaswyd o Fielding et al. (2008)) yn yr holiadur ysgrifenedig er mwyn dadansoddi ymddygiad bwriadol yn feintiol. Cyflwynwyd yr eitemau hyn ar raddfa seithpwynt a gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob gosodiad.
- 4.16 Mesurwyd yr agweddau tuag at drosglwyddo drwy ofyn i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod siarad Cymraeg â'u plentyn yn dda.
- 4.17 Canfuwyd y normau cymdeithasol canfyddedig drwy ofyn a oedd ymatebwyr yn credu bod y bobl sydd yn agos atynt o'r farn y dylid siarad Cymraeg â'u plant, a oedd yn arferol i bobl siarad Cymraeg â'u plant lle roeddent yn byw, ac a oedd digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gymuned ehangach.
- 4.18 Profwyd rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad drwy ofyn i ba raddau roedd ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros siarad Cymraeg â'u plentyn ai peidio, a oedd siarad Cymraeg â'u plentyn yn hawdd neu'n anodd, ac a oedd siarad Cymraeg â'u plentyn yn rhywbeth roeddent yn ei wneud heb feddwl.

- 4.19 Roedd hunaniaeth yn cael ei fesur drwy ofyn i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn siaradwyr Cymraeg, i ba raddau roedd y gallu i siarad Cymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth, ac a oeddent y math o berson a fyddai'n siarad Cymraeg.
- 4.20 Mae canlyniadau'r cwestiynau hyn yn caniatáu inni ganfod i ba raddau y mae sgoriau uwch ar y ffactorau hyn yn cyfateb i drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu.
- 4.21 Mae llenyddiaeth flaenorol yn awgrymu y gall treftadaeth ddiwylliannol a gwerthoedd traddodiadol ragfynegi trosglwyddo iaith (e.e. Ager (2001)). Yn y llenyddiaeth gymdeithasol seicolegol, mae'r pwysigrwydd a roddir i dreftadaeth ddiwylliannol yn gwerth y mae pobl yn uniaethu â hi i wahanol raddau. Mae Schwartz (2003, t. 263) yn diffinio gwerthoedd fel 'deeply rooted, abstract motivations that guide, justify or explain attitudes, norms, opinions and actions.' I ymchwilio i'r berthynas rhwng trosglwyddo iaith a gwerthoedd o'r fath, defnyddiwyd fersiwn 11-eitem o Holiadur Portread Gwerthoedd Schwartz (2003) i ganfod y Gwerthoedd Cyffredinol oedd gan yr ymatebwyr. Mae'r holiadur hwn yn gofyn i ymatebwyr i ba raddau y mae cyfres o ddatganiadau yn disgrifio person tebyg iddynt hwy eu hunain. Mae'r eitemau yn yr holiadur yn cyfateb i werthoedd sylfaenol a briodolir i fodau dynol a'r nodau sydd yn cymell y gwerthoedd hynny. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwerthoedd a'r 'nodau ysgogiadol' hyn (addaswyd o Schwartz (2003, tt. 267-268)).



**Tabl 3: Gwerthoedd craidd a nodau ysgogiadol cysylltiedig (Schwartz 2003)**

Gwerth	Nodau
Pŵer	Grym cymdeithasol a bri
Cyflawniad	Llwyddiant personol a dylanwad
Hedoniaeth	Pleser a boddhad
Symbyliad	Cyffro a newydd-deb
Hunan-gyfeiriad	Annibyniaeth
Cyffredinoliaeth	Dealltwriaeth a goddefgarwch o bawb
Caredigrwydd	Pryder am y rheini sydd yn agos atom
Traddodiad	Parch at ac ymrwymiad i draddodiad
Cydymffurfio	Atal camau sydd yn debygol o amharu neu niweidio eraill
Diogelwch	Diogelwch a sefydlogrwydd yn y gymdeithas, y gymuned a'r teulu

4.22 Nod yr eitemau holiadur hyn yw canfod y pwysigrwydd cymharol y mae pob ymatebydd yn ei roi i'r gwerthoedd a ddangosir yn y tabl trwy gynhyrchu sgôr. Gellir defnyddio sgorau hyn i gyfrifo cyfatebiaeth rhwng tueddiad at werthoedd penodol a throsglwyddo iaith.

4.23 I grynhoi, roedd yr holiadur ysgrifenedig (a roddwyd i ymatebwyr ar ddechrau'r sesiwn casglu data i roi gwybodaeth gefndir ar gyfer y cyfweliad i'r ymchwilydd) a'r cyfweliad llafar yn cynnwys cwestiynau meintiol. Roedd y cwestiynau hyn yn casglu gwybodaeth am bob ymatebydd: eu rhyw, eu hoed, eu statws economaidd-gymdeithasol, a'u defnydd o'r Gymraeg. Roedd cwestiynau caeedig pellach yn gofyn i ymatebwyr a fyddent hwy neu eu partner yn siarad Cymraeg â'u plentyn. Ar ben hynny, roedd yr holiadur ysgrifenedig yn cynnwys nifer o eitemau wedi'u cynllunio i gasglu data ar agweddau ymddygiadol trosglwyddo iaith. Bydd y data hyn yn ein galluogi i archwilio cyfatebiaethau rhwng nifer o wahanol ffactorau sosio-ieithyddol a throsglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

#### *Data Ansoddol*

4.24 Casglwyd y data ansoddol trwy gyfweliad lled-strwythuredig ac fe'u cynlluniwyd i sbarduno naratif cyfoethocach o'r materion cysylltiedig â

throsoglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Teimlid y byddai ategu'r data meintiol â naratifau o gyfweiliadau lled-strwythuredig yn rhoi cipolwg ychwanegol ar yr amodau sydd yn hyrwyddo trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Teimlid yn arbennig y byddai'r data ansoddol yn caniatáu inni fynd y tu hwnt i'r berthynas rhwng cefndir ymatebwyr a sut maent yn ymddwyn a chael cipolwg ar sut maent yn priodoli ystyr i'w hamgylchedd ieithyddol (Bryman 2015, t. 393).

- 4.25 Cynlluniwyd y cwestiynau i ysgogi naratifau sydd yn ymwneud â nifer o themâu y dangoswyd eu bod yn berthnasol i drosglwyddo iaith o fewn y teulu. Roedd y themâu hyn yn cynnwys cefndir ieithyddol yr ymatebwyr eu hunain, eu defnydd cyfredol o'r Gymraeg, y modd y defnyddir Cymraeg a Saesneg â'u plentyn, i ba raddau roedd defnydd iaith y teulu yn destun trafodaeth ymlaen llaw neu flaengynllunio, a'r cymorth a'r ddarpariaeth oedd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.
- 4.26 Dangoswyd bod rôl cefndir ieithyddol yn rhagfynegydd pwysig ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg (Gathercole et al. 2007), ond ychydig sydd yn hysbys am rôl agweddau yn ystod plentyndod a defnydd o iaith tuag at drosglwyddo. Roedd rhan gyntaf y cyfweiliad lled-strwythuredig yn gofyn i ymatebwyr i siarad am pryd, ble a chyda phwy byddent yn siarad Cymraeg yn ystod eu plentyndod, a'u canfyddiad hwy ynghylch agweddau at y Gymraeg yn eu cymuned.
- 4.27 Yn dilyn hyn, holwyd yr ymatebwyr am eu defnydd cyfredol o iaith ac i ba raddau roeddent yn defnyddio'r Gymraeg â'u teulu agos ac estynedig, ac yn y gymuned leol. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch i ba raddau y maent yn teimlo'n gyfforddus yn Gymraeg ac yn ei gweld yn agwedd bwysig ar eu hunaniaeth. Y rhesymeg tu ôl i holi'r cwestiynau hyn oedd ein galluogi i greu proffil o ddefnydd o'r Gymraeg ar gyfer pob ymatebydd, ar sail eu defnydd o'r Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith iddynt.
- 4.28 Mae gwaith blaenorol ar drosglwyddo rhwng y cenedlaethau yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd yn awgrymu y gall rhwydweithiau cymdeithasol clòs, cyswllt mynych â'r teulu estynedig, a chefnogaeth gymunedol i'r iaith hybu ei throsglwyddiad yn y cartref. Yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg, roeddem yn teimlo y byddai proffil ieithyddol mwy ansoddol o'r agweddau hyn ar ddefnydd o'r Gymraeg yn darparu mwy o fewnwelediad

yng ngoleuni'r ffaith bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn dod o deuluoedd lle na fydd rhai neu'r holl aelodau o reidrwydd yn siarad Cymraeg a lle mae'n anochel y bydd gwahaniaethau o ran i ba raddau mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymuned leol.

- 4.29 Yn nhrydedd ran y cyfweiliad lled-strwythuredig, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu harferion ieithyddol presennol (a rhai eu partner lle roedd hynny'n briodol) â'u plant. Nod y rhan hon o'r cyfweiliad oedd mynd y tu hwnt i'r cwestiwn syml ynghylch a oedd y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo yn y teulu a chanfod *sut* mae'n cael ei throsglwyddo (os yw'n berthnasol). Yn benodol, gofynnai'r cwestiwn hwn pwy oedd yn defnyddio Cymraeg â'r plentyn ac ym mha gyd-destunau, a sut roedd y plentyn yn ymateb. Fel yn achos y defnydd o'r Gymraeg, mae hyn yn ein galluogi i ddangos ym mha ffyrdd ac i ba raddau y defnyddir Cymraeg a Saesneg ymhlith pobl ddwyieithog yng Nghymru.
- 4.30 Roedd pedwaredd a phumed ran y cyfweiliad lled-strwythuredig yn canolbwyntio ar ddau faes sydd heb eu harchwilio'n llawn mewn ymchwil flaenorol ar drosglwyddo'r Gymraeg, ond y cyfeirir atynt yn aml, serch hynny, mewn gwaith blaenorol ar gyd-destunau ieithyddol eraill. Mae gwaith yn y cyd-destunau hyn yn awgrymu bod trosglwyddo iaith, yn enwedig mewn teuluoedd lle mae'r ddau roddwr gofal yn siarad ieithoedd gwahanol, yn dibynnu ar strategaethau ac ystyried ymlaen llaw. Ein nod oedd canfod a oedd hynny'n wir am drosglwyddo'r Gymraeg ac a oedd trosglwyddo'n cael ei drafod naill ai cyn yr enedigaeth a/neu wedyn. Rhoddir sylw i hyn hefyd yn yr holiadur ysgrifenedig, lle roeddem yn gofyn a fu trafodaethau, ac yn defnyddio modelau o theori ymddygiad.
- 4.31 Cyfeirir hefyd at rôl darpariaeth a chefnogaeth y gymuned fel elfen bwysig ar gyfer trosglwyddo ieithoedd lleiafrifol rhwng y cenedlaethau yn y cartref. Mae astudiaethau blaenorol o drosglwyddo'r Gymraeg wedi edrych ar y gymuned yn bennaf o ran cyfran y siaradwyr mewn ardal benodol a rhwydweithiau cymdeithasol ymatebwyr. Nod adran olaf y cyfweiliad lled-strwythuredig oedd ymchwilio i sut mae ymatebwyr yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau Cymraeg yn eu hardal ac a ydynt yn teimlo bod cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg yn lleol.

## Dyluniad y Sampl

- 4.32 Cyfrifwyd maint sampl o 60 o deuluoedd oedd yn cynnwys o leiaf un plentyn 0-4 oed ac o leiaf un rhoddwr gofal oedd yn sôn am fedru siarad Cymraeg at ddibenion y gwaith ymchwil hwn. Er y buasai sampl cynrychioliadol yn hytrach nag un archwiliadol (Denscombe, t. 46) o siaradwyr Cymraeg wedi bod yn ddymunol ar gyfer gwneud datganiadau cyffredinol am ymddygiad ieithyddol y boblogaeth ehangach yn seiliedig ar y data meintiol, mae samplau mawr ar gyfer data ansoddol yn cymryd mwy o amser a gall hynny arwain at ddirlawnder data heb i unrhyw themâu newydd ddod i'r amlwg (O'Reilly & Parker 2013). Penderfynwyd felly y byddai maint sampl o 60 yn gyraeddadwy, yn caniatáu ar gyfer dadansoddiadau ystyrlon o ddata meintiol ac yn lleihau risgiau dirlawnder yn y data ansoddol.
- 4.33 Penderfynwyd haenu'r sampl fesul rhanbarth a chasglu data o 30 o deuluoedd yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn (Gogledd-orllewin Cymru) a 30 o deuluoedd yn siroedd Caerffili a Rhondda Cynon Taf (De-ddwyrain Cymru). Gwnaed y penderfyniad hwn i ymchwilio i brofiadau ymatebwyr mewn ardaloedd gwahanol. Fodd bynnag, dylid nodi nad prif ffocws yr ymchwil yw cymharu'r ddwy ardal. Er bod gwahaniaethau demograffig rhwng y siroedd a geir yn y ddau ranbarth (ac yn wir rhwng wardiau etholiadol o fewn pob sir), maent yn debyg o ran eu Dosbarthiad Trefol Gwledig a'r gyfran o'r boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg. Dengys y tabl isod ganran y siaradwyr Cymraeg ym mhob sir a chyfradd trosglwyddo yn ôl Cyfrifiad 2011:

**Tabl 4: Canran y siaradwyr Cymraeg a canran yr aelwydydd sydd yn cynnwys un neu fwy o rhieni sydd yn siarad Cymraeg a phlant sydd yn siarad Cymraeg**

	<b>Dosbarthiad Trefol Gwledig</b>	<b>Proffil iaith: % sydd yn gallu siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2011)</b>	<b>Cyfraddau trosglwyddo iaith</b>  (ffigurau ar gyfer cyplau 2 oedolyn, y ddau yn siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2011—82% yw'r ffigur ar gyfer Cymru) <sup>26</sup>
<b>Y Gogledd-orllewin: (Ynys Môn, Gwynedd)</b>	Gwledig	Ynys Môn 57.2%; Gwynedd 65.4%	Ynys Môn 80% Gwynedd—90%;
<b>Y De-ddwyrain: (Rhondda Cynon Taf, Caerffili)</b>	Lled-wledig	Rhondda Cynon Taf 12.3% Caerffili 11.2%	Rhondda Cynon Taf—67% Caerffili 73%

4.34 Dangoswyd bod natur ieithyddol teuluoedd unigol (er enghraifft cyplau o gartrefi di-Gymraeg) yn ogystal â defnydd unigolion o'r Gymraeg, yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg (Gathercole et al. 2007). Ar ôl diffinio ein ffrâm samplu ar sail rhanbarth, teimlid na fyddai modd cyflawni haenau pellach yn seiliedig ar gefndir ieithyddol. Yn hytrach, aethom ati i recriwtio ymatebwyr o amrywiaeth o ffynonellau i gasglu data gan deuluoedd o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae'r rhai sydd yn byw mewn ardaloedd lle mae dros 60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi caffael y Gymraeg yn y cartref ac o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd (Jones 2008)). Dylid cydnabod hefyd, felly, y gallai unrhyw wahaniaethau ym mhrofiadau teuluoedd o wahanol ranbarthau gael eu cymhlethu gan ffactorau eraill. Rhoddir sylw i hyn yn y dadansoddiadau sydd yn dilyn ym Mhenodau 5 (Cymhwysio Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith) a 6 (Dadansoddi'r Data Ansoddol).

<sup>26</sup> Data o [http://statiath.com/blog/cyfrifiad-2011/trosglwyddor-gymraeg/siartiau\\_trosglwyddo/](http://statiath.com/blog/cyfrifiad-2011/trosglwyddor-gymraeg/siartiau_trosglwyddo/).

## **Moeseg Ymchwil**

- 4.35 Rhoddwyd sêl bendith foesegol gan y Pwyllgor Moeseg yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Y pwyllgor hwn sydd yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cael eu cynnal. Gan fod un aelod o'r tîm ymchwil ar gyfer y prosiect ymchwil cyfredol hefyd yn gweithredu fel Swyddog Moeseg ar gyfer Ysgol y Gymraeg (Morris), proseswyd y cais gan Aelodau eraill Pwyllgor yr Ysgol a chafodd ei ystyried hefyd gan adolygydd o Brifysgol Caerdydd y tu allan i Ysgol y Gymraeg. Cwblhawyd a chyflwynwyd Rhestr Wirio Moeseg GSR hefyd, fel rhan o'r cais am sêl bendith foesegol.
- 4.36 Roedd yr ymatebwyr a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth i gyd dros 18 oed ar adeg casglu'r data. Darparwyd Taflen Wybodaeth i'r Ymatebwyr oedd yn amlinellu nodau'r ymchwil a'r dulliau o gasglu data. Roedd y daflen wybodaeth hefyd yn datgan bod (1) cymryd rhan yn wirfoddol, (2) y byddai data a ddarperid yn cael ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data (1998) ac yn ddienw a (3) y gallai'r ymatebydd dynnu yn ôl o'r gwaith ymchwil ar unrhyw adeg. Gellir gweld yr wybodaeth a roddwyd i'r ymatebydd cyn cael caniatâd yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.
- 4.37 Gwnaed y data a gynhyrchwyd yn ystod yr ymchwil yn ddienw yn y man casglu data ac fe'u cadwyd ar weinyddion diogel. Dim ond y tîm ymchwil oedd yn gallu cyrchu'r data.
- 4.38 Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru i gyrchu manylion ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi cydsynio i gael pobl yn cysylltu â hwy ynghylch ymchwil yn y dyfodol. Caniatwyd y cais hwn ar 18 Ionawr 2016 yn ddarostyngedig i amodau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir rhagor o wybodaeth am recriwtio ymatebwyr isod.

## **Recriwtio Ymatebwyr a Chasglu Data**

### *Dull Recriwtio 1: Defnyddio manylion cyswllt Arolwg Cenedlaethol Cymru<sup>27</sup>*

- 4.39 Rhoddwyd i'r tîm ymchwil fanylion cyswllt y rhieni hynny a oedd wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol ac a oedd wedi cydsynio i'r cyswllt pellach. Yn benodol, manylion y rhai a oedd wedi dweud bod (1) eu cartref yn

---

<sup>27</sup> Arolwg blynyddol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru.

cynnwys plentyn o dan bump oed, (2) eu bod yn 'rhugl yn y Gymraeg' neu'n gallu 'siarad cryn dipyn' o Gymraeg a (3) eu bod yn barod i rywun gysylltu â hwy ar gyfer prosiectau ymchwil yn y dyfodol. Yn sgil hyn cafwyd 171 o ymatebwyr yn y pedair sir a ddiffiniwyd yn y sampl a gwnaed ymgais i gysylltu â'r holl unigolion hyn. Arweiniodd hyn at 13 o gyfweiliadau.

#### *Dull Recriwtio 2: Mynediad at ymatebwyr drwy'r ysgolion lleol*

- 4.40 Dosbarthwyd taflenni yn gwahodd ymatebwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil trwy ysgolion (gweler yr Atodiadau). Anfonwyd llythyr at bennaeth 24 o ysgolion cynradd (5-7 ysgol fesul ardal leol) ynghyd â phe cyn o daflenni, â chais i'w dosbarthu i'r rhoddwyr gofal yn eu dosbarth meithrin. Dosbarthwyd tua 1200 o daflenni fel hyn. Dewiswyd yr ysgolion oedd wedi'u lleoli mewn neu yng nghyffiniau tref ganolog, a lle roedd hynny'n berthnasol, roeddent yn cynnwys ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng.
- 4.41 Cafodd rhai ymatebwyr ychwanegol eu recriwtio yn ystod y cyfweiliadau gan ddefnyddio cysylltiadau'r ymatebwyr. Mae cyfyngiadau amlwg i'r dull 'caseg eira' o gasglu data, yn yr ystyr nad yw'n sampl ar hap o'r boblogaeth, ac y gallai arwain at dueddiadau yn y sampl. Fodd bynnag, mae'n ddull effeithiol o gasglu data mewn 'poblogaethau cudd', a ddiffinnir fel rhai sydd yn anodd eu cyrraedd (Noy 2008). Yn yr achos hwn, roedd y dull samplu caseg eira yn fodd i ni gysylltu ag ymatebwyr â phlant o dan oed ysgol feithrin a'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg â'u plant. Bu'r dull o gymorth felly i ni sicrhau nad oedd y sampl yn cynnwys dim ond rhai oedd yn frwd ynghylch cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ar ôl cael taflen.

#### *Casglu Data*

- 4.42 Defnyddiwyd holiadur sgrinio wrth recriwtio cyn y sesiwn casglu data er mwyn sicrhau bod y teuluoedd (a) yn cynnwys o leiaf un rhoddwr gofal oedd yn siarad Cymraeg, (b) yn cynnwys o leiaf un plentyn 0-4 oed, ac (c) yn byw yn y pedair sir yn y ffrâm samplu.
- 4.43 Cynhaliwyd y cyfweiliadau mewn lleoliad o ddewis yr ymatebydd (canolfan leol neu yn y cartref). Roedd pob sesiwn casglu data yn para tua awr.
- 4.44 Rhoddwyd ffurflenni caniatâd i ymatebwyr ar ddechrau'r sesiwn casglu data. Roedd y ffurflen hon yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer y Prif

Ymchwilydd, amlinelliad o'r ymchwil a hefyd yn gyfle i'r ymatebydd ofyn unrhyw gwestiynau a thynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil ar unrhyw adeg.

- 4.45 Dechreuodd pob sesiwn â'r holiadur ysgrifenedig, fel bod gan y gweithiwr maes wybodaeth gefndir i'w defnyddio yn y cyfweiliadau. Dilynwyd hynny gan y cyfweiliad lled-strwythuredig.
- 4.46 Cymerwyd nodiadau gan y gweithiwr maes fel bod modd codio elfennau meintiol y cyfweiliad. Recordiwyd y cyfweiliad hefyd er mwyn medru dadansoddi'r data yn thematig.
- 4.47 Roedd y cyfweiliad yn gofyn cwestiynau ynglŷn â defnydd iaith y ddau ymatebydd â'u plant, a gadawyd holiadur ysgrifenedig i'r rhoddwr gofal nad oedd yn bresennol yn y cyfweiliad ei gwblhau a'i ddychwelyd drwy'r post. Roedd yr holiadur hwn yn cynnwys pob un o'r cwestiynau caeedig a ofynnwyd i'r ymatebydd a oedd yn bresennol yn y cyfweiliad.
- 4.48 Talwyd £35 i'r ymatebwyr am gymryd rhan yn y prosiect. Er y dangoswyd bod taliad yn dylanwadu ar a yw ymatebwyr yn cymryd rhan mewn prosiect (Singer & Kulka 2001), nid yw hynny bob amser yn wir (Graham et al. 2007). Codwyd materion moesegol hefyd ynghylch talu ymatebwyr. Mae Thompson (1996), er enghraifft, yn ystyried bod talu yn fodd i alluogi ymatebwyr o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol i gymryd rhan mewn ymchwil (ac felly leihau tueddiadau) ac yn fodd i werthfawrogi cyfraniadau ymatebwyr. Mae Head (2009, t. 343), ar y llaw arall, yn nodi 'payments to respondents could be said to degrade the idea of a common good that research contributes to, and instead transform it into another marketised exchange.' O ganlyniad, mae talu ymatebwyr yn codi cwestiynau ynghylch a all ymatebwyr gydsynio'n rhydd i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil ac a allai hynny arwain at ymatebwyr yn dweud beth maent am ei glywed wrth ymchwilydd. Yn yr achos hwn, cynigiwyd taliad i wneud iawn am amser yr ymatebwyr amser, yn y gobaith y byddai'n annog ymatebwyr na fyddent fel arfer yn cymryd rhan mewn ymchwil ynghylch y Gymraeg.

#### *Ymatebwyr i'r ymchwil*

- 4.49 Cwblhawyd cyfanswm o 60 o gyfweiliadau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016 â phrif roddwyr gofal plant rhwng 0 a 4 oed. Haenwyd y sampl terfynol



yn gyfartal yn ôl rhanbarth (gogledd-orllewin a de-ddwyrain). Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweiliadau â phrif roddwyr gofal benywaidd ( $n=51$ ).

### **Cyfyngiadau'r ymchwil**

- 4.50 Mae rhai cafeatau pwysig y dylid eu cofio wrth ddarllen canlyniadau'r gwaith ymchwil presennol. Rydym eisoes wedi nodi bod maint y sampl yn gymharol fach ar gyfer dadansoddiadau meintiol ac felly y defnyddir y data hyn i ddisgrifio'r sampl yn hytrach na gwneud datganiadau cyffredinol am y boblogaeth ehangach (gweler 4.32). Mae'n bwysig gosod ein canfyddiadau ymchwil mewn cyd-destun ehangach, ar lefel Cymru. Yn sgil hynny, cyflwynir dadansoddiad o'r data cyfrifiad cenedlaethol ynghylch trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau ym Mhennod 3 (Dadansoddiad Ystadegol o Ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol).
- 4.51 Mae'r data a gyflwynir yn y gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar hunan-adroddiadau gan ymatebwyr yn hytrach nag arsylwadau ethnograffig neu gan gyfwelwyr ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Er bod dilysrwydd data hunan-adrodd yn aml yn cael ei gwestiynu (oherwydd amheumon na fydd ymatebwyr o reidrwydd yn ateb yn wrthrychol), roeddem yn teimlo bod hon yn ffordd briodol o gasglu data o ystyried nodau'r gwaith ymchwil. Mabwysiadwyd y dull hwn oherwydd bod y cyfnod o amser y mae ei angen i gwblhau gwaith arsylwadol yn peri anhawster yng nghyd-destun prosiect ymchwil fel hwn, sydd â chyfyngiadau amser.
- 4.52 Cyfyngiad pellach ar y gwaith ymchwil cyfredol yw nad oes gennym, wrth i ni ganolbwyntio ar y data a gasglwyd gennym gan ymatebwyr sydd yn rhieni (yn hytrach na'u plant), ddarlun llawn, *in situ* o'r strategaethau a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo iaith neu ymddygiad ieithyddol y plant (e.e. trawsieithu). Gellid dadlau bod angen dadansoddiad llawn o'r agwedd hon ar drosglwyddo er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyflawn o'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod profiadau ymatebwyr o drosglwyddo yn rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom ni ofyn i ymatebwyr wneud sylwadau ynghylch sut maent yn defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a sut mae eu plentyn wedi ymateb i'r defnydd hwn.

## 5. Cymhwysio Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith

### *Cyflwyniad*


- 5.1 Mae Pennod 2 (Fframwaith Damcaniaethol) yn amlygu'r ffaith bod ffactorau unigol (e.e. yr hyn y mae rhieni'n ei gredu, hyder, hunaniaeth genedlaethol) yn ogystal â ffactorau cyd-destunol, o fewn y teulu agos (e.e. magwraeth, agweddau partneriaid) a'r ardal leol neu'r gymdeithas ehangach (e.e. cyfrwng gofal plant, normau cymdeithasol), yn debygol o fod yn ffactorau pwysig wrth drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau.
- 5.2 Mae'r llenyddiaeth hon ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau wedi datblygu ar wahân i fodolau seicolegol neu ymddygiadol. Mae'r prosiect ymchwil bresennol yn gynnig gwreiddiol i geisio dwyn ynghyd mewn modd trylwyr, y llenyddiaeth drosglwyddo a dealltwriaeth ddamcaniaethol ar sail gwyddoniaeth ymddygiadol. Rydym yn tynnu ar fodolau a chysyniadau seicolegol cymdeithasol; mae hyn yn helpu i fwrw goleuni ar sbardunau ymddygiad ymwybodol ac anymwybodol mewn cyd-destun diwylliannol-gymdeithasol penodol.

### *Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad*

- 5.3 Mae'n debyg mai'r model seicolegol cymdeithasol a ddefnyddir ehangaf yw'r Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (Theory of Planned Behaviour neu TPB; gweler Ffigur 7) sydd yn rhagdybio bod bwriad i weithredu yn cael ei ragflaenu gan y canlynol: (1) agwedd tuag at yr ymddygiad, a ddiffinnir fel gwerthusiad cyffredinol o'i ganlyniadau posibl, (2) normau goddrychol (neu gymdeithasol), sydd yn cwmpasu normau disgrifiadol (beth mae pobl eraill yn ei wneud, h.y. beth sydd yn cael ei ystyried yn 'arferol') a normau gwaharddol (injunctive norms) (beth a ddisgwylir gennym, h.y. beth sydd yn cael ei ystyried yn 'briodol'), a (3) rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad (perceived behavioural control neu PBC), a ddiffinnir fel gallu canfyddedig person i gyflawni'r ymddygiad yn sgil argaeledd cyfleoedd ac adnoddau (Ajzen 1991).
- 5.4 Gellir deall bod llawer o'r ffactorau y dangosir eu bod yn rhagfynegi trosglwyddo iaith (a adolygwyd uchod) yn dod o fewn y categorïau bras hyn o ddylanwad ymddygiadol. Er enghraifft, gellir barnu bod hyder rhieni yn eu

gallu ieithyddol ac argaeledd addysg Gymraeg yn elfennau o PBC; tra bod canfyddiadau ynghylch pa mor 'Gymraeg' yw cymuned a dylanwad partner yn debygol o fod yn rhan o'r normau cymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu bod TPB yn debygol o fod yn sail briodol ar gyfer damcaniaethu ynghylch trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau.

**Ffigur 7: Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (Ajzen 1991)**




- 5.5 Mae'r ddamcaniaeth hon wedi cael ei chymhwyso i amrywiaeth eang o ymddygiadau, a dengys meta-ddadansoddiadau fod agweddau, normau goddrychol a rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad yn rhagfynegyddion da o fwriadau (Sheeran 2002). Fodd bynnag, canfuwyd bod newidynnau eraill, megis hunaniaeth a gwerthoedd, hefyd yn rhagfynegi ymddygiad dros ben y newidynnau TPB craidd, felly cynigiwyd amrywiol estyniadau i'r TPB (e.e. Whitmarsh & O'Neill (2010)). Mae'r newidynnau ychwanegol hyn (hunaniaeth a gwerthoedd) yn debygol o fod yn berthnasol i drosglwyddo iaith, fel y trafodwn isod.
- 5.6 Er bod astudiaethau blaenorol wedi archwilio'r gyfatebiaeth rhwng agweddau at y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â throsglwyddiad a defnydd (Gathercole et al. 2007; Morris 2014), dim ond Irvine et al. (2008) sydd hyd yma wedi nodi'r potensial o safbwynt cymhwyso'r model TPB i drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau.<sup>28</sup> Hyd yn oed pan fesurwyd agweddau, gwelwyd mai perthynas wan oedd rhyngddynt ac ymddygiad: roedd yr agweddau at y Gymraeg yn gadarnhaol i raddau helaeth, ac eto roedd y cyfraddau trosglwyddo'n isel (Gathercole et al. 2007). Ymddengys, felly, nad

<sup>28</sup> Fe wnaethant awgrymu'r TPB fel fframwaith ar gyfer mesur pa mor llwyddiannus y gall cynlluniau fel TWF fod o ran trosi bwriad yn weithred (gweler Ffigur 8).

oes fawr ddim cyfatebiaeth rhwng agweddau at iaith a throsglwyddo'r iaith honno, er bod maint y sampl mewn llawer o astudiaethau wedi bod yn rhy fach i ganiatáu dadansoddiad ystadegol gadarn (gweler hefyd 5.51 am drafodaeth ar faint y sampl mewn perthynas â'r gwaith ymchwil presennol a 7 (Trafodaeth, Casgliadau ac Argymhellion) am argymhellion ar gyfer ymchwil TPB bellach).

**Ffigur 8: Cymhwyso'r Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad i Gynllun TWF**

Ffynhonnell: Irvine et al. (2008, t. 70) ar ôl Ajzen (1991)



5.7 Gall fod amryw o resymau dros y diffyg gohebiaeth agwedd-ymddygiad a awgrymwyd gan astudiaethau blaenorol ar drosglwyddo'r Gymraeg a adolygwyd uchod. Yn gyntaf, mae'r TPB yn honni mai un ffactor yn unig sydd yn rhagfynegi bwriadau o ran ymddygiad yw agweddau; mae ffactorau cymdeithasol a rheoli hefyd yn sbarduno ymddygiad. O ganlyniad, er y gall agweddau at ymddygiad penodol (e.e. trosglwyddo'r Gymraeg) fod yn gadarnhaol, os nad oes fawr ddim cefnogaeth gymdeithasol neu strwythurol ar gyfer yr ymddygiad hwnnw (e.e. nid yw magu plentyn i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn 'arferol' neu'n 'briodol', neu os nad oes llawer o gyfleoedd

i siarad Cymraeg) mae'r agwedd gadarnhaol yn annhebygol o ddod i'r amlwg ar ffurf ymddygiad cyson.

- 5.8 Yn ail, mae ymchwil ar agweddau yn dangos bod angen eu gwneud yn berthnasol os ydynt i ddylanwadu ar ymddygiad mewn sefyllfa benodol (Haddock & Maio 2012). Efallai na fydd yn ddigon bod unigolion yn credu— yn haniaethol—bod trosglwyddo'r Gymraeg yn syniad da, os na fyddant, wrth siarad â'u plentyn, yn rhoi hynny ar waith yn y sefyllfa honno, h.y. nid ydynt yn cysylltu'r ymddygiad hwnnw â'r agwedd honno.

*Arferion yn erbyn cynllunio ymddygiad*

- 5.9 Mae'r pwynt hwn yn ymwneud ag un o gyfyngiadau mawr TPB, sef ei bod yn rhagdybio bod ymddygiad yn fwriadol, h.y. wedi'i ragflaenu gan broses o bwysu a mesur rhesymegol. Fodd bynnag, mae llawer o'n hymddygiad yn dibynnu'n drwm ar arfer (h.y. mae'n anymwybodol, heb fod yn destun penderfyniad ac yn cael ei sbarduno gan y cyd-destun yn hytrach nag agwedd). Yn wir, mae meta-ddadansoddiadau o'r TPB yn dangos nad yw bwriadau ond yn rhagfynegi, ar gyfartaledd, 25% o'r amrywiadau ymddygiad (Sheeran 2002) ac mae ymchwil ar arferion yn awgrymu mai y gallai'r rhan fwyaf o'n hymddygiad, mewn gwirionedd, fod yn fater o arfer (Verplanken & Wood 2006). Dangoswyd bod arferion yn anodd eu newid gan fod arferion yn gwanhau'r sylw a roddir i wybodaeth, gan gynnwys negeseuon sydd wedi'u bwriadu i annog newid ymddygiad (Verplanken et al. 1997). Mae'r llenyddiaeth ar arferion yn cynrychioli pwynt o synergedd â'r llenyddiaeth gymdeithasol (e.e. arferion cymdeithasol) (Shove 2003) ar ymddygiad.
- 5.10 Ar y llaw arall, mae'r llenyddiaeth ar arferion hefyd yn amlygu y gall cael plentyn fod yn 'foment arwyddocaol o newid' sydd yn torri ar draws llawer o arferion, fel bod patrymau ymddygiad newydd yn dod i'r amlwg (Thompson et al. 2011). O'r safbwynt hwn, gellid disgwyl i rieni newydd adfyfyrio—efallai am y tro cyntaf—ar eu hiaith eu hunain a'i throsglwyddo, er y gallai defnydd beunyddiol o iaith fel arall fod yn fwy arferiadol. Fodd bynnag, gall i ba raddau mae defnydd o iaith yn arferiadol amrywio yn ôl cyfansoddiad ieithyddol teuluoedd. Er enghraifft, yn achos teuluoedd cymysgiaith, gall y defnydd pob dydd o iaith gael ei gynllunio'n fwy, tra gall fod yn fwy arferiadol yn achos teuluoedd un iaith. Archwilir y ddealltwriaeth o'r dulliau gwneud

penderfyniadau ar gyfer defnyddio a throsglwyddo iaith yn y prosiect cyfredol.

#### *Hunaniaeth a gwerthoedd*

- 5.11 Mae gwaith arall yn awgrymu y gall hunaniaeth a gwerthoedd fod yn bwysig ar gyfer trosglwyddo iaith. Er enghraifft, cynhaliodd Lambert (2008); Nash et al. (2012) gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru i archwilio gwerthoedd Cymreig, lle, hunaniaeth ac agweddau at faterion cynaliadwyedd. Canfuwyd bod cysylltiad cryf rhwng hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg, sydd yn awgrymu y gall ymdeimlad o hunaniaeth a hunaniaeth gymdeithasol Gymraeg fod yn ffactor wrth drosglwyddo ieithoedd lleiafrifol rhwng y cenedlaethau.
- 5.12 Yn yr un modd, gall gwerthoedd sydd yn pwysleisio traddodiad a threftadaeth ddiwylliannol fod yn berthnasol. Schwartz (1992) Mae theori gwerth yn nodi sawl clwstwr o werthoedd (h.y. egwyddorion neu safonau ymddygiad) sydd yn bodoli ar draws diwylliannau, ac mae diwylliannau'n amrywio o ran y pwyslais maent yn ei roi ar wahanol glystyrau gwerth (Schwartz 2008). Mae rhai diwylliannau—ac unigolion oddi mewn iddynt—yn rhoi mwy o bwyslais ar barch at draddodiad. Rydym yn archwilio hyn fel penderfynnydd ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg yn y dadansoddiad o'r arolwg meintiol.

#### *Mesur rhagfynegyddion ymddygiadol*

- 5.13 *Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad*. Ceir fformwleiddiadau gweddol safonol ar gyfer newidynnau TPB, sef agweddau, normau cymdeithasol a Rheolaeth Ganfyddedig o Ymddygiad (Ajzen 2013), a dyma'r rhai yr ydym yn eu mabwysiadu yn y gwaith ymchwil presennol.
- 5.14 Yn benodol, mesurir *agwedd* drwy ddefnyddio'r eitem 'Rwy'n credu bod siarad Cymraeg â'ch plentyn yn...' a graddfa ymateb seithpwynt yn amrywio o 'wael iawn' (1) i 'dda iawn' (7).
- 5.15 *Normau Cymdeithasol*, sydd yn cael eu mesur gan ddefnyddio tair eitem: 'Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn bwysig i mi yn credu... siarad Cymraeg â'm plentyn' â graddfa ymateb seithpwynt wedi ei hangori â 'dylwn' (7) ac 'na ddylwn' (1); a dwy eitem 'Lle rwy'n byw, mae'n normal i bobl siarad Cymraeg â'u plant' a 'Lle rwy'n byw, mae digon o gymorth a darpariaeth (er enghraifft,

ysgolion) ar gyfer y Gymraeg' gan ddefnyddio graddfa cytundeb seithpwynt (1= anghytuno'n gryf a 7= Cytuno'n gryf). Dylid nodi, er gwaethaf defnydd helaeth o'r tair eitem hyn i ffurfio graddfa 'normau cymdeithasol' (h.y. gan ddefnyddio cymedr y tair eitem fel newidyn cyfansawdd), na chafwyd bod y raddfa hon yn ddibynadwy iawn at ddibenion yr astudiaeth gyfredol. Yn benodol, dim ond rhywfaint o gyfatebiaeth ( $\alpha$ ) oedd rhwng eitemau (cyfwelai  $\alpha(3)=.38$ ; partner  $\alpha(3)=.44$ ), sydd yn golygu na ellir barnu bod y tair eitem o'u cyfuno yn mesur un lluniad cydlynus ('normau cymdeithasol'); yn hytrach gall pob eitem fod yn mesur cysyniad gwahanol, er bod cysylltiad rhyngddynt. Bernir bod dibynadwyedd ( $\alpha$ ) sydd dros 0.8 yn dda iawn; tra bod 0.6 a thros hynny fel arfer yn dderbyniol. Dengys lefel is o ddibynadwyedd, fel yn yr achos hwn, nad yw'r mesur yn gadarn yn y cyd-destun presennol, ac felly na fydd o reidrwydd yn canfod effeithiau normau cymdeithasol. Dengys dadansoddiad ychwanegol fod dileu'r eitem gyntaf (a fwriadwyd i fesur 'normau rhagnodol'—h.y. beth mae pobl eraill yn meddwl y *dylech* ei wneud) wedi cynyddu rhywfaint ar y dibynadwyedd (i .48), sydd yn awgrymu bod y ddwy eitem arall (sydd yn mesur 'normau disgrifiadol'—h.y. beth mae'r rhan fwyaf o bobl eraill yn *ei wneud*) yn mesur rhywbeth gwahanol i'r eitem gyntaf. Oherwydd lefel dibynadwyedd isel y mesur, cynhwyswyd y tair eitem ar wahân yn y dadansoddiad atchweliad i ragfynegi trosglwyddo.

- 5.16 Defnyddir dwy eitem i fesur *rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad*: 'I fi, mae siarad Cymraeg â'm plentyn yn...' a graddfa ymateb seithpwynt o 'anodd iawn' (1) i 'hawdd iawn' (7); a 'Faint o reolaeth sydd gyda chi dros p'un a ydych yn siarad Cymraeg â'ch plentyn?' gyda graddfa ymateb seithpwynt o 'Ychydig iawn o reolaeth' (1) i 'Llawer iawn o reolaeth' (7). Unwaith eto, oherwydd nad yw'r gyfatebiaeth rhwng y ddwy eitem yn uchel (cyfwelai  $\alpha(2)=.46$ ; partner  $\alpha(2)=.70$ ), ni ellir barnu bod y raddfa'n ddibynadwy (yn achos y cyfweleion, o leiaf). Felly, yn y dadansoddiad atchweliad yr adroddir amdano isod, rydym yn archwilio effaith yr eitemau hyn ar drosglwyddo ar wahân.
- 5.17 *Arferion*. Yn ddiweddar datblygwyd y Mynegai Awtomatigrwydd Ymddygiad Hunan-adrodd (SRBAI) (Gardner et al. 2012) yn ddull dibynadwy o fesur arferion y gellir ei deilwra i'r ymddygiad sydd o ddiddordeb. Yma, rydym yn defnyddio'r un eitem o'r raddfa: 'Mae siarad Cymraeg â'm plentyn yn

rhywbeth rwy'n ei wneud heb feddwl' a graddfa ymateb seithpwynt o 'anghytuno'n gryf' (1) i 'gytuno'n gryf' (7).

- 5.18 *Hunaniaeth*. Mesurwyd hunaniaeth mewn amrywiol ffyrdd, ond mae'r gwaith i estyn TPB â newidynnau hunaniaeth wedi defnyddio graddfeydd hunaniaeth byr (e.e. Whitmarsh & O'Neill (2010)). Ni ddatblygwyd y mesurau hunaniaeth blaenorol hyn ar gyfer ymchwil iaith, yn hytrach maent yn mesur hunaniaeth bersonol o safbwynt gofal am yr amgylchedd, felly fe'u haddaswyd ar gyfer yr astudiaeth gyfredol i fesur hunaniaeth o safbwynt iaith. Yn benodol, roedd ein graddfa hunaniaeth yn cynnwys y tair eitem a ganlyn: 'Rwy'n meddwl amdanaf fy hun fel siaradwr Cymraeg', 'Mae siarad Cymraeg yn rhan bwysig o bwy ydw i' a 'Dwi ddim y math o berson fyddai'n siarad Cymraeg', eto gan ddefnyddio graddfa cytundeb seithpwynt. Roedd y drydedd eitem hon yn cael ei sgorio o chwith (h.y. roedd 1 yn lle 7, 2 y lle 6, 3 yn lle 5 ac yn y blaen) oherwydd bod y geiriad i'r gwrthwyneb i'r eitemau eraill. Mae cynnwys eitemau sydd wedi'u geirio i'r gwrthwyneb yn tueddu i wella dibynadwyedd graddfeydd, oherwydd mae'n helpu i oresgyn tuedd orawyddus (h.y. y duedd i gytuno â gosodiadau). Dengys dadansoddiad dibynadwyedd fod cyfuno'r tair eitem i greu un raddfa (h.y. defnyddio cymedr y tair eitem â'i gilydd) i fesur 'hunaniaeth iaith' yn briodol gan fod cyfatebiaeth agos iawn rhwng yr eitemau ( $\alpha=.83$ ). Hynny yw, mae'r raddfa yn ddull cadarn o fesur hunaniaeth yn y cyd-destun hwn.
- 5.19 *Gwerthoedd*. Datblygodd Schwartz et al. (2001) sawl fersiwn o'u mesurau gwerth, a ddefnyddiwyd yn helaeth a'u dilysu ar draws diwylliannau, ond y mwyaf cryno o'r rhain yw'r Holiadur Gwerth Portread sydd yn cynnwys 11 eitem (PVQ-11), a ddefnyddir gennym yma. Lluniwyd y mesur hwn yn y trydydd person i sicrhau bod y lluniadau gwerth haniaethol yn cael eu gweithredoli mewn modd mwy diriaethol. Fe'i cyflwynir â'r testun canlynol: 'Mae'r tabl hwn yn rhoi disgrifiadau byr o rai pobl. A wnewch chi nodi, ar gyfer pob disgrifiad, p'un a yw'r person hwnnw yn debyg iawn i chi, tebyg i chi, ychydig fel chi, ddim fel chi, neu ddim fel chi o gwbl? Roedd modd ymateb ar raddfa chwepwynt yn amrywio o 'Tebyg iawn i fi' (1) i 'Ddim fel fi o gwbl' (6). Mae eitemau wedi'u teilwra i ryw yr ymatebydd. At ddibenion dadansoddi'r arolwg, rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar werth 'traddodiad'



sydd wedi'i eirio fel a ganlyn: 'Mae traddodiad yn bwysig iddo/iddi; i ddilyn yr arferion a gafodd eu trosglwyddo gan ei grefydd neu ei deulu.'

- 5.20 *Trosglwyddo iaith.* Cafodd y prif newidyn dibynnol a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ei weithredoli fel a ganlyn: 'Pa ieithoedd byddwch chi a'ch partner yn eu defnyddio â'ch plentyn ifancaf?', â graddfa ymateb o Bob amser/bron bob amser yn Gymraeg (1) i 'Bob amser/bron bob amser yn Saesneg' (5) a dewis pellach, 'iaith arall' (nas cynhwyswyd yn yr ystadegau casgliadol; dangosir canlyniadau disgrifiadol yn Tabl 10). Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr ar wahân o ran eu defnydd iaith eu hunain â'u plentyn, a defnydd eu partner â'r plentyn. Dadansoddir y cwestiynau eraill yn y cyfweiliad isod.
- 5.21 Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys amrywiol newidynnau demograffig a chefnidir, yr adroddir arnynt yn yr adran ganlynol.

### **Dadansoddiad Ystadegol o Holiaduron Ymatebwyr a Phartneriaid**

*Manylion y sampl: rhanbarth a demograffeg*

- 5.22 Cwblhawyd cyfanswm o 60 o gyfweiliadau mewn pedwar rhanbarth: dau ranbarth yn y gogledd-orllewin (Gwynedd ac Ynys Môn), a dau yn y de-ddwyrain (Caerffili a Rhondda Cynon Taf).
- 5.23 Roedd mwyafrif (85%) yr ymatebwyr yn famau. Ychydig dros hanner ( $n=32$ ; 53%) y partneriaid lanwodd holiaduron a'u dychwelyd, ac roedd pawb o'r rheiny ond un yn wrywod. Roedd oedran yr ymatebydd yn amrywio o 20 i 45, ac oedran y partner o 27 i 55.
- 5.24 Roedd lefel cymwysterau'r ymatebwyr yn weddol uchel, gan fod gradd gan bron hanner (47%) ohonynt (gweler Tabl 5), tra bod tuedd i'r partneriaid feddu ar gymwysterau mwy proffesiynol. Roedd amrywiaeth o broffesiynau, ond roedd mwy mewn rolau rheoli is neu rolau canolradd (gweler Tabl 6).

**Tabl 5: Cymwysterau ymatebwyr a phartneriaid**

<b>Cymhwyster Uchaf</b>	<b>Ymatebydd (%)</b>	<b>Partner (%)</b>
1-4 TGAU neu gyfwerth	3	8
NVQ lefel 1 neu gyfwerth	0	3
5+ TGAU gradd A-C neu gyfwerth	18	0
NVQ lefel 2 neu gyfwerth	3	3
Prentisiaeth	0	3
2+ Safon Uwch neu gyfwerth	22	22
Gradd neu gyfwerth	47	25
NVQ Lefel 4-5	3	7
Cymwysterau proffesiynol	0	11
Cymwysterau galwedigaethol eraill	2	18
Dim cymwysterau	2	0

**Tabl 6: Galwedigaethau ymatebwyr a phartneriaid**

<b>Galwedigaeth (categoriâu NS-SEC)</b>	<b>Ymatebydd (%)</b>	<b>Partner (%)</b>
Uwch reolwyr a gweithwyr proffesiynol galwedigaethau	9	7
Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is	43	42
Galwedigaethau canolraddol (clercol, gwerthu, gwasanaeth)	31	14
Cyflogwyr bach a gweithwyr â'u cyfrifon eu hunain	2	7
Galwedigaethau goruchwyllo a thechnegol is	0	16
Galwedigaethau lled-gyffredin	13	5
Galwedigaethau cyffredin	2	9
Erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith ers cyfnod hir	0	0

- 5.25 Roedd gan y rhieni rhwng 1 a 4 o blant, â chymedr (M) o 1.75. O'r rhain, roedd gan 6 naill ai un neu ddau lys-blentyn (M=1.33). Roedd oedran y plentyn ieuengaf yn amrywio o 2 ddiwrnod i 5 mlwydd oed, â chymedr o 2.64 flwydd. Roedd oed y plant hŷn yn amrywio o 2 i 22, â chymedr o 7.53.
- 5.26 O ran hunaniaeth genedlaethol, roedd mwy o ymatebwyr yn nodi eu bod yn Gymry (86.7%) nag yn Saeson (1.7%) neu'n Brydeinwyr (11.7%). Yn yr un modd, roedd mwyafrif yartneriaid yn nodi eu bod yn Gymry (78.6%), tra bod 7.1% yn nodi eu bod yn Saeson a 10.7% yn Brydeinwyr.

*Manylion y sampl: Cefndir iaith a gallu*

5.27 Fel y dangoswyd yn Tabl 7, mae'r rhan fwyaf o ryngweithio â phobl eraill wrth dyfu i fyny ac yn awr, yn achos ymatebwyr a phartneriaid, agosaf at y pwynt canol ar y raddfa 5 pwynt (3='defnydd gweddol gyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg'). Ymddengys bod yr ymatebwyr rywfaint yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg na'u partneriaid, fodd bynnag.

**Tabl 7: Defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn awr ac yn y gorffennol** (1=Cymraeg bob amser i 5=Saesneg bob amser. Dangosir cyfatebiaeth arwyddocaol rhwng ymatebydd a phartner mewn llythrennau italig).

Rhyngweithio	Ymatebydd Cymedr	Gwyr iad Safo nol (SD)	Partner Cymedr	Gwyr iad Safo nol (SD)	Cyfate biaeth	Sig.
Tyfu i fyny:						
<b>Eich Mam â chi</b>	3.13	1.89	2.70	1.95	0.03	0.90
<b>Chi â'ch Mam</b>	3.13	1.89	2.65	1.93	0.06	0.82
<b>Eich Tad â chi</b>	3.26	1.90	2.35	1.90	0.08	0.75
<b>Chi â'ch tad</b>	3.22	1.90	2.35	1.90	0.08	0.75
<b>Eich brodyr a'ch chwiorydd â chi</b>	3.14	1.81	2.21	1.84	-0.27	0.27
<b>Chi â'ch brodyr a'ch chwiorydd</b>	3.14	1.81	2.21	1.84	-0.27	0.27
Cymedr cyffredinol	<b>3.11</b>	<b>1.81</b>	<b>2.32</b>	<b>1.82</b>	<b>-0.34</b>	<b>0.18</b>
nawr:						
<b><i>Partner</i></b>	<i>3.89</i>	<i>1.63</i>	<i>2.48</i>	<i>1.78</i>	<i>0.81</i>	<i>0.00</i>
<b><i>Mam</i></b>	<i>3.38</i>	<i>1.89</i>	<i>2.85</i>	<i>1.93</i>	<i>-0.23</i>	<i>0.43</i>
<b><i>Tad</i></b>	<i>3.48</i>	<i>1.90</i>	<i>2.85</i>	<i>2.25</i>	<i>0.26</i>	<i>0.38</i>
<b><i>Brodyr a chwiorydd</i></b>	<i>3.63</i>	<i>1.85</i>	<i>2.57</i>	<i>2.04</i>	<i>-0.10</i>	<i>0.75</i>
<b><i>Gwaith gyda chwsmeriaid</i></b>	<i>3.63</i>	<i>1.90</i>	<i>3.14</i>	<i>1.46</i>	<i>-0.28</i>	<i>0.33</i>
<b><i>Gwaith</i></b>	<i>3.63</i>	<i>1.94</i>	<i>2.71</i>	<i>1.68</i>	<i>-0.20</i>	<i>0.50</i>
<b><i>Ffrindiau</i></b>	<i>3.56</i>	<i>1.36</i>	<i>2.38</i>	<i>1.69</i>	<i>0.23</i>	<i>0.44</i>
<b><i>Cymdogion</i></b>	<i>3.80</i>	<i>1.38</i>	<i>2.67</i>	<i>1.65</i>	<i>0.90</i>	<i>0.00</i>
<b><i>Cydnabod</i></b>	<i>3.85</i>	<i>1.51</i>	<i>2.71</i>	<i>1.59</i>	<i>0.82</i>	<i>0.00</i>
<b><i>Siopa</i></b>	<i>3.71</i>	<i>1.42</i>	<i>3.24</i>	<i>1.18</i>	<i>0.68</i>	<i>0.01</i>

5.28 O ddadansoddi'r gyfatebiaeth, gwelir nad oes perthynas rhwng profiadau'r ymatebwyr a'r partneriaid o ddefnyddio'r Gymraeg wrth dyfu i fyny; fodd bynnag, maent yn fwy tebyg o ran eu defnydd cyfredol o'r Gymraeg, gan fod cyfatebiaeth sylweddol yn eu dewis o iaith â'u partner, cymdogion, cydnabod

ac wrth siopa. Mae'n ddi-ddorol nodi, fodd bynnag, bod ymatebwyr yn adrodd am lefel uwch o ddefnydd o'r Saesneg â'u partner nag a nodwyd gan eu partner â hwy, sydd o bosibl yn awgrymu safbwynt gwahanol ar yr un rhyngweithio, neu ryw effaith o ran cyfrwng casglu'r data (a drafodir isod).

- 5.29 Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu gallu a'u rhuglder yn y Gymraeg. Dengys Tabl 8 fod mwyafrif yr ymatebwyr a'r partneriaid yn gallu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Roedd lefel y gallu yn y Gymraeg ychydig yn is ymysg y partneriaid na'r ymatebwyr. Yn gyson â hyn, pan ofynnwyd iddynt nodi eu rhuglder yn y Gymraeg ar raddfa 5 pwynt (1=yn rhugl yn y Gymraeg, 5=ddim yn siarad Cymraeg), cafodd yr ymatebwyr sgôr cymedrig o 1.37 (SD=0.69) a'r partneriaid sgôr cymedrig o 2.09 (SD=1.47).
- 5.30 Pan ofynnwyd pa iaith/ieithoedd roeddent yn teimlo fwyaf cyfforddus yn eu siarad, serch hynny, dewisodd mwy o ymatebwyr Saesneg (65%) na Chymraeg (25%) neu'r ddau (10%); tra dewisodd cyfran ychydig yn uwch o bartneriaid y Gymraeg (39%) na'r Saesneg (35%) neu'r ddau (22%).

**Tabl 8: Gallu rhieni ymatebwyr a phartneriaid i siarad Cymraeg**

	Ymatebydd (%)*	Partner (%)*
Deall Cymraeg llafar	18	13
Siarad Cymraeg	15	6
Darllen Cymraeg	12	3
Ysgrifennu Cymraeg	8	0
Deall, siarad, darllen ac ysgrifennu	75	47
Dim un o'r uchod	0	25

(DS: Mae cyfanswm y colofnau'n fwy na 100% gan fod pob cwestiwn gallu wedi cael ei ofyn ar wahân)

- 5.31 Wrth ddehongli'r gwahaniaethau rhwng ymatebwyr a phartneriaid, mae angen i ni ystyried y gwahanol gyfryngau a ddefnyddiwyd i gasglu data ar gyfer pob ymatebydd a allai egluro'r gwahaniaethau hyn (yn rhannol o leiaf), yn ogystal â rhoi awgrym o wahaniaethau rhyw o bosibl. Efallai na fydd holiaduron hunan-lenwi (h.y. data partneriaid) yn canfod y duedd o ran dymunoldeb cymdeithasol (h.y. cydymffurfio â'r hyn a ddisgwylir neu gyflwyno'r hunan mewn goleuni ffafriol) neu effeithiau cynliwio (h.y. dylanwad anymwybodol) fel mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb (weithiau trwy gyfrwng y Gymraeg). Mewn geiriau eraill, mae'n bosibl bod cael eu cyfweld am siarad Cymraeg (rhywbeth yr oedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol yn ei

gylch), yn aml yn y Gymraeg, wedi arwain y cyfweleion i adrodd am lefel uwch o ddefnydd o'r Gymraeg na'r partneriaid, a lenwodd yr holiadur heb i'r cyfwelydd fod yn bresennol. Fodd bynnag, byddai'r tueddiadau posibl hyn yn arwain at y gwrthwyneb i'r hyn ganfuwyd gennym, sef bod yr ymatebwyr yn adrodd am ddefnydd uwch o'r Saesneg â'u partner nag a wnaeth eu partner â hwy. O ganlyniad, efallai nad cyfryngau casglu'r data sydd yn gyfrifol am y gwahaniaethau a welwyd. Un posibilrwydd arall yw bod y gwahaniaethau oherwydd rhyw (gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn famau). Posibilrwydd arall yw bod mwy o gyfle i gyfweleion adfyfrio'n fanwl ar eu defnydd o iaith yn y cyfweiliad. Rydym yn archwilio rôl y rhywiau o ran trosglwyddo rhwng y cenedlaethau drwy gynnwys hynny yn y dadansoddiad atchweliad diweddarach (gweler Tabl 13).

- 5.32 Roedd yr ymatebwyr wedi dysgu eu Cymraeg yn bennaf gan eu rhieni eu hunain yn y cartref, er bod llawer o ymatebwyr hefyd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol (Tabl 9).

**Tabl 9: Ffynhonnell addysg Gymraeg rhieni**

	Ymatebydd (%)	Partner (%)
Yn y cartref, fel plentyn ifanc	47	38
Yn y feithrinfa (3-4 oed)	32	0
Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed)	35	3
Yn yr ysgol uwchradd (11+ oed)	23	6
Yn y coleg neu'r brifysgol (llawn amser)	2	0
Yn rhywle arall, gan gynnwys cwrs Cymraeg i Oedolion	3	3
<b>Pob un o'r uchod</b>	5	25

#### *Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau*

- 5.33 Pan ddaw'n fater o siarad Cymraeg â'u plentyn ieuengaf (gweler Tabl 10), mae cyfran fwyaf yr ymatebwyr (38%) yn dweud eu bod bob amser neu bron bob amser yn siarad Cymraeg, a dim ond 15% sydd yn datgan eu bod bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Saesneg. Fodd bynnag, mae'r ymatebwyr hyn yn adrodd bod eu partneriaid yn siarad Cymraeg yn llai aml â'u plant ieuengaf: adroddwyd bod 36% bob amser yn siarad Saesneg, o gymharu â 29% sydd yn siarad Cymraeg bob amser. Serch hynny, mae cyfatebiaeth sylweddol, gadarnhaol rhwng y graddau hyn (Tabl 10). *(Sylwer bod cwestiwn tebyg wedi cael ei ofyn yn ystod y cyfweiliad ynghylch defnydd*

*o iaith â'r plentyn ieuengaf, ac yma nododd mwyafrif (53%) ddefnydd cymysg o iaith, o gymharu ag 18% i'r Saesneg a 28% i'r Gymraeg. Mae'r mesur olaf hwn yn llai manwl (h.y. llai o gategoriâu ymateb) na'r un blaenorol, felly yr un blaenorol (a welir yn Tabl 10) yw'r mesur a ddefnyddir yn yr ystadegau casgliadol uchod.*


- 5.34 Dengys dadansoddiad o'r cwestiwn hwn (h.y. amllder siarad Saesneg/Cymraeg â'r plentyn ieuengaf; Tabl 10) yn ôl rhanbarth wahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau gogledd-orllewinol a de-ddwyreiniol yr astudiaeth (gweler Ffigur 9). Er y dylid cofio na ellir ymestyn canlyniadau'r astudiaeth hon yn benodol, mae'r Saesneg yn cael ei throsglwyddo'n fwy cyffredin yn Rhondda Cynon Taf a Chaerffili (y de-ddwyrain), tra bod y Gymraeg yn fwy cyffredin yn Ynys Môn a Gwynedd. Dengys y Dadansoddiad Amrywiant (ANOVA), sydd yn dadansoddi gwahaniaethau rhwng sawl cymedr, fod y gwahaniaethau rhanbarthol hyn yn arwyddocaol yn achos yr ymatebydd ( $F(1,3)=6.53, p=.001$ ) a hefyd eu partner ( $F(1,3)=13.11, p<.001$ ). Dengys y dadansoddiad ôl-hoc, sydd yn nodi ble gwelir gwahaniaethau o ran y cymedr, nad oes gwahaniaethau sylweddol rhwng Rhondda Cynon Taf a Chaerffili na rhwng Ynys Môn a Gwynedd; ond bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau ranbarth gogleddol a'r ddau ranbarth deheuol.

**Tabl 10: Defnydd o'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf (fel yr adroddwyd gan yr Ymatebydd)**

	Ymatebydd (%)	Partner (%)	Cyfatebiaeth (sig.)
Bob amser/bron bob amser yn Gymraeg [1]	38	29	
Cymraeg yn bennaf [2]	3	3	
Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal [3]	23	7	
Saesneg yn bennaf [4]	20	21	
Bob amser/bron bob amser yn Saesneg [5]	15	36	
Iaith arall [6]	0	1	
Cymedr	<b>2.7</b>	<b>3.38</b>	<b>.61 (.001)</b>

## Ffigur 9: Defnydd o'r Saesneg neu'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf, yn ôl rhanbarth

(graddfa ymateb fel yn achos Tabl 10, gan ddileu'r 'iaith arall')



5.35 Dengys dadansoddiad o'r gyfatebiaeth hefyd berthynas arwyddocaol a chryf rhwng cefndir iaith (h.y. defnydd o'r Gymraeg wrth dyfu i fyny; Tabl 7) a defnydd cyfredol o'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf (Tabl 10). Yn benodol, mae'r gyfatebiaeth rhwng cefndir iaith a throsglwyddo presennol ar gyfer ymatebwyr yn 0.70 ( $p < .001$ ) ac yn .76 ( $p < .001$ ) ar gyfer partneriaid. Gan y byddai cyfatebiaeth o 1 yn golygu cydberthynas absoliwt (h.y. mae pawb sydd yn siarad Cymraeg wrth dyfu i fyny yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plentyn), mae cyfatebiaeth sydd yn 0.7 o leiaf yn berthynas gref, sydd yn amlygu hyn fel rhagfynegydd pwysig ar gyfer trosglwyddo.

5.36 Yn unol ag amlygrwydd trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau, adroddodd pawb ond tri o'r ymatebwyr (h.y. 95%) eu bod yn bwriadu anfon eu plentyn ieuengaf i ysgol Gymraeg. Mae'r tri a ddywedodd eu bod yn bwriadu anfon eu plentyn i ysgol Saesneg i gyd yn byw yn yr un ardal yn Rhondda Cynon Taf.

5.37 O gael eu holi ynghylch y graddau y mae'r penderfyniad i siarad Cymraeg â'u plentyn iau yn awtomatig, ymatebodd 68.3% 'rwy'n defnyddio pa iaith bynnag sydd yn teimlo'n fwy priodol ar y pryd', o'u cymharu â 23.3% a nododd 'rwy wedi dewis mynd ati'n fwriadol i ddefnyddio iaith benodol â'm plentyn ac yn ceisio cadw at yr iaith honno.' Yn achos partneriaid, roedd

rhaniad mwy cyfartal yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, â 41% yn dewis y naill opsiwn a'r llall.

*Newidynnau seicolegol*

- 5.38 Dengys Tabl 11 ymatebion yr ymatebydd a'r partner i'r cwestiynau agwedd, hunaniaeth, norm, rheolaeth, arfer a gwerth (y newidynnau 'seicolegol'). Mae hyn yn dangos barn gyffredinol gadarnhaol am siarad Cymraeg â'u plentyn. Ceir hefyd gyfatebiaeth agos yn ymatebion yr ymatebydd a'r rhiant partner ar y mater hwn ac yn eu set gwerth ehangach. Yn benodol, ceir cyfatebiaeth arwyddocaol yn yr ymatebion gan ymatebwyr a phartneriaid o ran mesurau normau cymdeithasol, rheolaeth, hunaniaeth, arferion a gwerthoedd hunan-gyfeiriedig (e.e. hedoniaeth).



**Tabl 11: Ymatebion ymatebydd a phartner i'r newidynnau seicolegol**

Roedd y cwestiwn hwn yn defnyddio graddfeydd ymateb 7 pwynt. Oni ddangosir fel arall, 1=anghytuno'n gryf a 7=cytuno'n gryf.

	Cymedr yr Ymatebwr	Gwriad Safonol (SD)	Cymedr y Partneriaid	Gwriad Safonol (SD)	Cyfatebi aeth	Sig.
Agwedd: Rwy'n credu bod siarad Cymraeg â'ch plentyn yn wael iawn (1)/dda iawn (7)	6.78	0.64	6.78	0.58	.07	.73
Norm1: Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n bwysig i mi yn credu...y dylwn (7)/na ddylwn (1) siarad Cymraeg â'm plentyn	6.50	0.79	6.37	1.21	.01	.97
Norm2: Lle rwy'n byw, mae'n normal i bobl siarad Cymraeg â'u plant	4.78	2.20	5.63	1.96	<b>.54</b>	<b>.00</b>
Norm3: Lle rwy'n byw, mae digon o gymorth a darpariaeth (er enghraifft, ysgolion) ar gyfer y Gymraeg	5.69	1.64	6.08	1.23	<b>.46</b>	<b>.02</b>
PBC1: Faint o reolaeth sydd gyda chi dros p'un a ydych yn siarad Cymraeg â'ch plentyn Ychydig iawn o reolaeth=1/Llawer iawn o reolaeth=7	6.33	1.32	6.08	2.04	-.09	.67
PBC2: I fi, mae siarad Cymraeg â'm plentyn yn...anodd iawn (1)/hawdd iawn (7)	5.98	1.48	5.33	2.32	<b>.45</b>	<b>.03</b>
Identity1: Rwy'n meddwl amdanaf fy hun fel siaradwr Cymraeg	5.93	1.79	4.96	2.60	.08	.70
Identity2: Mae siarad Cymraeg yn rhan bwysig o bwy ydw i	5.83	1.66	5.29	2.39	<b>.50</b>	<b>.01</b>
Identity3: Dwi ddim y math o berson fyddai'n siarad Cymraeg	1.57	1.08	2.04	1.83	.31	.14
Habit1: Mae siarad Cymraeg â'm plentyn yn rhywbeth rwy'n ei wneud heb feddwl	5.52	1.95	5.21	2.52	<b>.49</b>	<b>.01</b>
<b>Gwerthoedd (1=tebyg iawn i fi; 6=ddim fel fi o gwbl):</b>						
<b>V-SD: Creadigrwydd</b>	2.17	0.99	2.22	1.22	.13	.53
<b>V-PO: Cyfoeth</b>	4.87	0.85	4.19	1.47	.35	.07
<b>V-SE: Diogelwch</b>	1.92	1.03	2.48	1.22	.14	.49
<b>V-H: Hedoniaeth</b>	3.70	1.09	3.89	1.55	<b>.58</b>	<b>.00</b>
<b>V-B: Caredigrwydd (cymdeithas)</b>	2.32	0.97	2.67	1.14	.17	.40
<b>V-B: Caredigrwydd (lleol)</b>	2.05	0.89	2.48	1.09	.17	.40
<b>V-A: Cyflawniad</b>	3.40	1.32	3.19	1.50	<b>.38</b>	<b>.05</b>
<b>V-ST: Symbyliad/risgiau</b>	3.56	1.59	3.44	1.48	-.05	.81
<b>V-CO: Cydymffurfio</b>	2.53	1.31	2.74	1.66	.10	.62
<b>V-UN: Natur</b>	2.15	1.08	2.41	1.25	.19	.35
<b>V-TR: Traddodiad</b>	2.73	1.40	3.15	1.22	-.04	.86

*Rhagfynegyddion Trosglwyddo Rhwng y Cenedlaethau*

- 5.39 Drwy ddefnyddio'r newidynnau trosglwyddo rhwng y cenedlaethau a ddangoswyd yn gynharach yn Tabl 10, gallwn archwilio dylanwad y cefndir a'r newidynnau seicolegol yr adroddwyd arnynt uchod ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau. Sylwer bod y sampl yn fach iawn ( $n=60$ ) yn achos yr ymatebwyr a hyd yn oed yn llai ( $n=32$ ) yn achos y partneriaid. Mae hyn yn cyfyngu ar y dadansoddiad y gellir ei wneud i archwilio perthnasoedd yn y set ddata hon gan fod angen samplau mwy i ganfod effeithiau llai. Petai gennym ni sampl mwy o faint (rhai cannoedd o ymatebwyr), byddai gennym ni fwy o hyder yn ein canfyddiadau, a byddem yn gallu canfod yr ystod lawn o effeithiau ein newidynnau. Serch hynny, nid yw'n ddigynsail cynnal dadansoddiad atchweliad ar samplau o lai na 100 o ymatebwyr, ond ni fydd gwneud hynny o reidrwydd yn datgelu'r holl berthnasoedd arwyddocaol. Felly dylid gweld ein dadansoddiad fel arwydd o ddefnyddioldeb newidynnau seicolegol a chymdeithasol wrth ragfynegi trosglwyddo, y gallai ymchwil bellach â sampl mwy adeiladu arnynt.
- 5.40 Ar sail ein hadolygiad o'r llenyddiaeth, roeddem yn disgwyl y byddai newidynnau'r Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) (agwedd, norm cymdeithasol a rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad) ynghyd â hunaniaeth ac arfer o ran y Gymraeg yn rhagfynegi trosglwyddo. Rhagwelwyd hefyd y byddai gosod gwerth ar draddodiad yn rhagfynegydd cadarnhaol ar gyfer trosglwyddo, ac y byddai rhai ffactorau cefndir a chyd-destunol yn bwysig, megis hunaniaeth genedlaethol, gallu o ran y Gymraeg, teimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg, cefndir ieithyddol, rhanbarth ac addysg. Felly cynhaliwyd dadansoddiad atchweliad, sydd yn caniatáu i ni archwilio effeithiau sawl newidyn rhagfynegi ar yr un pryd ar y 'newidyn dibynnol' y mae gennym ddiddordeb yn ei ragfynegi (yma, trosglwyddo), i archwilio'r rhagfynegyddion hyn ar gyfer yr ymatebydd, lle roedd maint y sampl yn ddigonol i ganfod o leiaf yr effeithiau mwy.
- 5.41 Yn gyntaf, cynhaliwyd dadansoddiad atchweliad i archwilio effeithiau'r newidynnau seicolegol yn unig wrth ragweld trosglwyddo rhwng y cenedlaethau gan ddefnyddio amllder siarad Cymraeg â'r plant ieuengaf (Tabl 10) gan yr ymatebydd fel newidyn dibynnol. Dangosir y canlyniadau yn Tabl 11. Dengys y canlyniadau nad yw'r un o'r newidynnau seicolegol—

hynny yw, agwedd, normau cymdeithasol, rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad, hunaniaeth, arfer a gwerthoedd traddodiad—yn dylanwadu'n sylweddol ar drosglwyddo'r iaith rhwng y cenedlaethau o gymryd gwerth safonol o 0.05 i  $p$  (h.y. y tebygolrwydd o 95% bod hon yn effaith 'wirioneddol' yn hytrach na gwall samplu ar hap). Fodd bynnag, o gymryd gwerth  $p$  fel 0.1, sydd yn llai gochelgar, gwelwn fod arfer a hunaniaeth o ran y Gymraeg yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo. Hynny yw, mae ymatebwyr sydd yn dweud bod siarad Cymraeg â'u plentyn yn rhywbeth maent yn ei wneud heb feddwl a bod siarad Cymraeg yn rhan o bwy ydynt, yn fwy tebygol o siarad Cymraeg â'u plant. Fodd bynnag, ni chafodd agwedd, norm cymdeithasol, rheolaeth ganfyddedig o ymddygiad a gwerthoedd effaith o gwbl ar drosglwyddo. Esbonnir cyfanswm o 58% o'r amrywiadau trosglwyddo gan y model hwn (h.y. *nid* eglurir 42% o drosglwyddo iaith gan y ffactorau seicolegol hyn).

- 5.42 Mae dadansoddiad ychwanegol yn cadarnhau nad oes cyfatebiaeth arwyddocaol ( $r = .13$ ,  $p = .32$ ), rhwng yr agwedd at siarad Cymraeg â'u plant ac ymddygiad (h.y. trosglwyddo rhwng y cenedlaethau), ac mae hynny'n gyson â gwaith ymchwil blaenorol sydd yn awgrymu nad oes fawr o berthynas rhwng agwedd ac ymddygiad yn y cyd-destun hwn.

**Tabl 12: Rhagfynegyddion seicolegol trosglwyddo'r Gymraeg i'r plentyn ieuengaf fesul ymatebydd**

Atchweliad fesul cam; sylwer bod y Newidyn Dibynnol (DV) wedi'i godio fel a ganlyn: 1=bob amser yn siarad Cymraeg i 5=bob amser yn siarad Saesneg. Dangosir y newidynnau ystadegol arwyddocaol mewn print bras. Gweler Tabl 12 am eiriad newidynnau annibynnol.

	B	Gwall Safonol	Beta	t	Sig.
(Cyson)	10.31	2.26		4.57	
Agwedd	-0.05	0.25	-0.02	-0.20	0.84
Norm cymdeithasol 1 (rhagnodol)	-0.29	0.19	-0.15	-1.51	0.14
Norm cymdeithasol 2 (disgrifiadol1)	-0.11	0.07	-0.16	-1.48	0.15
Norm cymdeithasol 3 (disgrifiadol2)	-0.08	0.10	-0.09	-0.83	0.41
PBC1 (rheolaeth)	-0.10	0.13	-0.09	-0.82	0.42
PBC2 (anhawster)	0.01	0.14	0.01	0.05	0.96
<b>Hunaniaeth o ran y Gymraeg</b>	<b>-0.31</b>	<b>0.18</b>	<b>-0.27</b>	<b>-1.74</b>	<b>0.09</b>
<b>Arfer o ran y Gymraeg</b>	<b>-0.28</b>	<b>0.14</b>	<b>-0.36</b>	<b>-1.97</b>	<b>0.06</b>
Gwerthoedd traddodiad	-0.14	0.12	-0.12	-1.12	0.27

- 5.43 Yna cynhaliwyd dadansoddiad atchweliad pellach i archwilio effaith y newidynnau cefndir ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau. Dengys Tabl 13 y canlyniadau o ddadansoddiad atchweliad fesul cam (stepwise regression) (sydd yn caniatáu i ni ychwanegu grwpiau o newidynnau at y dadansoddiad un cam [neu 'fodel'] ar y tro, i weld faint o ddylanwad sydd ganddynt). Mae'r model cyntaf yn cynnwys ffactorau demograffig ac yn esbonio 22% o'r amrywiadau trosglwyddo. Mae hyn yn dangos mai'r unig newidyn demograffig sydd yn rhagfynegi trosglwyddo yw **rhyw** yr ymatebydd: mae mamau yn fwy tebygol na'r tadau o siarad Cymraeg â'u plentyn ieuengaf (sydd yn gyson â'r dadansoddiad cynharach). Nid yw oedran, addysg, dosbarth cymdeithasol (SEC) a hunaniaeth genedlaethol yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo.
- 5.44 Roedd yr ail fodel yn cynnwys ffactorau demograffig, cefndir ieithyddol a rhanbarth, ac yn egluro 63% o'r amrywiadau trosglwyddo (h.y. roedd ychwanegu cefndir iaith a rhanbarth yn egluro 41% yn fwy o'r amrywiadau na'r ddemograffeg yn unig). Cafwyd bod **cefndir iaith a rhanbarth** yn rhagfynegyddion cryf, arwyddocaol: roedd ymatebwyr oedd wedi siarad mwy o Gymraeg wrth dyfu i fyny a'r rhai oedd yn byw yng ngogledd-orllewin Cymru yn fwy tebygol o siarad Cymraeg â'u plentyn eu hunain. Yna ychwanegwyd gallu o ran y Gymraeg a theimlo'n fwyaf cyfforddus yn siarad Cymraeg—ond nid oedd y naill na'r llall yn rhagfynegyddion trosglwyddo arwyddocaol.
- 5.45 Roedd y pedwerydd model, yr un olaf, yn cynnwys y newidynnau seicolegol, ynghyd â'r newidynnau a gynhwyswyd yn yr holl fodelau blaenorol. Roedd y 'model llawn' yn esbonio 88% o'r amrywiadau trosglwyddo, sydd yn awgrymu bod mwyafrif y sbardunau trosglwyddo allweddol wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, nid oes dim newidynnau yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar lefel tebygolrwydd ( $p$ ) o 0.05. Mae rhywfaint o arwyddocâd (h.y. ar lefel  $p$  o 0.1) i ranbarth, addysg ac oed, sydd yn dangos bod y rhai sydd yn byw yng ngogledd-orllewin Cymru, ac sydd wedi cael addysg uwch ac sydd yn hŷn, yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plentyn. Yn gyffredinol, y dylanwad cryfaf (h.y. gwerth 'Beta') ar y newidyn dibynnol (trosglwyddo) yw rhanbarth.

**Tabl 13: Rhagfynegyddion trosglwyddo'r Gymraeg i'r plentyn ieuengaf fesul ymatebydd**

Atchweliad fesul cam; sylwer bod y Newidyn Dibynnol (DV) wedi'i godio fel a ganlyn: 1=bob amser yn siarad Cymraeg i 5=bob amser yn siarad Saesneg. Dangosir y newidynnau ystadegol arwyddocaol mewn print bras. Gweler Tabl 11 am eiriad y newidynnau seicolegol.

Model (newid R <sup>2</sup> )		B	Gwall Safonol	Beta	t	Sig.
1	(Cyson)	5.67	2.46		2.30	0.03
0.22	<b>Rhyw</b>	<b>-1.84</b>	<b>0.88</b>	<b>-0.37</b>	<b>-2.08</b>	<b>0.05</b>
	Oedran	-0.02	0.05	-0.07	-0.40	0.70
	Addysg	-0.07	0.16	-0.08	-0.42	0.68
	Graddfa gymdeithasol	0.13	0.15	0.15	0.88	0.39
	Hunaniaeth genedlaethol (Cymreig)	-1.01	0.87	-0.20	-1.16	0.26
2	(Cyson)	4.22	2.34		1.80	0.08
0.63***	<b>Rhyw</b>	<b>-0.29</b>	<b>0.70</b>	<b>-0.06</b>	<b>-0.42</b>	<b>0.68</b>
	Oedran	-0.06	0.04	-0.19	-1.31	0.20
	Addysg	0.03	0.12	0.03	0.27	0.79
	Graddfa gymdeithasol	0.08	0.11	0.10	0.77	0.45
	Hunaniaeth genedlaethol (Cymreig)	-0.21	0.68	-0.04	-0.31	0.76
	<b>Cefndir iaith</b>	<b>0.38</b>	<b>0.14</b>	<b>0.42</b>	<b>2.79</b>	<b>0.01</b>
	<b>Rhanbarth (Gogledd Orllewin=1)</b>	<b>-1.82</b>	<b>0.47</b>	<b>-0.57</b>	<b>-3.90</b>	<b>0.00</b>
3	(Cyson)	4.50	2.50		1.80	0.08
0.66	<b>Rhyw</b>	<b>-0.36</b>	<b>0.71</b>	<b>-0.07</b>	<b>-0.51</b>	<b>0.62</b>
	Oedran	-0.05	0.05	-0.15	-1.01	0.32
	Addysg	-0.01	0.12	-0.01	-0.05	0.96
	Graddfa gymdeithasol	0.05	0.11	0.06	0.47	0.64
	Hunaniaeth genedlaethol (Cymreig)	-0.44	0.70	-0.09	-0.63	0.54
	Cefndir iaith	0.17	0.20	0.19	0.82	0.42
	<b>Rhanbarth (Gogledd Orllewin=1)</b>	<b>-1.42</b>	<b>0.54</b>	<b>-0.44</b>	<b>-2.61</b>	<b>0.02</b>
	Mwyaf cartrefol yn siarad Cymraeg	-0.77	0.70	-0.23	-1.10	0.28
	Gallu o ran y Gymraeg	0.44	0.41	0.16	1.07	0.30
4	(Cyson)	12.56	5.88		2.14	0.05
0.88*	<b>Rhyw</b>	<b>-0.59</b>	<b>1.04</b>	<b>-0.12</b>	<b>-0.57</b>	<b>0.58</b>
	<b>Oedran</b>	<b>-0.08</b>	<b>0.05</b>	<b>-0.27</b>	<b>-1.79</b>	<b>0.09</b>
	<b>Addysg</b>	<b>-0.22</b>	<b>0.12</b>	<b>-0.24</b>	<b>-1.86</b>	<b>0.08</b>
	Graddfa gymdeithasol	0.04	0.13	0.04	0.29	0.78
	Hunaniaeth genedlaethol (Cymreig)	-0.79	0.60	-0.16	-1.31	0.21
	Cefndir iaith	0.03	0.18	0.03	0.15	0.89
	<b>Rhanbarth (Gogledd Orllewin=1)</b>	<b>-1.94</b>	<b>0.98</b>	<b>-0.61</b>	<b>-1.98</b>	<b>0.07</b>
	Mwyaf cartrefol yn siarad Cymraeg	-0.10	0.63	-0.03	-0.16	0.88
	Gallu o ran y Gymraeg	-0.14	0.46	-0.05	-0.30	0.77
	Agwedd	-0.03	0.57	-0.01	-0.05	0.97
	Norm cymdeithasol 1 (norm rhagnodol)	0.01	0.32	0.00	0.03	0.98

Model (newid R <sup>2</sup> )	B	Gwall Safonol	Beta	t	Sig.
Norm cymdeithasol 2 (disgrifiadol1)	0.19	0.13	0.28	1.55	0.14
Norm cymdeithasol 3 (disgrifiadol2)	0.02	0.18	0.02	0.10	0.93
PBC1 (rheolaeth)	-0.22	0.26	-0.20	-0.85	0.41
PBC2 (anhawster)	-0.38	0.28	-0.32	-1.37	0.19
Hunaniaeth o ran y Gymraeg	0.30	0.45	0.23	0.67	0.51
Arfer o ran y Gymraeg	-0.40	0.50	-0.49	-0.81	0.43
Gwerthoedd traddodiad	-0.25	0.16	-0.19	-1.58	0.13

5.46 Cynhaliwyd dadansoddiad archwiliadol i weld a oedd gwerthoedd eraill yn ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg i'r plentyn ieuengaf. Dengys Tabl 10 nad oes perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng trosglwyddo ac unrhyw werth a fesurwyd yn yr arolwg (sydd yn cynnwys yr holl werthoedd dynol sylfaenol, yn ôl damcaniaeth Schwartz (1992)).

**Tabl 14: Cyfatebiaeth rhwng ymatebwyr yn siarad Cymraeg â'u plentyn ieuengaf a'u gwerthoedd**

	Cyfatebiaeth	Sig.
<b>V-SD: Creadigrwydd</b>	-0.08	0.55
<b>V-PO: Cyfoeth</b>	-0.16	0.22
<b>V-SE: Diogelwch</b>	-0.19	0.15
<b>V-H: Hedoniaeth</b>	-0.15	0.26
<b>V-B: Caredigrwydd (cymdeithas)</b>	-0.02	0.91
<b>V-B: Caredigrwydd (lleol)</b>	0.02	0.86
<b>V-A: Cyflawniad</b>	-0.15	0.25
<b>V-ST: Symbyliad/risgiau</b>	0.05	0.74
<b>V-CO: Cydymffurfio</b>	-0.11	0.42
<b>V-UN: Natur</b>	-0.05	0.68

### Trafodaeth

5.47 Dengys ein canfyddiadau mai mamau, y rhai sydd yn byw yn ardal gogledd-orllewin Cymru yr astudiaeth, a'r rhai a gafodd fagwraeth Gymraeg, sydd fwyaf tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, ymhlith siaradwyr Cymraeg, nag ymatebwyr eraill. Mae ein dadansoddiad yn cadarnhau bod gwahaniaethau sylweddol mewn ymddygiad trosglwyddo yn nwy ardal yr astudiaeth. Nid oedd cymhariaeth ddaearyddol yn un o'n cwestiynau ymchwil, oherwydd ceir gwahaniaethau demograffig eraill rhwng ardaloedd a

allai hefyd effeithio ar drosglwyddo (gweler hefyd 2.66 a 3.30). Yn yr un modd, natur y sampl oedd bod yr holl famau hefyd yn brif roddwyr gofal a allai ddylanwadu'n annibynnol ar drosglwyddo (gweler hefyd 2.25 a 7.22). Cawsom fod oed ac addysg hefyd yn rhagfynegyddion trosglwyddo arwyddocaol i ryw raddau: gall ymatebwyr hŷn sydd wedi cael mwy o addysg fod yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg (er bod mwy o debygolrwydd bod y perthnasoedd hynny'n digwydd o ganlyniad i natur ein sampl nag yn achos effeithiau rhanbarth, cefndir ieithyddol a rhyw).

- 5.48 Yn gyffredinol, cawsom fod newidynnau seicolegol yn rhagfynegyddion llai effeithiol ar gyfer trosglwyddo na ffactorau daearyddol a bywgraffyddol: nid oedd agwedd at siarad Cymraeg, normau cymdeithasol, rheolaeth ganfyddedig, na gwerthoedd yn rhagfynegyddion, er bod arfer o ran y Gymraeg a hunaniaeth o ran y Gymraeg yn rhagfynegyddion arwyddocaol i ryw raddau. Mewn geiriau eraill, mae'n bosibl bod teimlo bod y Gymraeg yn rhan o'r ymdeimlad o'r hunan ac arfer siarad Cymraeg â'ch plentyn yn cael peth dylanwad ar drosglwyddo iaith. Nid yw'r olaf o'r cydberthnasau hyn yn peri syndod, o ystyried geiriad tebyg y rhagfynegydd (arfer siarad Cymraeg â'ch plentyn) a'r newidynnau dibynnol (amlder defnyddio'r Gymraeg â'r plentyn ieuengaf). Fodd bynnag, mae'n fwy trawiadol bod uniaethu â'r Gymraeg yn cael peth dylanwad ar drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf. Awgrymodd gwaith ymchwil blaenorol (Nash et al., 2012) fod perthynas rhwng hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg, ac mae'r ymchwil bresennol yn ymestyn hyn i awgrymu y gall uniaethu â iaith ddylanwadu ar ymddygiad (yn benodol, trosglwyddo iaith).
- 5.49 Gwelsom hefyd nad oedd y mesurau TPB a addaswyd o'r fformwleiddiadau safonol mor ddibynadwy (h.y. nid oedd cyfatebiaeth mor agos rhwng yr eitemau yn y mesurau), ag y mae eraill wedi canfod, gan ddangos o bosib y dylid datblygu mesurau newydd penodol ar gyfer y cyd-destun trosglwyddo iaith.
- 5.50 Er i ni ganfod agweddau cyffredinol gadarnhaol tuag at y Gymraeg, nid oedd y rhain yn rhagfynegyddion arwyddocaol o drosglwyddo iaith. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil blaenorol (e.e. Gathercole et al. (2007)) ac mae'n awgrymu bod ymgyrchoedd i hyrwyddo trosglwyddo iaith yn annhebygol o fod yn effeithiol (o leiaf ar eu pen eu hunain). Yn wir, cafwyd bod y

penderfyniad i siarad Cymraeg â'ch plentyn yn aml yn awtomatig, yn hytrach nag yn fwriadol, a bod arfer defnyddio'r Gymraeg yn rhagfynegydd arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo. Dyma'r gwaith ymchwil cyntaf a lywiwyd yn ddamcaniaethol sydd wedi archwilio dimensiynau anymwybodol trosglwyddo iaith, ac mae'n cadarnhau terfynau modelau ymddygiad seiliedig ar fwriad (h.y. rhesymedig), megis y Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad, a nodwyd mewn cyd-destunau eraill (e.e. Verplanken & Wood (2006)).

- 5.51 Ni chafwyd yma bod rhai ffactorau yr awgrymwyd eu bod yn bwysig mewn ymchwil flaenorol, megis graddfa gymdeithasol a chredoau normadol, yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar gyfer trosglwyddo iaith—er bod ein sampl o bosibl yn rhy fach i ddangos effeithiau arwyddocaol yr holl newidynnau a allai fod yn berthnasol.
- 5.52 Rydym yn hyderus bod y prif ffactorau a awgrymwyd yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth drosglwyddo a'r adolygiad o wyddoniaeth ymddygiadol wedi derbyn sylw yma. Cynhwyswyd newidynnau Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) (agweddau, normau, rheolaeth ganfyddedig), ynghyd ag arfer, hunaniaeth a gwerthoedd, a newidynnau cefndir (ffactorau demograffig, cefndir ieithyddol, rhanbarth, gallu a themlo'n gyfforddus yn yr iaith), yr oeddem yn tybio y byddai cysylltiad rhwng pob un ohonynt a throsglwyddo'r iaith. Yn wir, rhagwelodd ein model atchweliad llawn 88% o'r amrywiadau (sydd yn llawer uwch na'r hyn a gafwyd yn y rhan fwyaf o ymchwil seicolegol gymdeithasol gan ddefnyddio TPB neu fodelau ymddygiad tebyg) o ran trosglwyddo rhwng y cenedlaethau, sydd yn cadarnhau bod mwyafrif y rhagfynegyddion wedi eu cynnwys. Mewn geiriau eraill, dim ond 12% o'r trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau oedd heb ei egluro gan ein rhagfynegyddion. Fodd bynnag, gwelsom nifer cymharol fach o berthnasoedd arwyddocaol, o bosib oherwydd maint bach y sampl ( $n=60$ ) sydd yn golygu bod canfod unrhyw effeithiau ar drosglwyddo heblaw'r rhai cryfaf yn anodd. Dylai gwaith pellach adeiladu ar y canfyddiadau dangosol hyn ac archwilio a yw'r rhagfynegyddion hyn yn arwyddocaol oddi mewn i sampl mwy o faint (â rhai cannoedd o ymatebwyr).



- 5.53 Yn gyffredinol, rydym yn dod i'r casgliad bod newidynnau seicolegol yn debygol o roi rhywfaint o esboniad ynghylch pam mae pobl yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant; ond ymddengys bod rhanbarth a magwraeth yn ffactorau esboniadol mwy arwyddocaol.
- 5.54 Ar ôl dadansoddi'r data meintiol a gasglwyd gan ymatebwyr, mae'r bennod nesaf yn mynd ati i ddadansoddi'r deunydd ansoddol a gasglwyd gennym o gyfweiliadau wyneb yn wyneb.

## 6. Dadansoddi'r Data Ansoddol

- 6.1 Cyflwynodd y bennod flaenorol ddadansoddiad meintiol o'r gyfatebiaeth rhwng ymatebwyr unigol yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant a nifer o ffactorau cymdeithasol a seicolegol. Roedd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod hyder, teimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg, ac awtomatigrwydd ymddygiad iaith, ynghyd â rhyw, cefndir ieithyddol a rhanbarth magwraeth, yn debygol o ragfynegi trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Mae'r bennod bresennol yn darparu dadansoddiad ansoddol o'r data cyfweiliadau lled-strwythuredig a gasglwyd gennym gan ymatebwyr ynglŷn â (pheidio â) throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn gyntaf, rydym yn amlinellu patrymau cyffredinol defnydd o'r Gymraeg a welwyd yn y data ansoddol. Yn ail, rydym yn edrych ar y dylanwadau ar drosglwyddo ac ar p'un a wnaed penderfyniad ymwybodol ynglŷn â defnydd iaith yn y cartref ai peidio.
- 6.2 Disgrifiwyd natur y sampl mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn (gweler Pennod 4, Methodoleg). Mae'n werth ailadrodd, fodd bynnag, na fwriedir i'r data a gasglwyd fel rhan o'r gwaith maes gynrychioli'r boblogaeth ehangach yng Nghymru, ond yn hytrach roi cipolwg ar sut mae ymatebwyr yn ardaloedd yr arolwg yn disgrifio eu defnydd o iaith â'u plant a sut maent yn fframio'r profiadau a all fod wedi effeithio ar y patrymau defnydd hyn.
- 6.3 Mae gweddill y bennod wedi ei strwythuro fel a ganlyn: yn gyntaf, rydym yn disgrifio dulliau dadansoddi a chodio data ansoddol. Yn ail, rydym yn amlinellu'r prif themâu ynghylch trosglwyddo iaith a defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Mae adrannau terfynol y bennod hon yn trafod canlyniadau'r data ansoddol ynghylch y cwestiynau ymchwil ac yn nodi casgliadau i'w trafod ymhellach ym Mhennod 7 (Trafodaeth, Casgliadau).

### Codio a Dadansoddi Data Ansoddol

- 6.4 Dadansoddwyd y data ansoddol a gafwyd yn ystod y cyfweiliad â'r prif roddwr gofal fesul thema (Silverman 2015, t. 226). Mae dadansoddiad thematig hefyd yn darparu dull annibynnol ar theori a hyblyg o ddadansoddi data (Braun & Clarke 2006, t. 81). Fel mae Braun & Clarke (2006, t. 86) yn nodi, 'thematic analysis involves the searching across a dataset [...] to find repeated *patterns of meaning*' (italig yn y gwreiddiol). Yn ein dadansoddiad

thematig, ein nod oedd dod o hyd i batrymau trosglwyddo a ffactorau a allai ddylanwadu ar y patrymau hyn.

- 6.5 Cymerwyd nodiadau yn ystod y cyfweiliad oedd yn cael ei recordio gan y gweithwyr maes (Ymchwil Arad), gan grynhoi'r atebion a roddwyd gan ymatebwyr. Nid oedd trawsgrifiad gair am air llawn yn bosibl oherwydd amserlen y prosiect. Yn hytrach, bu aelodau eraill o'r tîm ymchwil (Evas a Morris) wedyn yn gwrando ar recordiadau'r cyfweiliadau, a lluniwyd dyfyniadau gair am air a nodiadau atodol lle roedd angen hynny . Nid ydym yn teimlo bod hyn wedi cyfyngu ar ddibynadwyedd canlyniadau'r prosiect hwn, gan y byddai trawsgrifiad gair am air yn fwy hanfodol ar gyfer gweithio o fewn fframwaith dadansoddi disgwrs.
- 6.6 Yna labelwyd ymatebion yr ymatebwyr gan ddefnyddio 'codau' yn seiliedig ar y cwestiwn a ofynnwyd (Rubin & Rubin 2005, t. 209). Mae Tabl 15 yn rhoi'r labeli a ddefnyddiwyd i godio'r data a'r gyfres berthnasol o gwestiynau yn amserlen y cyfweiliadau (gweler yr Atodiadau).

**Tabl 15: Codau a ddefnyddiwyd i labelu'r data ansoddol**

Adran berthnasol yn amserlen y cyfweiliadau	Cod
Trosglwyddo (pa ieithoedd mae'r ymatebwyr a'r teulu estynedig yn eu defnyddio â'u plant a sut mae'r plant yn ymateb)	Strategaethau (defnydd iaith yn y teulu) Cymraeg (defnydd o'r Gymraeg) Saesneg (defnydd o'r Saesneg) Ymddygiad (ymddygiad ieithyddol y plentyn) Disgwyliad (i ddefnyddio'r Gymraeg gan bobl eraill) Rôl y teulu a rhwydweithiau cymdeithasol (wrth drosglwyddo)
Cefndir ieithyddol yr ymatebwyr	Defnydd y teulu o'r Gymraeg yn ystod plentyndod Ysgol (defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth) Amser hamdden (gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg) Agweddau (agweddau'r ymatebydd) Cymunedol (agweddau canfyddedig tuag at y Gymraeg yn y gymuned)
Defnydd cyfredol yr ymatebydd o'r Gymraeg a'i ogwydd tuag at yr iaith	Defnydd y teulu presennol o'r Gymraeg Hyder (hyder canfyddedig yr ymatebwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg) Hunaniaeth (pwysigrwydd siarad Cymraeg ar gyfer yr hunanddelwedd)
Y Gymraeg yn y gymuned	Darpariaeth (yn y gymuned leol) Ysgolion (barn ganfyddedig am ysgolion yn yr ardal) Disgwyliad (i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal leol) Agweddau (tuag at y Gymraeg yn yr ardal leol)
Cynllunio iaith y Teulu	Bwriad (i ba raddau roedd trosglwyddo'n benderfyniad bwriadol) Trafodaethau (cyn ac ar ôl geni'r plentyn) Newid (unrhyw newid yn y penderfyniad ar ôl geni) Hyder (yn y gallu i drosglwyddo'r Gymraeg)

6.7 Yna dadansoddwyd y data oedd wedi'i godio i ganfod unrhyw themâu. Er mwyn i ymatebion yr ymatebwyr gael eu cyfrif fel thema, buont yn cyfrannu at ateb y cwestiynau ymchwil, ac adlewyrchwyd hynny yn ymatebion yr ymatebwyr eraill. Nid oes trothwy pendant ar gyfer sawl tro mae'n rhaid i nifer fawr o ymatebwyr roi ymateb er mwyn ffurfio thema (Braun & Clarke 2006, t. 82). Sylwer nad oedd modd gwahanu'r themâu i fynd â phob côd yn Tabl 15. Er enghraifft, nid oedd y graddau yr oedd y Gymraeg ei cael ei siarad yn y gymuned yn cael fawr ddim dylanwad uniongyrchol ar y penderfyniad i drosglwyddo'r Gymraeg (er ei fod yn ffactor esboniadol wrth

ystyried pa mor gyfforddus roedd ymatebwyr yn teimlo wrth siarad Cymraeg). Fel y canfuwyd ym Mhennod 5 (Cymhwysio Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith), nid ymddangosai hunaniaeth y siaradwr yn brif thema, gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod yr iaith yn rhan bwysig o'u hunaniaeth, hyd yn oed os nad oeddent yn gyfforddus yn ei siarad â'u plant. I wella dibynadwyedd, cynhaliwyd y dadansoddiad thematig gan yr awdur cyntaf a'r ail awdur yn annibynnol ar ei gilydd cyn bod yn destun trafod a chytundeb rhyngddynt.

- 6.8 Fel y nodwyd eisoes, mae'r data hyn yn seiliedig ar hunan-adroddiadau, ac felly efallai na fyddant mor ddibynadwy â dadansoddiadau yn seiliedig ar arsylwi tymor hir. Yn ogystal, mae'r ffocws yn bennaf ar yr iaith y mae'r ymatebwyr yn ei defnyddio yn hytrach nag ymddygiad ieithyddol y plentyn. Er y dylid cadw hyn mewn cof wrth edrych ar y canlyniadau sydd yn dilyn, rydym yn pwysleisio mai nodau'r gwaith ymchwil hwn yw edrych ar batrymau defnydd iaith a ffactorau a allai effeithio ar ddefnydd ymatebwyr o'r Gymraeg â'r plant. Rydym yn gobeithio y bydd gwaith yn y dyfodol yn ymdrin mewn modd mwy ethnograffig ac arsylwadol â'r defnydd o batrymau Cymraeg ym mywydau beunyddiol yr ymatebwyr, a'r rôl mae plant yn ei chwarae ym Mholisi Iaith Teulu (Smith-Christmas 2014).
- 6.9 Ar ôl amlinellu'r dulliau codio a dadansoddi ar gyfer data ansoddol, trown yn awr at y prif themâu sydd yn codi yn y data.

### **Canlyniadau'r dadansoddiad thematig**

- 6.10 Roedd nifer o brif themâu yn codi o ran defnydd o'r Gymraeg yn y cartref a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo. Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu hyn ac yn dangos prif nodweddion yr ymatebwyr y cododd pob thema yn eu data. Rydym wedi cynnwys enghreifftiau o hanesion ymatebwyr unigol yn Atodiad 2 a chrynodeb o gefndir pob ymatebydd a'u defnydd o iaith â'u plant yn Atodiad 3.

### *Trosglwyddo'r Gymraeg i blant fel ymddygiad anymwybodol gan Ymatebwyr*

- 6.11 Yn achos llawer o ymatebwyr yn yr ymchwil, Cymraeg oedd y brif iaith a ddefnyddid ganddynt â'u plant bob amser, ac nid oeddent wedi cael unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r defnydd iaith hwn â'r plant. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i ddod o Wynedd ac Ynys Môn, ond, yn bwysicach, roedd y

mwyafrif llethol yn dod o deuluoedd sydd yn siarad Cymraeg ac wedi eu cael eu cymdeithasoli'n bennaf yn y Gymraeg eu hunain y tu allan i'r ysgol. Fel yr esboniodd un ymatebydd:

*'Mae bob dim yn fy mywyd i wedi bod drwy'r Gymraeg—mae fy addysg i wedi bod trwy'r Gymraeg, ac wedyn mae fy ngwaith i wedi bod trwy'r Gymraeg, ac mae fy ngŵr i'n Gymraeg, mae fy mhlant i'n Gymraeg felly dydi hi ddim yn rhywbeth dwi wedi gwneud yn 'conscious' er mwyn cael gwaith... mae jyst wastad wedi bod yna'*—**Mam, Gwynedd.**

6.12 Roedd gan lawer o'r ymatebwyr hyn aelodau o'r teulu estynedig nad oeddent yn siarad Cymraeg, a ffrindiau y byddent yn siarad Saesneg â hwy. Ni ellir rhagdybio, felly, nad oedd defnydd gweithredol o'r Saesneg yn rhan o'u profiad plentyndod. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, argaeledd rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith yn y gymuned leol yn ystod plentyndod, defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu agos, ac addysg Gymraeg oedd yn gyffredin i'r holl ymatebwyr.

6.13 Tueddai'r ymatebwyr hyn, p'un a oedd ganddynt bartneriaid oedd yn siarad Cymraeg ai peidio, i adrodd am lefel uchel o hyder wrth siarad Cymraeg, ac roeddent yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau mwy ffurfiol neu broffesiynol yn ogystal ag yn eu rhwydweithiau cymdeithasol personol a'u teuluoedd. Yn achos rhai o'r ymatebwyr, roedd ganddynt fwy o hyder yn y Gymraeg nag yn y Saesneg, fel y gwelir yn y dyfyniad isod:

*'Achos fy mod i wedi magu yn Gymraeg, dwi'n arafu pan dwi'n siarad Saesneg a rhoi geiriau Cymraeg mewn bob hyn a hyn. Dwi'n gorfod meddwl mwy am siarad Saesneg'*—**Mam, Gwynedd.**

6.14 Cafwyd ymatebwyr o gartrefi Saesneg eu hiaith a oedd yn defnyddio'r Gymraeg â'u partneriaid a'u plant. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi caffael y Gymraeg naill ai drwy addysg neu gyswllt cymdeithasol â phlant oedd yn siarad Cymraeg yn ystod plentyndod neu (yn achos un ymatebydd) wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn. Roedd yr ymatebwyr hyn bellach mewn perthynas â phobl oedd wedi caffael y Gymraeg yn y cartref. Nid oedd fawr ddim yn y data oedd yn awgrymu bod yr ymatebwyr hyn wedi ystyried defnyddio'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg â'u plant, ac roedd eu rhwydweithiau cymdeithasol presennol yn Gymraeg yn bennaf:

*'O'n i jyst yn gwybod bysen nhw'n cael Cymraeg anyway'*—**Mam, Rhondda Cynon Taf.**

Efallai yn bwysicach, yn yr achosion hyn roedd y Gymraeg eisoes wedi ymsefydlu fel iaith yr ymatebwyr cyn i'r plentyn gael ei eni.

- 6.15 Adroddodd ymatebwyr oedd mewn perthynas â phartner nad oedd yn siarad Cymraeg eu bod wedi trafod siarad Cymraeg â'u plentyn â'u partner cyn yr enedigaeth (gweler 6.19). Nododd rhai ymatebwyr na chafwyd unrhyw drafodaethau ynghylch defnydd o iaith yn y cartref, a bod y partner di-Gymraeg wedi 'cymryd yn ganiataol' y byddai'r siaradwr Cymraeg yn siarad â'r plentyn yn Gymraeg:

*'Oedd o'n gwybod mai dyna oedd y sefyllfa yn mynd i fod felly...dwi'n reit stubborn yn y ffordd yna...basa dim byd wedi gwneud i fi siarad Saesneg efo hi'*—**Mam, Gwynedd.**

- 6.16 Roedd cwestiynau'r cyfweiliad yn canolbwyntio ar benderfyniadau ymatebwyr ynghylch trosglwyddo yn hytrach nag ar brosesau llafar dwyieithog (megis cyfnewid codau neu drawsieithu). Soniodd rhai ymatebwyr am y rhain, fodd bynnag. Esboniodd un ymatebydd fod ei defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg heb ystyried y peth yn golygu nad yw hi mewn gwirionedd yn rhoi sylw i ba iaith mae hi'n ei siarad.

*'[Dwi'n gyfforddus] yn y ddwy iaith...oherwydd y ffordd dwi 'di cael fy magu...Mae'n dibynnu ar y sefyllfa, pa iaith bynnag sy'n dod allan yn gyntaf, it just comes out'*—**Mam, Gwynedd.**

*Cynyddu'r defnydd o Saesneg mewn teulu sydd yn siarad Cymraeg*

- 6.17 Dywedodd tri ymatebydd o Ynys Môn, a oedd bron bob amser yn siarad Cymraeg â'u plant, eu bod yn fwriadol yn defnyddio rhywfaint o Saesneg â hwy oherwydd eu bod yn teimlo y byddai defnyddio'r Gymraeg yn unig yn eu rhwystro rhag cyrraedd lefel ddigonol o Saesneg. Dangosir enghraifft o'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn yn y dyfyniad isod, lle dywedodd yr ymatebydd ei bod am siarad mwy o Saesneg â'i plentyn oherwydd ei bod hi'n teimlo bod dod o gartref lle defnyddid Cymraeg yn unig wedi cael effaith negyddol ar ei hyder ei hun yn Saesneg.

*'Dwi'n meddwl fod o'n bwysig bo' nhw'n siarad Saesneg hefyd achos mae'r gymdeithas fel mae hi yn ddwyieithog so yr unig anfantais dwi'n teimlo bo' fi di gael ydi bo fi ddim yn confident yn siarad Saesneg'*—**Mam, Ynys Môn.**

- 6.18 Nid ymhelaethodd y tri ymatebydd oedd yn sôn am fynd ati'n ymwybodol i gyflwyno rhagor o Saesneg i'r cartref ar sut byddai hynny'n cael ei gyflawni (er enghraifft, a ydynt yn neilltuo swyddogaethau penodol i'r Saesneg) ac fe allai eu defnydd o iaith, mewn gwirionedd, fod yn debyg i eiddo ymatebwyr eraill. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhai ymatebwyr wedi dweud yn benodol eu bod yn teimlo bod siarad Cymraeg yn unig yn y cartref wedi cael effaith negyddol ar eu hyder yn Saesneg, a'u bod am osgoi hynny yn achos eu plant. Mae hefyd yn werth nodi bod llawer o ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg wedi mynegi'r un pryderon wrth eu partner Cymraeg eu hiaith, ond bod hynny'n tueddu i ddigwydd mewn sgysiau ynghylch addysg Gymraeg ar aelwydydd lle defnyddir Saesneg yn bennaf (gweler 6.32).

*Trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith yn y teulu*

- 6.19 Trafodwyd trosglwyddo iaith yn y teulu cyn geni'r plentyn yn y rhan fwyaf o achosion mewn teuluoedd dau riant lle nad oedd ond un rhiant yn siarad Cymraeg. O'r siaradwyr Cymraeg hyn, roedd pob un yn dod o gefndir cartref lle siaredid Cymraeg yn bennaf, yn hytrach na'u bod wedi caffael yr iaith trwy'r system ysgol yn unig. Mewn llawer o achosion, nododd yr ymatebwyr hyn fod eu partneriaid wedi bod yn gefnogol i drosglwyddo'r Gymraeg:

*'[My husband] could see the advantage it gave me at work and the opportunities it gave me while I was in school and...I told him about all the Eisteddfod activities that I did and how that fed into my social activities at University and...he was totally supportive'*—**Mam, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.20 Er bod trafodaethau o'r fath yn gadarnhaol ar y cyfan, nid oedd hynny bob amser yn wir:

*'[Dwi'n] cofio cael y discussion gyda [thad y plentyn] pan o'n i'n feichiog am ba iaith o'n ni'n mynd i siarad. Oedd y ddau ohonon ni up in arms am ba iaith o'n i'n mynd i siarad a dwi'n credu mai dyna pam ni wedi cytuno, reit siarada ti Saesneg a wna i siarad Cymraeg. [Mae'r Gymraeg] yn rhan mawr o sut ces i fy magu, isio [plentyn] gael yr un fath'*—**Mam, Ynys Môn.**



- 6.21 Hefyd nododd rhai ymatebwyr er eu bod wedi cytuno ar y syniad o ddull Un Rhiant Un Iaith yn gynnar ym mywyd y plentyn, bod agweddau at y dull hwn wedi newid dros amser:

*'Since we met [mae'r ymatebydd yn newid i'r Gymraeg], nes i gweud bo fi eisiau plant, a ma nhw mynd i siarad Cymraeg, ac oedd beth fi eisiau mor gymaint oedd siarad Cymraeg. A fi'n credu bod 'na rywbeth mewn fi, oedd fi eisiau siarad Cymraeg gyda rhywun a cael opportunity i siarad Cymraeg gyda fe. Oedd [fy mhartner] sort of OK 'da fe oherwydd it wasn't the real thing yet, "yeah yeah, sounds good"...So, wishful thinking beforehand'—*

**Tad, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.22 Roedd y problemau a wynebwyd gan rai ymatebwyr a oedd wedi cychwyn polisi Un Rhiant Un Iaith yn y cartref yn troi o gwmpas y ffaith bod eu partner yn teimlo allan ohoni. Roedd hynny weithiau'n arwain at y partner di-Gymraeg yn mynegi eu pryderon ac yn gosod terfyn ar faint o Gymraeg oedd yn cael ei siarad yn y cartref.

*'I gychwyn roedd o'n meddwl ei fod o'n syniad bendigedig bod yn siarad Cymraeg ac wedyn...doedd o ddim yn hoffi'r syniad bod ei [blentyn] o a fi a'i [sibling] yn mynd i fod yn siarad mewn iaith na fasa fo ddim yn deall ac oedd hynna er bo fi wedi bod yn helpu ac yn rhoi links i bethau Cymraeg a trio cael o i wersi Cymraeg a bob dim felly oedd o'n hoffi'r syniad ond fel oedd y gwirionedd yn dod yn agosach doedd o ddim yn hoff iawn o'r syniad o gwbl'—***Mam, Gwynedd.**

*'Dydi o ddim isio [i'r plentyn] gollu allan fatha fo.... Efallai fod o'n teimlo tipyn yn left out efo ni'n dwy. Mae o wedi deud wrtha i actually ei fod o'n poeni byddan ni'n dwy yn siarad Cymraeg a fydd o ddim yn dallt'—***Mam, Ynys Môn.**

- 6.23 Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhaliwyd unrhyw drafodaethau ynghylch trosglwyddo rhwng y ddau riant yn unig. Nododd nifer llai o ymatebwyr eu bod wedi trafod trosglwyddo ag eraill. Soniodd un ymatebydd am fod wedi trafod trosglwyddo â Twf ond ni allai gofio'r manylion. Nododd dau o'r ymatebwyr eu bod wedi trafod trosglwyddo â'r teulu estynedig. Yn y dyfyniad canlynol, mae'r ymatebydd yn dwyn i gof ymateb aelod o'r teulu estynedig pan drafodwyd trosglwyddo'r Gymraeg:

*'Oedd na sbel [cyn] i'r [aelod o'r teulu] dwymo i'r Gymraeg. Dwi'n cofio sgysiau; [ymatebydd yn newid i'r Saesneg] "her English is going to be way below average if she's just doing Welsh all the time"—Mam, Rhondda Cynon Taf.*

- 6.24 Cafwyd enghreifftiau lle roedd ymatebwyr oedd wedi caffael y Gymraeg trwy addysg Gymraeg yn gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant. Roedd yr ymatebwyr hyn o Wynedd ac Ynys Môn, a chyfiawnhaodd un ohonynt ei safbwynt fel a ganlyn:

*'Nes i ddim siarad Cymraeg nes diwedd cynradd, dechrau ysgol uwchradd ond dwi isio [i'r plentyn] ddysgu Cymraeg o'r cychwyn. Dwi'n siarad mwy o Gymraeg efo fo na Saesneg ond mae gŵr fi'n siarad mwy o Saesneg'—Mam, Ynys Môn.*

- 6.25 Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu i raddau helaeth fod trafodaethau rhwng ymatebwyr Cymraeg eu hiaith a'u partner di-Gymraeg wedi arwain at yr ymatebydd Cymraeg ei iaith yn siarad Cymraeg â'r plentyn. Fel y gwelwyd yn rhai o'r dyfyniadau, fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr fod y partner di-Gymraeg wedi mynegi pryderon ynghylch methu deall rhyngweithio riant a phlentyn. Thema gysylltiedig oedd y ffaith bod ymatebwyr Cymraeg eu hiaith yn addasu i'r Saesneg yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

*Addasu i'r Saesneg*

- 6.26 Roedd addasu i'r Saesneg ymhlith ymatebwyr Cymraeg eu hiaith yn thema gyffredin yn y data. I lawer o siaradwyr, nodwyd hyn fel patrwm ymddygiad yr oeddent wedi'i gaffael yn ystod eu plentyndod wrth gymysgu â phobl o gartrefi Saesneg mewn addysg Gymraeg.

*'Oedd 'na chwech yn y grŵp, ac oedd pedair Cymraeg a dwy Saesneg—ond yn aml iawn, oedd y grŵp i gyd wedyn yn troi i'r Saesneg'—Mam, Gwynedd.*

- 6.27 Nid oedd unrhyw arwydd bod addasu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer rhai y tu allan i'r teulu agosaf yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, soniodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi cael cyfarwyddyd gan eu rhieni eu hunain, a'u bod hwythau'n rhoi cyfarwyddyd i'w plant hwythau, i beidio â defnyddio'r Gymraeg ym mhresenoldeb pobl nad ydynt yn ei siarad. Roedd gan ymatebwyr o'r fath naill ai bartneriaid di-Gymraeg a/neu deulu

estynedig di-Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu y bydd llawer o ymatebwyr yn addasu ar gyfer aelodau di-Gymraeg o'r teulu neu ffrindiau drwy gyfyngu ar y defnydd o'r Gymraeg i ryngweithio un-wrth-un â'r plentyn:

*'[Oedd Mam] yn stoppo fi ganol brawddeg a deud fod o'n rude siarad Cymraeg o flaen [pobl eraill]. Efallai wna i wneud 'run peth gyda [enw'r plentyn] o flaen pobl dwi'n gwybod sy' ddim yn siarad o o gwbl'—Mam, Gwynedd.*

- 6.28 Mewn achosion lle roedd gan ymatebwyr Cymraeg eu hiaith bartneriaid di-Gymraeg, roedd yn aml yn wir bod y defnydd o'r Gymraeg yn gyfyngedig i achosion pan oedd yr ymatebydd ar ei ben ei hun â'r plentyn. Roedd hyn yn aml oherwydd bod y partner di-Gymraeg yn teimlo'n anghyfforddus â strategaeth un rhiant un iaith lem (gweler 6.22), yn hytrach na diffyg hyder yr ymatebydd Cymraeg ei iaith yn y Gymraeg neu agweddau negyddol tuag at yr iaith.

*Trosglwyddo Saesneg i blant fel ymddygiad anymwybodol yn y cartref*

- 6.29 Patrwm cyffredin ymhlith ymatebwyr o gartrefi di-Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru oedd wedi caffael y Gymraeg trwy addysg Gymraeg oedd defnyddio'r Saesneg yn unig â'u plant. Yn hytrach, roedd ymatebwyr o'r fath yn tueddu i drafod addysg Gymraeg â'u partneriaid (gweler 6.32) ac yn adrodd bod eu plant yn mynychu, neu y byddent yn mynychu, ysgolion Cymraeg. Fel llawer o'r rheini o gefndiroedd Cymraeg, nid oedd y defnydd o iaith yn rhywbeth oedd yn cael ei drafod, cyn geni'r plentyn nac yn ystod plentyndod cynnar. Mewn geiriau eraill, roedd yn cael ei ystyried yn 'awtomatig' bod yr ymatebwyr hyn yn defnyddio Saesneg yn unig:

*'If you don't speak Welsh at home, which we didn't, when you have a child, it tends to be that you don't even think about the language.... When they start school, then you make a decision. If you're not used to speaking [Welsh], English is the default setting'—Tad, Rhondda Cynon Taf.*

*'Dyw'r Gymraeg ddim yn dod yn naturiol [imi] mewn sefyllfa cartrefol'—Mam, Caerffili.*

- 6.30 Roedd trosglwyddo'r Saesneg yn awtomatig fel hyn yn fwy cyffredin yn ne-ddwyrain Cymru (lle roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi caffael y Gymraeg fel ail iaith trwy'r system addysg Gymraeg). Nododd un ymatebydd bod hyn yn

ddigwyddiad cyffredin ar Ynys Môn, ond ni welwyd hynny yn ein data ymchwil:

*‘Mae ‘na lot [o bobl] ffordd hyn sydd yn gallu siarad [Cymraeg], ond yn dewis, bydd well gyda nhw siarad Saesneg, a dwi just yn mynd ‘efo beth maen nhw eisiau. Mae lot o hwnna ffordd hyn, lle mae lot o bobl yn gallu siarad Cymraeg, efallai wedi cael addysg Cymraeg, ond bod eu rhieni nhw ddim a bod nhw tu allan i’r ysgol heb siarad Cymraeg gymaint’—*

**Mam, Ynys Môn.**

- 6.31 Yn achos yr ymatebwyr hyn o dde-ddwyrain Cymru, roedd y data’n awgrymu bod trosglwyddo’r Saesneg yn ymddygiad awtomatig nad oedd yn cael ei drafod cyn genedigaeth y plentyn. Yn achos yr un ymatebwyr, fodd bynnag, roedd trafodaethau ynglŷn â defnydd iaith yn dod i’r amlwg wrth drafod opsiynau addysgol ar gyfer eu plentyn. Fodd bynnag, nid arweiniodd y trafodaethau hyn mewn unrhyw achosion at y Gymraeg yn dod yn brif iaith rhyngweithio ar gyfer yr ymatebydd Cymraeg ei iaith a’r plentyn. Rydym yn archwilio is-themâu’r sefyllfa hon yn yr adrannau canlynol.

*Trafodaethau ynghylch Addysg Gymraeg*

- 6.32 Yn aml disgrifiwyd y defnydd o’r Saesneg gan ymatebwyr o gartrefi Saesneg eu hiaith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf fel ymddygiad diofyn cyn yr enedigaeth. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn y sampl yn sicr eu bod am i’w plant fynychu ysgol Gymraeg. Mewn geiriau eraill, roedd y rhieni’n aml yn trafod rhoddi iaith yn hytrach na’i throsglwyddo. Roedd hon yn thema gref iawn ymhlith ymatebwyr o dde-ddwyrain Cymru. Adroddwyd bod trafod ysgolion yn aml wedi digwydd cyn geni’r plentyn, ac yn aml atebai’r ymatebwyr gwestiynau ynghylch trosglwyddo trwy gyfeirio at addysg Gymraeg yn hytrach na defnydd o’r iaith yn y cartref:

*‘Even before I was pregnant I’ve always said that I wanted my children to go to a Welsh school and my partner has always known that’—Mam, Caerffili.*

*‘My ex-partner did not want the children to go to a Welsh school whatsoever. Completely and utterly against it. So obviously, that’s a massive barrier to begin with. Because he thinks people who go to Welsh school are stupid...they don’t get taught properly in Welsh school and that*

it didn't offer the same opportunities as English schools. So, he didn't care where they went, as long as it wasn't a Welsh school'—**Mam, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.33 Roedd yr awydd i roddi iaith (yr awydd i anfon eu plant i ysgol Gymraeg) yn annatod glwm wrth weld gwerth yn y Gymraeg yn fel ased diwylliannol a sgil (er na chyfeiriodd neb o'r ymatebwyr at fanteision gwybyddol dwyieithrwydd, y cyfeirir atynt yn aml mewn llenyddiaeth hyrwyddo). Cyfeiriodd ymatebwyr at awydd i 'basio'r Gymraeg ymlaen', er eu bod yn golygu trwy addysg yn hytrach na defnyddio'r iaith yn y teulu:

'I am proud that I can speak Welsh...I'm glad I got educated through Welsh and it made me more passionate to want to pass it down to my own children, to carry it on, not for it to die out'—**Mam, Caerffili.**

'I think I'm very proud that I can speak Welsh, and when I speak to colleagues, a lot are reluctant to send their children to Welsh school and I try to encourage that and say, you know my parents didn't speak Welsh and I didn't find it difficult at all'—**Mam, Caerffili.**

- 6.34 Dylid nodi bod mwyafrif yr ymatebwyr yn dymuno i'w plant hwythau gael addysg Gymraeg (gweler hefyd Bennod 5, Cymhwysio Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith) er eu bod wedi cael profiadau niwtral neu negyddol o'r Gymraeg yn ystod eu plentyndod:

'I didn't have any problem myself with speaking Welsh, my grandfather spoke Welsh, quite happy with it, not a problem, but I realised that other people didn't like it, the kids in your town who went to the English school, I realised quite quickly that I'm in a minority here, a visible minority and they used to think things of us, kick us, throw things at us. And so quickly, within a fairly short time, you were aware that there was a 'thing' attached to [the Welsh language] and this led to ambivalent feelings as time went on as you wondered "why am I marked out like this"?'—**Tad, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.35 Mae'r arsylwadau hyn yn awgrymu, yn achos yr ymatebwyr hyn, bod awydd i weld eu plant yn dod yn siaradwyr Cymraeg a'u bod yn adfyfrio'n gadarnhaol ar eu profiadau o addysg Gymraeg. Mae'r canlyniadau hefyd yn awgrymu, fodd bynnag, eu bod yn gweld addysg, yn hytrach na defnydd o

iaith yn y teulu, fel offeryn trosglwyddo. Hon oedd prif thema'r data o ddeddwyrain Cymru, ond canfuwyd hefyd, pan fydd plant yn cychwyn mewn addysg Gymraeg, fod pwnc defnydd o iaith yn y cartref yn dod i'r brig.

*Gwneud lle ar gyfer y Gymraeg mewn teulu Saesneg eu hiaith*

- 6.36 Nid oedd fawr neb o'r ymatebwyr o ddeddwyrain Cymru wedi ystyried siarad Cymraeg â'u plant o'r crud. Fodd bynnag, roeddent wedi dechrau defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn y cartref unwaith roedd y plentyn wedi cychwyn mewn addysg Gymraeg. Roedd y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref yn gyfyngedig i raddau helaeth i Gymraeg achlysurol (defnyddio ymadroddion fformiwläig) neu drafodaethau ynghylch gwaith ysgol hyd yn oed gan y rhai oedd wedi caffael yr iaith drwy'r system addysg Gymraeg.

'[Language use] is probably 90% English. I'll ask her of a morning if she wants *dŵr* (water) or *llaeth* (milk)'—**Mam, Caerffili.**

- 6.37 Ym mhob achos, gwelid defnyddio Cymraeg achlysurol fel ffordd i baratoi eu plant ar gyfer addysg Gymraeg:

'My husband probably expects me to speak Welsh to them as we are planning on sending them to Welsh school. He thinks I should use it more to prepare them for that. He tries to encourage me to use more Welsh with the children'—**Mam, Caerffili.**

- 6.38 Roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud ymdrech ymwybodol i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg â'u plant. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ymatebwyr yn newid eu hymddygiad iaith eu hunain â rhai a fu yn yr ysgol ar yr un pryd oedd yn medru'r Gymraeg, a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref:

*'Mae wedi bod yn newid yn ddiweddar achos mae plant ni gyd yn dechrau mynd i'r ysgol ac yn ysgolion Cymraeg. Ni'n dechrau siarad Cymraeg mwy na pryd o'n ni yn mynd mas cynt'*—**Mam, Caerffili.**

- 6.39 Mae hyn yn awgrymu, mewn teuluoedd lle na ystyrir trosglwyddo'r Gymraeg o'r crud, y gall yr adeg pan fydd plentyn yn cychwyn mewn addysg Gymraeg sbarduno trafodaethau ynghylch iaith. Fel y dangoswyd uchod, roedd gan yr ymatebwyr hyn hefyd agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith ac addysg Gymraeg, er gwaethaf profiadau niwtral neu negyddol. Ni ddechreuodd neb

o'r ymatebwyr hyn ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith rhyngweithio â'u plant unwaith roedd y plentyn wedi cychwyn mewn ysgol Gymraeg. Roedd tair prif is-thema yn ffactorau esboniadol yn y data a ddadansoddwyd (er bod ffactorau eraill yn ddiamau, gan gynnwys y defnydd anymwybodol o'r Saesneg a ddadansoddwyd uchod). Y ffactorau hyn oedd: diffyg hyder yr ymatebwyr yn y Gymraeg, gwerthusiadau negyddol neu effaith disgwiliadau siaradwyr Cymraeg eraill, a diffyg darpariaeth ar gyfer cymdeithasoli iaith yn yr ardal leol.

#### *Hyder yn y Gymraeg*

- 6.40 Adroddodd ymatebwyr yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf, nad oeddent yn defnyddio fawr ddim Cymraeg, os o gwbl, â'u plant, ond a oedd wedi anfon eu plentyn i feithrinfa neu ysgol Gymraeg, eu bod wedi colli'r arfer o siarad Cymraeg, a bod y diffyg ymarfer hwnnw wedi arwain at ddiffyg hyder yn Gymraeg. Yn hytrach na dweud eu bod yn brin o hyder yn yr ysgol, roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i gyfeirio at eu gallu fel 'rhydlyd' a nodi eu bod 'wedi colli'r arfer' ers gadael yr ysgol:

*'Mae'n anodd [ymarfer Cymraeg] achos ers i fi adael yr ysgol dwi braidd wedi defnyddio'r Gymraeg. Pryd oedd fi'n gweithio yn [Gogledd Cymru] oedd fi'n defnyddio fe'n ddyddiol ond yn amlwg yn [De Cymru] dwi ddim yn siarad lot fawr o Gymraeg'—Mam, Caerffili.*

'[Welsh] would feel like speaking a different language now, it just came naturally when I was young'—Mam, Caerffili.

*'Rydw i'n trio siarad Cymraeg ond rydw i'n stryglo. Dydw i ddim eisiau colli'r iaith, mae'n bwysig i fi ond I hardly get a chance to use it'—Tad, Caerffili.*

'I probably get a bit flustered, I think if I used it a lot more it would come more natural again but I think [daughter] tests me when she's asking me constantly 'what's this in Welsh?' and for the life of me, I'm thinking, eh? ...I should speak a lot more. When I had a parents' evening, even though she knew I could speak Welsh I said to her, can we do it through English, because I could understand her but it's probably me getting more flustered trying to get my words out really'—Mam, Caerffili.

6.41 Nododd rhai o'r ymatebwyr fod eu defnydd o'r Gymraeg â'u plant yn cynyddu, ynghyd â'u hyder:

'[My] confidence in Welsh is building. I really enjoy it, it's all still in there. I use more Welsh with them'—**Tad, Ynys Môn.**

6.42 Roedd diffyg hyder yn thema amlwg ymhlith yr ymatebwyr hyn nad oeddent yn defnyddio ond ychydig iawn o Gymraeg â'u plant, ond a oedd wedi adfyfrio ar eu defnydd o iaith pan gychwynnodd eu plentyn yn yr ysgol. Thema lai cyffredin oedd adroddiadau am brofiadau negyddol â siaradwyr Cymraeg eraill.

*Profiadau â siaradwyr Cymraeg eraill*

6.43 Adroddodd rhai o'r rhai oedd heb fawr o hyder yn Gymraeg ac a oedd yn defnyddio Saesneg yn bennaf â'u plant, hefyd eu bod wedi cael profiadau â siaradwyr Cymraeg eraill a oedd, yn ôl yr hyn yr oeddent yn ei ddweud, wedi effeithio'n negyddol ar eu hyder yn yr iaith. Yn achos rhai ymatebwyr, profiadau oedd y rhain yr oeddent yn eu cofio o'u dyddiau ysgol eu hunain, ac roedd yr ymatebwyr hynny'n teimlo eu bod yn creu rhwystrau rhyngddynt a chymuned Gymraeg ehangach:

'My experience of the school was that there was a tendency for children from certain backgrounds to be favoured, from Welsh-speaking families. Again, that's my impression. They were given more attention by the teachers, the teachers tended to know their families, it was almost as if there was a community'—**Tad, Caerffili.**

6.44 Nid oedd profiadau neu ganfyddiadau negyddol o siaradwyr Cymraeg eraill wedi'u cyfyngu i'r gorffennol a theimlai rhai ymatebwyr eu bod yn cael eu barnu am ddefnyddio'r Gymraeg gan bobl ddi-Gymraeg, ac ambell waith yn cael eu beirniadu am ddefnyddio Cymraeg o safon wael gan siaradwyr Cymraeg eraill. Roedd hyn yn rhwystr rhag gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith yr ymatebwyr hyn:

'When you speak to them they look at you as if to say, you're not even speaking proper Welsh'—**Tad, Rhondda Cynon Taf.**



- 6.45 Mae'r canfyddiadau negyddol hyn yn amlygu eu hunain trwy ddiffyg hyder a hunan-ffeithiolrwydd gan ymatebwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn achosion eraill, ni nododd yr ymatebwyr brofiadau negyddol â siaradwyr Cymraeg eraill, ond roeddent yn teimlo'n ofnus wrth ddefnyddio'r Gymraeg â rhieni eraill oedd i'w gweld yn fwy rhugl.

*Darpariaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*

- 6.46 Credai mwyafrif yr ymatebwyr yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf fod diffyg cyfle yn yr ardal iddynt ddefnyddio eu Cymraeg. Dywedodd dau o'r ymatebwyr fod ymuno â chapel Cymraeg wedi eu galluogi i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r dyfyniadau isod yn enghreifftiau cynrychioliadol o'r ymatebwyr eraill:

'I wish there were more things going on [in Welsh] to get more comfortable [using Welsh]'—**Mam, Caerffili.**

'This area here, this is where the working middle class live, so it's very promoting, they're actively seeking Welsh, but when you sort of start to move away from working professional areas, it's [different]'—**Mam, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.47 Nododd yr ymatebwyr fod rhai gweithgareddau ar gyfer plant hŷn, a drefnwyd gan yr Urdd neu'n gysylltiedig â'r ysgol, ond nad oeddent yn ymwybodol o weithgareddau ar gyfer plant iau. Mynegwyd awydd i weld mwy o weithgareddau, â rhai ymatebwyr yn nodi y byddai hyn yn helpu eu plentyn i gymdeithasu yn y Gymraeg:

*'Jyst so mae [enw'r plentyn] yn cael y siawns i weld Cymraeg mewn action... iddo cael sbri, dwi eisiau iddo fe weld e fel rhywbeth positif'*—**Tad, Rhondda Cynon Taf.**

- 6.48 Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar brofiadau'r ymatebwyr yn hytrach nag ymateb y plentyn. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn adrodd ynghylch ymddygiad ieithyddol cyffredinol y plentyn.

*Defnydd Plant o laith*

- 6.49 Tueddai ymatebwyr mewn teuluoedd lle roedd y ddau riant (neu unig rieni) yn siarad Cymru i adrodd mai Cymraeg yn unig y byddai'r plant yn ei siarad â hwy. Nododd rhai ymatebwyr y byddai defnydd o'r Saesneg gan unrhyw

aelod o'r teulu yn rhywbeth na fyddent yn ei ddisgwyl ac y byddai allan o'r cyffredin i hyn ddigwydd.

- 6.50 Adroddwyd am enghreifftiau o ddefnyddio dwy iaith mewn achosion lle roedd yr ymatebwyr yn defnyddio Cymraeg ond yn ymwybodol bod eu plant yn chwarae â phlant oedd yn siarad Saesneg ac a oedd hefyd yn adrodd am agwedd lai pendant at eu defnydd eu hunain o iaith:

*'Os mae hi'n dechrau [siarad Saesneg] wna i ddim newid o, faswn i ddim yn specifically neud o ar bwrpas ond fatha, dwi'n meddwl am bod nhw'n watchad programmes Saeseng yna os ma nhw'n chwarae efo 'My Little Pony' ma o'n dod yn naturiol iddyn nhw siarad Saesneg...ac hefyd dwi'n meddwl bod 'na blant Saesneg ac ar yr iard mae yna Saesneg yn mynd mlaen'—Mam, Ynys Môn.*

- 6.51 Adroddwyd am newid côd mynych ymhlith plant, a hefyd ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol (e.e. yn yr ysgol): 'weithiau neith o jest dod allan 'lly'—Mam, Ynys Môn.

*'Rwy'n tueddu i gael fy arwain ganddi hi. Os bydd hi'n dweud gair yn Gymraeg, bydda i'n dechrau ateb yn Gymraeg, ac fe awn ni ymlaen am ychydig funudau—Mam, Rhondda Cynon Taf.*

*"Sws, Mam?" [yn yr ysgol] ac yn y tŷ byddai hi ddim yn gweud sws byddai hi yn gweud, "kiss mam?"—Mam, Caerffili.*

- 6.52 Nododd rhai ymatebwyr o deuluoedd cymysgiaith fod eu plant yn siarad Saesneg â'i gilydd. Mewn achosion o'r fath, roedd Cymraeg wedi'i neilltuo ar gyfer rhyngweithio un-wrth-un rhwng yr ymatebydd Cymraeg ei iaith a'r plant tra bod Saesneg wedi ymsefydlu fel prif iaith pan oedd y ddau riant yn bresennol. Mewn geiriau eraill, doedd strategaeth OPOL ddim yn cael ei dilyn yn fanwl.

- 6.53 Mewn achos arall, nododd ymatebydd fod ei phlentyn yn newid cod yn fynych ac yn defnyddio Saesneg wrth chwarae â doliau. Nododd yr ymatebydd nad oedd hi'n synnu at hyn oherwydd bod y plentyn yn mynychu meithrinfa ddwyieithog lle roedd ganddi ffrindiau nad oeddent yn medru'r Gymraeg.

- 6.54 Mewn sefyllfaoedd lle roedd yr ymatebwyr yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol â'u plant, roedd y plant yn tueddu i gychwyn sgysiau yn Saesneg, er bod sôn amdanynt yn aml yn cynnwys geiriau Cymraeg roeddent wedi'u dysgu yn yr ysgol neu ymadroddion gosod.

### **Trafodaeth**

- 6.55 Cawsom hyd i sawl achos lle roedd y ddau riant (neu unig rieni) yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith bron yn ddieithriad â'u plant. Dangoswyd bod yr ymatebwyr hyn yn dod yn bennaf o gymunedau a theuluoedd lle roedd y Gymraeg yn cael ei siarad. Er nad oedd dylanwad y teulu estynedig yn codi fel thema berthnasol yn y dadansoddiad thematig, gallwn ddweud mai defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg oedd yn digwydd yn awtomatig yn ystod plentyndod mwyafrif yr ymatebwyr hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bu'r Gymraeg yn brif iaith iddynt ers eu plentyndod ac roedd yn parhau'n brif iaith rhyngweithio iddynt yn oedolion. Efallai nad yw'n syndod bod ymatebwyr o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf oedd yn parhau i ddefnyddio Cymraeg yn bennaf yn eu bywydau beunyddiol yn nodi bod trosglwyddo'r iaith yn weithred anymwybodol, a chryfhawyd hynny gan y ffaith bod partneriaid mwyafrif yr ymatebwyr hyn yn siarad Cymraeg. Y canlyniadau hyn sydd yn ategu glirfa ganlyniadau'r dadansoddiad meintiol a oedd yn dangos bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant os oeddent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn yr iaith honno. Yn achos pawb ond dau o'r cyfryw ymatebwyr, Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf. Mae'r canlyniadau hefyd yn cefnogi canfyddiadau gwaith blaenorol ar drosglwyddo iaith mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf lle cafwyd adroddiadau am drosglwyddo fel ymddygiad awtomatig (Gathercole et al. 2007).
- 6.56 Mae'r cyfeiriadau at brosesau llafar dwyieithog megis cyfnewid cod yn tynnu sylw at natur ddeinamig dwyieithrwydd, pwnc a fu'n destun llawer o ymchwil flaenorol, fel y gwelwyd ym Mhennod 2 (Fframwaith Damcaniaethol). Roedd yr ymatebwyr a nododd gyfnewid cod yn fynych yn llafar Cymraeg eu plant yn tueddu i ddod o gefndiroedd cymysgiaith, ac roeddent yn nodi eu bod hwythau'n cyfnewid cod rhwng Cymraeg a Saesneg heb feddwl llawer am y peth. Mae ymchwil ieithyddol ar gyfnewid cod wedi dangos bod hynny'n aml yn arwydd o hyfedredd y siaradwr yn y ddwy iaith yn hytrach nag arwydd o anallu i siarad un o'r ieithoedd, a gall normau cymunedol ddylanwadu ar hyn

(Deuchar et al. 2016, t. 211). Mae sylwadau o'r fath yn amlygu'r angen am fwy o astudiaethau arsylwi defnydd iaith yn y cartref a fydd yn ddiamau yn bwrw goleuni ar agweddau eraill ar ymddygiad ieithyddol dwyieithog megis trawsieithu.

- 6.57 Mae'n werth nodi bod rhai ymatebwyr o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn pwysleisio'r angen am gyflwyno mwy o Saesneg i'r cartref. Nid ymddangosai fod cysylltiad rhwng hyn a gweld Saesneg fel iaith uchel ei bri, nac yn uniongyrchol â sicrhau gwell rhagolygon i'w plant yn y dyfodol, sef canfyddiad Harrison et al. (1981). Yn hytrach, ymddangosai'n ymdrech syml i gynyddu'r caffael ar y ddwy iaith. Mae'n bosibl bod ystyr gymdeithasol negyddol i Saesneg pobl ddwyieithog yng ngogledd-orllewin Cymru ymhlith rhai siaradwyr, a bod rhai rhieni'n priodoli hynny i ddylanwad y Gymraeg ar eu Saesneg (Morris 2013). O ran caffael, fodd bynnag, mae ymchwil flaenorol ar Gymraeg a Saesneg pobl ifanc ddwyieithog yn tueddu i awgrymu, er bod y defnydd o iaith yn y cartref yn dylanwadu ar gaffael y Gymraeg, nad yw hynny'n wir (o leiaf i'r un graddau) yn achos y Saesneg (Thomas & Mayr 2010)<sup>29</sup>.
- 6.58 Mewn achosion lle na allai ond un rhiant mewn teulu dau riant siarad Cymraeg, roedd tuedd i ddefnyddio'r dull Un Rhiant Un Iaith dim ond mewn achosion lle roedd y rhiant oedd yn siarad Cymraeg wedi caffael yr iaith trwy drosglwyddiad rhieni ei hun. Awgrymodd mwyafrif yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, nad oedd y drefn honno'n cael ei dilyn yn slafaid. Mae'n ddigon hysbys bod y strategaeth Un Rhiant Un Iaith yn fwy o ddelfryd na realiti (gweler Pennod 2, Fframwaith Damcaniaethol) ond senario a welwyd yn achlysurol yn y gwaith maes oedd bod y rhiant di-Gymraeg mewn teulu dau riant yn teimlo'n anghysurus pan fyddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o'i f/blaen. Golygai hyn fod defnydd o'r Gymraeg yn aml yn cael ei gyfyngu i adegau pan fyddai'r ymatebydd Cymraeg ei iaith ar ei b/phen ei hun â'r plentyn. Mae hyn yn ategu canfyddiadau Jones & Morris (2005a) a welodd amrywiaeth yn lefel cefnogaeth partneriaid i ddwyieithrwydd yn y cartref.

---

<sup>29</sup> Sylwer bod astudiaethau o'r fath yn tueddu i gymharu Saesneg siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Saesneg â Saesneg siaradwyr uniaith Saesneg o ardal debyg, e.e. Rhys & Thomas (2013).

- 6.59 Yn achos llawer o ymatebwyr o gartrefi Saesneg eu hiaith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf, Saesneg oedd iaith ddiofyn y cartref ac nid oedd trosglwyddo'r Gymraeg yn cael ei ystyried. Mae'n ddiddorol nad oedd llawer o'r ymatebwyr a gafodd eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystyried siarad Cymraeg â'u plant o'r crud, oherwydd bod mwyafrif llethol ohonynt yn cefnogi addysg Gymraeg ar gyfer eu plant. Ymhlith y grŵp hwn, roedd unrhyw drafodaethau ynghylch y plentyn yn caffael y Gymraeg yn troi o gwmpas addysg Gymraeg pan fyddai'r plentyn yn cyrraedd oedran ysgol. Canfyddiad diddorol oedd bod sawl ymatebydd o dde-ddwyrain Cymru yn sôn am geisio cynyddu faint o Gymraeg roeddent yn ei ddefnyddio â'u plant, ac ymddengys bod hyn yn ymgais i ategu hunaniaeth Gymraeg a chyflawniad addysgol mewn ysgolion Cymraeg.
- 6.60 Amlygodd dadansoddiad thematig o'r data gan y rhai oedd yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf agwedd ddiddorol oedd heb ei chofnodi hyd yma ar drosglwyddo'r Gymraeg. Ar y naill law, cyflwynid defnydd o'r Saesneg â'r plentyn fel gweithred anymwybodol nad oedd yn wir yn destun trafodaeth. Ar y llaw arall, sonnid yn aml am ymdrech bendant i ddefnyddio mwy o Gymraeg pan fyddai'r plentyn yn cyrraedd oedran ysgol, ond roedd hynny'n gyfyngedig i iaith fformwlaig neu rai cyd-destunau. Mae hyn yn cyfateb i'r cysyniad o 'mudes ieithyddol' y mae Pujolar & González (2013, t. 139) yn eu disgrifio fel 'the specific biographical junctures where individuals enact changes in their linguistic repertoire.'
- 6.61 Efallai bod y ffaith mai Saesneg yw'r iaith y mae'r ymatebwyr hyn yn teimlo'n fwy cyfforddus ynddi yn esbonio pam roedd y newidiadau hyn yn arwain at ddefnydd mwy achlysurol o'r Gymraeg yn hytrach na defnydd mwy parhaus o'r iaith gan y rhiant oedd yn siarad Cymraeg. Hefyd nid oedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu sgiliau Cymraeg i ddefnyddio'r iaith â'u plant. Mewn llai o achosion, nododd yr ymatebwyr eu bod wedi teimlo bod siaradwyr Cymraeg eraill yn eu beirniadu, neu bod hynny'n dal i ddigwydd. Gall hyn fod o ganlyniad i brofiadau negyddol canfyddedig neu eu bod yn teimlo nad ydynt yn perthyn i gymuned Gymraeg ei hiaith, a bod hynny wedi arwain at ymgais i ymbellhau oddi wrth y grŵp y maent yn teimlo nad ydynt yn perthyn iddo (cymharer Damcaniaeth Hunaniaeth Gymdeithasol, e.e.Gough & McFadden (2001, t. 132)).

- 6.62 Mae astudiaethau blaenorol wedi nodi patrwm o lefel isel o ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith y rhai o gartrefi Saesneg sydd wedi caffael eu Cymraeg trwy'r system ysgolion Cymraeg (Aitchison & Carter 1988; Musk 2006; Morris 2014). Byddem yn dadlau, fodd bynnag, nad yw ymchwil ar ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg ond wedi crafu wyneb y rhyngweithio cymhleth o ran cymhellant, agweddau, a hyder ieithyddol ymhlith y rhai sydd yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Fel y mae Clément et al. (2003, t. 192) yn nodi: 'L2 confidence, composed of perceptions of communicative competence and low levels of L2 anxiety, is, in turn, associated with increased communication competence in the L2, increased identification with the L2 group, and increased psychological adaptation.' Er bod llawer o ymatebwyr yn teimlo'n ddihyder yn eu gallu o ran y Gymraeg, mynegodd y mwyafrif awydd i fedru defnyddio mwy ar y Gymraeg. Nodwyd bod ymatebwyr yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf yn teimlo y byddai mwy o weithgareddau yn y Gymraeg yn eu hardal leol yn gyfle i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn fwy ar gyfer ymatebwyr a phlant.
- 6.63 Yn olaf, soniodd yr ymatebwyr am ddefnydd iaith y plant. Mewn teuluoedd lle roedd y Gymraeg yn brif iaith, cofnodwyd bod plant yn ymateb yn Gymraeg i raddau helaeth er y nododd ymatebwyr hefyd fod y plant weithiau'n defnyddio Saesneg yn ystod amser chwarae ymhlith y plant hynny oedd yn mynychu meithrinfeydd neu ysgolion lle'r oedd y rhyngweithio o fewn y grŵp cyfoedion yn digwydd yn Saesneg yn bennaf. Ar aelwydydd lle mae'r Saesneg yn brif neu'n unig iaith, roedd tuedd i'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a oedd mewn addysg Gymraeg fod yn anfynych neu'n gysylltiedig â chyd-destunau penodol megis trafod gwaith cartref. Roedd tuedd i'r ymatebwyr ymateb yn Gymraeg mewn enghreifftiau o'r fath, ond nid oedd y defnydd o'r Gymraeg yn parhau.

### **Casgliadau**

- 6.64 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno dadansoddiad ansoddol o'r data lled-strwythuredig ac wedi amlinellu prif batrymau ymddygiad trosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y cartref a'r themâu sydd fel petaent yn dylanwadu ar eu hymddygiad. Yn achos llawer o ymatebwyr, mae defnydd o'r Gymraeg wedi digwydd yn awtomatig ers eu plentyndod, ac felly mae defnyddio'r Gymraeg â'u plant yn weithred anymwybodol, na feddylir rhyw lawer yn ei gylch.

Roedd y set ddata hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r rheini a oedd wedi caffael y Gymraeg yn yr ysgol ac a oedd bellach yn defnyddio'r iaith â'u plant. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hyn bellach mewn perthynas â phobl oedd wedi caffael y Gymraeg trwy drosglwyddiad rhieni. Mae eu defnydd iaith hunan-gofnodedig â phlant naill ai'n Gymraeg yn bennaf neu'n gyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg oherwydd cyfnewid codau. Mae hyn, rydym yn dadlau, yn tynnu sylw at natur ddynamig dwyieithrwydd a byddai astudiaethau arsylwi pellach yn gallu mesur defnydd iaith ymhellach.

- 6.65 Dangoswyd bod defnydd iaith yn y cartref yn weithred fwy ymwybodol pan fydd un rhiant mewn teulu dau riant yn siarad Cymraeg ac un heb fedru'r iaith. Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod addasu i'r Saesneg gan y siaradwyr Cymraeg yn y teuluoedd a holwyd yn thema gyffredin; mae hyn yn cyfyngu defnydd rhiant-plentyn o'r Gymraeg i ryngweithio un-wrth-un â'r plentyn.
- 6.66 Yn achos llawer o ymatebwyr a oedd wedi caffael y Gymraeg trwy addysg Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru, bu adfyfrio ymwybodol ar eu defnydd o iaith ac ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg â'u plant nid adeg genedigaeth y plentyn, ond wrth i'r plentyn gychwyn mewn addysg Gymraeg. Yn achos y rhieni hyn, roedd y trafodaethau'n troi o gwmpas rhoddi iaith (anfon eu plant i ysgolion Cymraeg) yn hytrach na throsglwyddo iaith. Fodd bynnag, dechreuodd rhai o'r ymatebwyr hyn ddefnyddio ymadroddion fformwlaig â'u plant. Lle roedd y rhieni hyn yn ystyried eu defnydd o iaith â'u plant wrth iddynt gychwyn mewn addysg Gymraeg, gwelsom ddiffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg, ac i raddau llai, roedd teimlad nad oeddent yn perthyn i gymuned Gymraeg ei hiaith yn themâu amlwg a gyfrannodd at barhau i ddefnyddio Saesneg neu ddefnyddio Saesneg, â Chymraeg achlysurol.

## 7. Trafodaeth, Casgliadau ac Argymhellion

- 7.1 Fel y nodwyd yn 1.13, nod yr ymchwil a gyflwynwyd gennym uchod oedd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:
- Beth yw'r amodau sydd yn hwyluso trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd, a'r amodau sydd yn gwneud trosglwyddo'r Gymraeg yn llai tebygol?
  - Beth yw'r amodau sydd yn dylanwadu ar batrymau defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd â phlant yn y grŵp oedran 0-4?
- 7.2 Aethom i'r afael â'r cwestiynau hyn drwy ddefnyddio dulliau cymysg. Yn gyntaf, cynhaliwyd adolygiad o'r llenyddiaeth sydd yn ymwneud â throsglwyddo rhwng y cenedlaethau. Ategwyd hyn gan ddadansoddiad o waith ymchwil a gwerthusiadau o'r gwaith ymyrryd a wnaed o ran trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau, a chan ddadansoddiad ystadegol a gomisiynwyd yn ddiweddar o ddata cyfrifiad. Yna cyflwynwyd dadansoddiad o'r data ansoddol a meintiol a gasglwyd gennym trwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb a holiaduron gan brif roddwyr gofal plant a phartneriaid y rhoddwyr gofal hynny yn y grŵp oedran targed mewn pedair sir: Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r atodiadau i'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o naratifau personol yr ymatebwyr hyn ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Maent hefyd yn cynnwys tabl sydd yn nodi manylion cefndir iaith ymatebwyr, eu lleoliad daearyddol a'u hymddygiad o ran trosglwyddo rhwng y cenedlaethau.
- 7.3 Mae'r data a gasglwyd gennym yn ymwneud â defnydd ymatebwyr o'r Gymraeg yn y gorffennol a'r presennol, eu cefndir ieithyddol a'u defnydd o iaith â'u plant. Agwedd wreiddiol ar y prosiect presennol yw'r ffaith ein bod yn defnyddio dulliau cymysg i weithredu, trwy gymryd cysyniadau o seicoleg gymdeithasol—yn enwedig natur awtomatig ymddygiad a Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) (Ajzen 1991)—a'u cymhwyso i drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau am y tro cyntaf.
- 7.4 Ychwanegwyd ymhellach at arwyddocâd a gwreiddioldeb yr ymchwil gan y ffaith ein bod wedi casglu data gan ymatebwyr sydd yn byw mewn ardaloedd lle mae canrannau isel o'r trigolion yn siaradwyr Cymraeg. Mae llawer o'r ymatebwyr hyn yn gyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn yr ardal ac nid



oeddent yn siarad Cymraeg gartref eu hunain pan oeddent yn blant. Mae niferoedd disgyblion o'r fath yn debygol o gynyddu yn y dyfodol o gofio targed strategol Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn deall o ble maent yn dod yn gyffredinol yng nghyswllt defnyddio'r Gymraeg a sut mae ffactorau cymdeithasol a strwythurol yn effeithio ar hynny—a sut gallai effeithio ar hynny yn y dyfodol.

- 7.5 Yn y bennod olaf hon o'r adroddiad ymchwil, rydym yn mynd y tu hwnt i'r trafodaethau a gynhwyswyd ar ddiwedd pob pennod o ganlyniadau ac yn eu trafod yng nghyd-destun y cwestiynau ymchwil. Wedyn rydym yn cyflwyno argymhellion a allai hwyluso trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn y dyfodol.
- 7.6 Dylid nodi ar y cychwyn bod ein hymchwil wedi dangos bod defnydd o iaith a'i throsglwyddo yn faterion cymhleth a phersonol iawn, yn llawn haenau. Yn y gwaith ymchwil hwn, nid ydym yn honni ein bod wedi ystyried yr *holl* ffactorau perthnasol (nodwn y ffactorau sydd y tu allan i gwmpas y prosiect yn 1.17). Yn yr un modd, un o'n canfyddiadau yw y gall gogwydd siaradwyr tuag at ddefnydd o'r fath o iaith newid dros amser. Felly, mae'n rhesymegol dod i'r casgliad ar sail yr ymchwil a gyflwynwyd uchod nad yw unrhyw ddyllanwad polisi *unigol* yn debygol o arwain at gynnydd yn lefel trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu heb roi sylw dyledus i ffactorau perthnasol eraill. Yn benodol, rydym yn awgrymu y dylai gwaith ymchwil pellach a chynllunio iaith mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg yn y cartref hefyd ystyried yr amrywiaeth llawn o brofiadau disgyblion (yn enwedig y rhai o gartrefi di-Gymraeg) mewn ysgolion Cymraeg ac i ba raddau y mae disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith ar ôl y diwrnod ysgol ac ar ôl gadael ysgol yn barhaol.

### **Ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo iaith**

- 7.7 Canfu'r ymchwil mai'r ffactorau demograffig, yn hytrach na'r ffactorau seicolegol, oedd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Yn benodol, rhanbarth, magwraeth Gymraeg, ac arfer siarad Cymraeg oedd y prif ffactorau y gwelwyd eu bod yn arwyddocaol. Tueddai trosglwyddo hefyd i beidio â bod yn benderfyniad ymwybodol ac eithrio mewn achosion lle roedd ymatebydd a oedd wedi caffael y Gymraeg yn y cartref mewn perthynas â

rhywun oedd ddim yn siarad Cymraeg. Yn achos y rhai yn ne-ddwyrain Cymru oedd yn dod o deuluoedd di-Gymraeg, anaml y câi trosglwyddo'r Gymraeg ei ystyried adeg geni plentyn.

- 7.8 Gellir egluro, i ryw raddau, y ffaith na chafwyd bod newidynnau a gymerwyd o waith ymchwil blaenorol mewn seicoleg gymdeithasol yn arwyddocaol, yn sgil natur y sampl. Yn gyffredinol, roedd gan yr ymatebwyr a recriwtiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Ar ben hynny, nid oedd y mesurau TPB safonol a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon mor ddibynadwy ag y dangoswyd mewn gwaith blaenorol. Nid yw'r ffaith nad oedd y newidynnau seicolegol yn rhagfynegi trosglwyddo yn y model ystadegol terfynol (lle ychwanegwyd rhanbarth a'r arfer o siarad Cymraeg), fodd bynnag, yn golygu y dylid eu hanwybyddu. Fel y nodwyd uchod, roedd y teimlad o *fedru* siarad Cymraeg hefyd yn arwyddocaol mewn modelau cynharach ac ymddengys bod hyn yn swyddogaeth sydd yn deillio o arfer siarad yr iaith (sydd wedyn yn dylanwadu ar drosglwyddo). Roedd hyn hefyd yn amlwg o'r data a ddadansoddwyd ym Mhennod 6 (Dadansoddi'r Data Ansoddol) ac mae'n awgrymu bod angen i ymdrechion i gynyddu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ddelio â materion yn ymwneud â hyder siaradwyr a darparu cyfleoedd i ddefnydd o'r Gymraeg ddod yn fwy arferol pan fyddant yn oedolion. O ran ymchwil yn y dyfodol, byddem yn dadlau y gallai ddefnyddio'r technegau hyn ar sampl mwy o faint ddangos rhyngweithio diddorol rhwng y newidynnau cymdeithasol a seicolegol. Gallai ymchwil pellach hefyd ystyried y ffordd orau o addasu mesurau TPB safonol ar gyfer ymchwil ar drosglwyddo iaith ac agweddau tuag at y Gymraeg.

#### *Rhanbarth*

- 7.9 Mae'r Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei throsglwyddo a'i defnyddio yn y teulu yng Ngwynedd ac Ynys Môn nag yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf (gweler Pennod 5, Cymhwysio Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith). Cefnogir hyn gan ddata'r cyfrifiad cenedlaethol a ddangosodd fod trosglwyddo ar ei uchaf yng ngogledd-orllewin Cymru yn gyffredinol ac yng Ngwynedd yn arbennig (gweler Pennod 3 (Dadansoddiad Ystadegol o Ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol)). Mae hyn yn ddiamau yn gysylltiedig â'r ffaith mai'r ardaloedd hyn sydd yn cynnwys y cyfrannau uchaf o'r boblogaeth sydd wedi caffael yr iaith trwy drosglwyddiad rhieni ac sydd wedi cael eu

cymdeithasoli'n gynnar yn y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Yn achos y rhai o gartrefi di-Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru a benderfynodd ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant, byddem yn dadlau y gallai defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn y gymuned ehangach fod yn ffactor esboniadol (Nesteruk 2010). Datgelodd canlyniadau'r dadansoddiad ansoddol a'r dadansoddiad meintiol mai magwraeth yr ymatebwyr eu hunain oedd yn dylanwadu ar i ba raddau roedd siarad Cymraeg yn arfer, a hynny, yn y pen draw oedd yn dylanwadu ar a oeddent yn siarad Cymraeg bron bob amser â'u plentyn/plant. Trown yn awr at natur awtomatig ac arferiadol trosglwyddo iaith.

*Magwraeth ymatebwyr a'u harfer o ran iaith*

- 7.10 Mae canlyniadau'r dadansoddiad meintiol ac ansoddol fel ei gilydd yn awgrymu, yn achos mwyafrif yr ymatebwyr, fod eu defnydd o iaith â'u plant yn digwydd yn awtomatig ac yn cael ei benderfynu ar sail eu profiadau eu hunain. Yn achos y Gymraeg, cafwyd bod ymatebwyr oedd wedi caffael yr iaith gan eu rhieni, ac a oedd â rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg wrth dyfu i fyny eu hunain, i raddau helaeth yn sôn eu bod yn siarad Cymraeg â'u plant heb feddwl rhyw lawer am y peth. Cafwyd bod hynny hefyd yn wir yn achos Gathercole et al. (2007) ac mae'n cefnogi gwaith blaenorol mewn cyd-destunau dwyieithog eraill sydd yn awgrymu nad yw Polisi Iaith Teulu yn ganlyniad penderfyniad penodol o reidrwydd (Tannenbaum 2012, t. 57).
- 7.11 Dangosodd data'r cyfrifiad cenedlaethol fod y cyfraddau trosglwyddo'n is pan na all ond un riant (mewn teuluoedd dau riant ac unig riant) siarad Cymraeg. Ein ffocws yn y dadansoddiad meintiol oedd rhieni unigol. Roedd y data ansoddol yn dangos bod ymatebwyr mewn teuluoedd cymysgiaith yn tueddu i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant os oeddent wedi caffael yr iaith gan eu rhieni eu hunain. Roedd hyn yn tueddu i fod yn rhywbeth oedd yn cael ei drafod â'r partner di-Gymraeg cyn geni'r baban. Cawsom hyd i enghreifftiau lle roedd hyn yn cael ei annog ac achosion lle roedd y sefyllfa'n cymhlethu ymhellach wedi i'r plentyn gael ei eni.
- 7.12 Canfu ein gwaith ymchwil, fodd bynnag, hefyd fod y defnydd o Saesneg yn tueddu i fod yn awtomatig yn achos ymatebwyr oedd wedi mynychu addysg Gymraeg ond yr oedd eu rhieni yn siarad Saesneg (oni bai bod eu partner yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf). Roedd hyn yn wir yn fwy aml yn ne-

ddwyrain Cymru nag yng ngogledd-orllewin Cymru lle roedd rhai ymatebwyr o deuluoedd di-Gymraeg yn sôn eu bod yn defnyddio'r Gymraeg â'u plant.

*Rhoddi iaith i'r genhedlaeth nesaf*

- 7.13 Adroddodd y rhai yn y sampl o gartrefi Saesneg eu hiaith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf, oedd yn tueddu i beidio â siarad llawer o Gymraeg â'u plant, fod y Gymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth. I raddau, mae'r canlyniad hwn yn gwrth-ddweud yr hawliad bod y rhai sydd yn gweld yr iaith leiafrifol fel un o werthoedd craidd eu hunaniaeth ddiwylliannol yn fwy tebygol o drosglwyddo'r iaith (Remennick 2003). Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn benderfynol o sicrhau addysg Gymraeg i'w plant (ac weithiau'n symud yn ôl i Gymru i sicrhau hyn). Roedd y Gymraeg felly'n tueddu i gael ei thrafod fel iaith *addysg* yn hytrach nag fel iaith y *cartref* cyn i'r plentyn ddod yn rhan o'r system addysg.
- 7.14 Mae awydd ymhlith ymatebwyr o'r fath i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg er nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref yn cyfateb i'r syniad o *roddi* iaith i'r genhedlaeth nesaf yn hytrach na'i throsglwyddo (gweler 2.54-2.57). Mae hefyd yn dangos er bod peidio â throsglwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol yn ymddygiad anymwybodol, bod yr ymatebwyr hyn yn tueddu i drafod a fydd eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r ffaith bod yr ymatebwyr hyn yn awyddus i'w plant siarad Cymraeg yn sicr yn gadarnhaol ar gyfer y rhai sydd yn ymwneud â pholisi iaith a chynllunio yng nghyd-destun Cymru. Yn wir, addysg Gymraeg sydd yn gyfrifol am y ffaith bod yr ymatebwyr hyn yn gallu siarad Cymraeg o gwbl. Gellid dadlau'n rhesymol nad yw'n realistig i'r system addysg *yn unig* sicrhau adfywiad cymdeithasol i'r iaith yn y cartref.
- 7.15 Yn achos rhai o'r ymatebwyr hyn o gartrefi Saesneg eu hiaith, arweiniodd y cyfnod pryd y dechreuodd y plentyn mewn addysg Gymraeg at ystyriaethau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Fodd bynnag, ni ddechreuodd y rhiant oedd yn siarad Cymraeg ddefnyddio Cymraeg yn bennaf â'r plentyn mewn unrhyw achosion. Yn yr adran ganlynol, rydym yn archwilio'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar batrymau defnydd yn y cartref.

## **Ffactorau sydd yn dylanwadu ar batrymau defnydd**

- 7.16 Fel y nodwyd uchod, tueddai'r rhai a ddeuai o gefndir teuluol Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant bron bob amser. O fewn y grŵp hwn, cafodd y data ansoddol hyd i wahaniaeth rhwng y rhai oedd yn (1) sôn am ddefnydd pendant o'r Gymraeg, (2) tueddu i gydnabod natur ddeinamig dwyieithrwydd a (3) oedd wedi penderfynu mynd ati'n fwriadol i ddefnyddio rhywfaint o Saesneg oherwydd eu bod yn credu bod hynny o fudd i'r plentyn. Ar aelwydydd lle ceid cyplau cymysgiaith, tueddai llawer o rieni oedd yn siarad Cymraeg i addasu i'r Saesneg ym mhresenoldeb eu partneriaid di-Gymraeg. Gwelid, felly, fod defnydd o'r Gymraeg yn aml yn cael ei gyfyngu i'r rhyngweithio un-wrth-un rhwng yr ymatebydd oedd yn siarad Cymraeg a'r plentyn.
- 7.17 Ymhlith yr ymatebwyr o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, nad oedd mwyafrif clir ohonynt wedi ystyried siarad Cymraeg â'u plant adeg eu geni, gwelwyd achosion o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg wrth i'r plentyn gychwyn mewn addysg Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, cyfeiriwyd at allu hunan-gofnodedig yr ymatebwyr a'u diffyg hyder yn eu gallu (oherwydd nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg eu hunain ers dyddiau'r ysgol) yn ogystal â diffyg cyfle canfyddedig i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol, yn rhesymau dros beidio â defnyddio mwy o Gymraeg.

### *Y math o deulu*

- 7.18 Nid oedd yn syndod bod tuedd i'r Gymraeg fod yn brif iaith y cartref pan fyddai'r ddau ymatebydd yn siarad Cymraeg ac yn dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith. O fewn y grŵp hwn, nododd yr ymatebwyr naill ai y defnyddid y Gymraeg bron bob amser gan yr ymatebwyr a'r plant. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr fod ganddynt ymagwedd eithaf hyblyg at ddefnydd iaith yn y cartref a bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio gan y ddau ymatebydd a'r plant heb feddwl llawer am y peth. Dangoswyd bod hyn yn wir mewn cyd-destunau dwyieithog eraill, lle rhagdybir nad yw'r defnydd o iaith yn cael ei arwahanu na'i ddiffinio'n fanwl *in situ* (García 2009).
- 7.19 Un thema lai yn y data ansoddol oedd y defnydd ymwybodol o Saesneg gan ymatebwyr oedd fel ei gilydd yn siarad Cymraeg bron bob amser â'r plentyn. Nid oedd ymatebwyr o'r fath yn gweld defnydd o'r Gymraeg fel rhwystr rhag

cyrhaeddiad addysgol eu plant na'u llwyddiant yn y dyfodol fel y gwelir yng ngwaith Harrison et al. (1981) ond roeddent yn dweud ei bod yn bwysig i'w plant gaffael y ddwy iaith yn ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu canlyniadau'r gwaith ar yr Wyddeleg lle roedd rhai ymatebwyr yn ofni y byddai caffael Gwyddeleg yn rhwystro'r plant wrth gaffael Saesneg (Ó hlfearnáin 2013). Byddai'n ddiddorol darganfod tarddiad y canfyddiad hwn gan mai gwaith academiaidd blaenorol ar drosglwyddo ieithoedd lleiafrifol (a'r Gymraeg yn arbennig) sydd yn awgrymu mai ar gaffael yr iaith leiafrifol y mae dod i gysylltiad â'r iaith yn y cartref yn effeithio yn hytrach nag ar gaffael iaith y mwyafrif.

- 7.20 Gallai ymchwil arsylwi pellach fwrw goleuni ar sut mae teuluoedd sydd yn adrodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith yn cyflawni dwyieithrwydd o ddydd i ddydd. Er enghraifft, nid yw'n glir o'r gwaith ymchwil presennol sut gall cymysgu iaith, trawsieithu a sgysiau sydd yn defnyddio'r ddwy iaith fod yn nodweddion a geir yn llafar teuluoedd sydd yn siarad Cymraeg. Nid yw'n glir ychwaith sut mae rhieni'n gweld eu rôl eu hunain yn natblygiad ieithyddol eu plentyn (cymharer 'credoau effaith'—gweler De Houwer (2009, tt. 95-96)).
- 7.21 Roedd ymatebwyr mewn aelwydydd cymysgiaith yn y sampl a oedd yn defnyddio'r Gymraeg â'u plant fel arfer wedi caffael y Gymraeg yn ystod eu plentyndod eu hunain, trwy eu teuluoedd hwythau. Mewn teuluoedd cymysgiaith o'r fath, gwelsom nad yw'r strategaeth OPOL o reidrwydd yn cael ei gorfodi'n haearnaidd o ddydd i ddydd as was found by Goodz (1994). Roedd y dadansoddiad ansoddol yn awgrymu bod penderfyniad gan yr ymatebydd Cymraeg ei iaith i ddefnyddio'r Gymraeg â'r plentyn weithiau yn peri pryder i'r partner di-Gymraeg ar ôl i'r plentyn gael ei eni. Ni welsom fod hyn fel arfer yn arwain at beidio â throsglwyddo'r Gymraeg. Yn hytrach, byddai'r Gymraeg yn cael ei chyfyngu i ryngweithio un-wrth-un â'r plentyn pan na fyddai'r partner di-Gymraeg yn bresennol. Nid yw canlyniadau hyn ar ddefnydd y plentyn o'r iaith yn glir o'r gwaith ymchwil cyfredol a gellid archwilio effeithiau addasu i'r Saesneg mewn gwaith hydredol. Fodd bynnag, dengys y canlyniadau y gellir lleihau 'amlder mewnbwn' y Gymraeg yn y cartref, a allai ddylanwadu ar gaffael yr iaith a'i defnyddio wedi hynny (De Houwer 2009, t. 119).

### *Rhyw'r Rhieni*

- 7.22 Dangosodd y dadansoddiad meintiol fod cyfatebiaeth rhwng rhyw ymatebwyr a'u defnydd o'r Gymraeg â'u plant. Mae'r ffaith bod mamau yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant yn adlewyrchu canfyddiadau gwaith blaenorol (Lyon 1991), er y byddem yn cynghori dehongli'r canlyniad hwn yn ofalus oherwydd natur ein sampl. Roedd wyth deg pump y cant o'r ymatebwyr yn famau a dim ond hanner eu partneriaid (oedd i gyd yn wrywod) ddychwelodd yr holiadur. Roedd pob un o'r mamau hefyd yn brif roddwyr gofal, a allai fod yn esboniad cywirach ar y gwahaniaethau wrth ddefnyddio iaith na'u rhyw (Jones & Morris 2009). Yn yr un modd, mae gwaith arall yn awgrymu y gall fod gan rieni wahanol arddulliau rhyngweithio ond nad yw hynny o reidrwydd yn effeithio ar drosglwyddo (Lanza 1997; De Houwer 2007).

### *Ymatebwyr o gefndiroedd Saesneg eu hiaith yn ne-ddwyrain Cymru*

- 7.23 Fel y dangoswyd uchod, roedd perthynas rhwng y rhanbarth a sut roedd yr ymatebwyr wedi caffael y Gymraeg. Mewn perthynas â phatrymau defnydd iaith o fewn y cartref, dangosodd y dadansoddiad ansoddol fod tuedd i ymatebwyr o deuluoedd di-Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru beidio ag ystyried defnyddio'r Gymraeg â'u plant o'r crud. Fel y gwelwyd mewn sawl astudiaeth flaenorol ar gymunedau iaith eraill (e.e. Arnberg (1987)), achosodd yr adeg pan fyddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol i lawer o'r ymatebwyr hyn ailwerthuso eu defnydd eu hunain o iaith â'u plant. Mewn llawer o achosion, arweiniodd hyn at gyflwyno Cymraeg fformiwläig yn y cartref a defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau penodol megis y daith i'r ysgol, a chydag athrawon eu plant. Tueddai defnydd y plant o'r Gymraeg yn yr achosion hyn i adlewyrchu eiddo'r ymatebwyr, â rhywfaint o Gymraeg fformiwläig yn cael ei defnyddio neu'r Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth drafod gwaith ysgol.
- 7.24 Fodd bynnag, nid arweiniodd ymddygiad o'r fath mewn unrhyw achosion at y Gymraeg yn dod yn brif iaith cyfathrebu rhwng yr ymatebydd Cymraeg ei iaith a'r plentyn. Y rheswm am hynny, efallai, yw bod Saesneg eisoes wedi ymsefydlu fel iaith gyffredin y cartref. Wedi dweud hyn, roedd mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn ne-ddwyrain Cymru yn honni nad oeddent yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith yn y cartref. Adroddodd yr

ymatebwyr hyn fod y diffyg cyfle hwn, dros amser, wedi arwain at lefel isel o hunan-ffeithlonedd yn eu sgiliau Cymraeg eu hunain. O ganlyniad, nid oeddent bellach yn teimlo'n ddigon hyderus yn yr iaith (gweler Beykont (2010) am ganlyniadau tebyg yn achos pobl ddwyieithog Twrceg-Saesneg) ac roeddent yn ddigalon nad oedd llawer o ddarpariaeth ar gael i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg eto. Mae'n berthnasol nodi mai un ymatebydd yn unig soniodd am fynychu gweithgaredd a drefnwyd gan un o'r 'Mentrau iaith', y rhwydwaith Cymru gyfan o sefydliadau cynllunio iaith ar lefel feicro (Iaith Cyf 2001; Evas et al. 2014).

- 7.25 Rydym wedi cyfeirio at y ffaith y bydd mwy o astudiaethau arsylwi a hydredol yn bwrw goleuni ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref o ddydd i ddydd, arwyddocâd Polisi Iaith Teulu ar y defnydd o iaith, a defnydd plant o iaith. Wedi dweud hyn, dangosodd canlyniadau'r ymatebwyr o dde-ddwyrain Cymru (yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi caffael y Gymraeg trwy'r system addysg Gymraeg) nad oedd defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith yn cael ei ystyried. Gallai gwaith ymchwil pellach ar y demograffig hwn adeiladu ar y canlyniadau a gyflwynir yma er mwyn canfod i ba raddau mae'r ymatebwyr hyn yn defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael y system ysgol ac a yw eu cyfeiriadedd tuag at yr iaith yn newid dros amser.
- 7.26 Y prif themâu sydd yn deillio o'r data meintiol a'r data ansoddol yw pa mor awtomatig y mae defnydd iaith â phlant (boed yr iaith honno'n Gymraeg neu'n Saesneg) a dylanwad defnydd arferol o'r Gymraeg ar yr elfen awtomatig honno. Ymddengys bod y defnydd arferol hwn yn dylanwadu ar drosglwyddo yn y lle cyntaf ac i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn y cartref wedi hynny. Yn achos y rhieni hynny o gartrefi Saesneg, gall yr adeg pan fydd plentyn yn mynd i addysg Gymraeg beri iddynt adfyfrio ar eu defnydd o iaith, ond nid yw newid i ddefnyddio'r Gymraeg yn bennaf â'r plentyn yn digwydd (yn y sampl hwn) oherwydd nad ydynt yn arfer defnyddio'r Gymraeg. Mae'r dadansoddiadau meintiol ac ansoddol, fel ei gilydd, yn dangos y gallai hyn fod yn digwydd oherwydd eu bod yn teimlo nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac oherwydd nad oes llawer o gyfleoedd (gwirioneddol neu ganfyddedig) i ddefnyddio'r iaith. Rydym hefyd wedi dangos y gall y rhieni sydd yn siarad Cymraeg yn y berthynas ieithyddol unochrog hefyd ddod o dan ddylanwad agweddau negyddol sydd gan y



partner di-Gymraeg. Yn yr adrannau sydd yn dilyn, rydym yn cyflwyno argymhellion ar sail ein canlyniadau ar gyfer gwaith ymchwil pellach ac ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid.

## **Argymhellion**

### *Argymhellion ar gyfer ymchwil bellach i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid*

7.27 Mae canlyniadau'r ymchwil hon yn dangos y gallai'r mewnbwn y bydd plentyn yn ei dderbyn yn y Gymraeg (yn ôl hunan-adroddiadau'r rhieni) amrywio rhwng teuluoedd (gweler Pennod 6: Dadansoddi'r Data Ansoddol). Roedd cynnal astudiaeth systematig o gaffael y Gymraeg a/neu'r Saesneg— a/neu ieithoedd eraill—gan blant y tu hwnt i gylch gwaith yr ymchwil hon (gweler 1.16-1.18 am amlinelliad o'r cyfyngiadau i gwmpas yr ymchwil). Mae rhywfaint o waith ar Gaffael Dwy Iaith Gyntaf (BFLA neu gaffael dwy iaith gan fabanod ar yr un pryd) yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yn bodoli; yn bennaf, mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar gaffael nodweddion gramadegol neu forffogystrawennol (gweler 2.4). Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o ddatblygiad iaith yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg (a/neu amlieithrwydd). Byddai hyn yn taflu goleuni ar y gydberthynas bosibl rhwng y mewnbwn a gaiff plentyn unigol yn y cartref a'i gaffael o'r Gymraeg a/neu'r Saesneg (neu ieithoedd eraill).

- *Argymhellwn gynnal ymchwil i ddatblygiad iaith yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg (a/neu amlieithrwydd) yn y cartref. Dylai hyn dargedu nodweddion megis caffael gramadeg, geirfa, sut mae brawddegau yn cael eu llunio, eitemau geiriol, a chaffael ffonoleg ymhlith plant.*

7.28 Awgrymodd canlyniadau'r dadansoddiad ansoddol (gweler Pennod 6: Dadansoddi'r Data Ansoddol) y gallai fod gwahaniaeth yn ôl cefndir ieithyddol y rhieni ynghylch i ba raddau y trafodir trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau ac i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn y cartref. Daeth nifer o grwpiau gwahanol i'r amlwg yn y gwaith ymchwil hwn (e.e. rhieni Cymraeg eu hiaith o gefndiroedd di-Gymraeg, rhieni Cymraeg eu hiaith o gefndiroedd Cymraeg, paruau cymysgiaith). Fodd bynnag, gallai ymchwil fanwl bellach yn y maes hwn ddyfnhau ein dealltwriaeth o nodweddion gwahanol grwpiau o'r fath ac, o bosibl, canfod grwpiau eraill.

- *Argymhellwn y dylai ymchwil bellach ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau gynnwys archwiliad manylach o ddylanwad cyfansoddiad ieithyddol yr aelwyd ar brofiadau teuluoedd wrth drosglwyddo iaith. Diben yr ymchwil hon fyddai mireinio ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng arferion trosglwyddo iaith a nodweddion ieithyddol gwahanol grwpiau neu deipolegau o deuluoedd.*

7.29 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth am ymddygiad ieithyddol a ddarparwyd gan rieni. Ni chasglwyd gwybodaeth am brofiadau plant o safbwynt y plant eu hunain (gweler 1.16). Gallai ymchwil ansoddol bellach ganolbwyntio ar gasglu data gan oedolion a phlant er mwyn darparu dadansoddiad manylach a darlun mwy cyflawn o rôl y teulu cyfan mewn ymddygiad ieithyddol.

- *Argymhellwn y dylai ymchwil bellach yn gasglu data gan blant yn ogystal a chan oedolion er mwyn darparu dealltwriaeth fwy trylwyr o ran trosglwyddo iaith ac ymddygiad ieithyddol y teulu.*

7.30 Canfu'r ymchwil hon anghysonderau rhwng adroddiadau'r prif ofalwyr ynghylch eu defnydd iaith, ac adroddiadau eu partneriaid (gweler 5.31). Nid oedd cylch gwaith y prosiect yn caniatáu arsylwi ar ymddygiad ieithyddol yn y cartref, ac felly nid oedd yn bosibl asesu cywirdeb yr adroddiadau yn erbyn dulliau eraill o gofnodi eu hymddygiad. Hefyd, er i gyfranogwyr ddarparu rhywfaint o wybodaeth am eu harferion iaith a'u strategaethau o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y cartref, nid oedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad manwl o strategaethau disgwrs ddwyieithog (er enghraifft cyfnewid cod, trawsieithu). Gallai archwilio'r strategaethau hyn drwy ddulliau arsylwi ddarparu mwy o dystiolaeth ynghylch arferion a strategaethau iaith, a chyflwyno darlun mwy cyflawn o ddeinameg ymddygiad ieithyddol teuluoedd.

- *Argymhellwn y dylai ymchwil ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau gynnwys dulliau arsylwi, er mwyn ategu'r dulliau casglu data eraill megis hunan-adrodd. Byddai hyn yn caniatáu triongli data ac ymchwiliad llawnach o strategaethau defnydd iaith a disgwrs dwyieithog a ddefnyddir gan rieni a phlant yn y cartref.*

7.31 Mae'r ymchwil hon yn cynnig ymgais gwreiddiol i geisio dwyn ynghyd y llenyddiaeth ar drosglwyddo â dealltwriaeth ddamcaniaethol ar sail gwyddoniaeth ymddygiadol gan ddefnyddio model Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) mewn modd trylwyr. Gwnaed hyn er mwyn ystyried cyfatebiaethau posibl rhwng agweddau ar ymddygiad dynol a throsglwyddo iaith. Wrth roi'r model hwn ar waith, canfuwyd bod llawer o ymatebwyr wedi

nodi bod trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn ymddygiad anymwybodol yn hytrach nag yn fwriadol. Canfu hefyd nad oedd ffactorau agweddol yn arwyddocaol—er enghraifft, nid oedd agweddau a oedd, yn fras, yn gadarnhaol tuag at y Gymraeg yn y sampl yn rhagfynegyddion sylweddol o drosglwyddo'r iaith. Mae'r prosiect ymchwil hwn yn awgrymu er y gallai fod yn ddefnyddiol cymhwyso modelau ymddygiad ar sail bwriad i ymchwil i drosglwyddo rhwng y cenedlaethau, roedd maint y sampl a ffactorau eraill (gweler Pennod 5: Cymhwyso Dulliau Ymddygiadol i Drosglwyddo Iaith) wedi cyfyngu ar gymhwyso'r model TPB i'r yr ymchwil hon. Ymddangosai bod lle i ymchwilio ymhellach i sut y gellid cymhwyso'r dull hwn mewn modd defnyddiol i ymchwil yn y dyfodol ym maes trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, gan addasu cynllun yr astudiaeth. Gallai canfyddiadau ymchwil o'r fath llywio ymyriadau polisi yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru (2014a, tt. 21-23) eisoes wedi gwneud ymrwymiad strategol i '[f]anteisio ar y defnydd o arbenigedd, ymchwil a gwyddoniaeth yn y maes hwn i yrru agenda bolisi'r iaith Gymraeg yn ei blaen.' Byddai ymestyn y defnydd o fodelau ar sail ymddygiad i ymchwil ac arferion yn y dyfodol yn cyfrannu at hyn.

- *Argymhellwn fod mentrau Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth o ymchwil ac ymarfer ym maes gwyddoniaeth a newid ymddygiadol. Yn benodol, dylai'r ddealltwriaeth hon gael ei llywio gan ymchwil sydd wedi cymhwyso modelau ar sail bwriad, megis Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) i drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Dylai ymchwil o'r fath geisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau a ddarganfuwyd yn y prosiect hwn ynglŷn â samplu drwy ddefnyddio sampl mwy a mesurau TPB diwygiedig.*

7.32 Mae'r ymchwil hon yn awgrymu y gallai defnydd unigolyn o'r Gymraeg amrywio ar draws ei oes. Yn benodol, canfu'r ymchwil nad oedd sawl ymatebydd o gefndiroedd di-Gymraeg wedi defnyddio llawer o Gymraeg, neu wedi cnoi cil ar eu defnydd iaith, ers iddynt adael addysg Gymraeg; newidiodd hyn pan ddechreuodd eu plentyn dderbyn addysg Gymraeg (gweler 6.36-6.39). Mae'r syniad o 'mudes ieithyddol' (Pujolar & González 2013; Pujolar & Puigdevall 2015) yn disgrifio'r gwahanol ddigwyddiadau yn ystod oes siaradwr a allai ddylanwadu ar batrymau defnydd iaith neu eu newid. Gallai astudiaethau hydredol o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig astudiaethau sy'n dechrau casglu data gan ymatebwyr mewn addysg

cyfrwng Cymraeg ac yn ailymweld â hwy yn rheolaidd, ein cynorthwyo i greu darlun o brofiadau siaradwyr Cymraeg drwy gydol eu hoes.

- *Argymhellwn gynnal ymchwil hydredol er mwyn archwilio sut mae defnydd unigolion o'r Gymraeg yn newid dros eu hoes ac i ba raddau mae ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar y defnydd hwn.*

#### *Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid*

- 7.33 Mae'r argymhellion canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi eu seilio ar ganfyddiadau ein gwaith ymchwil. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, bod maint ein sampl ( $n=60$ ) a'r ffaith i'r ymchwil gael ei chynnal mewn dwy ardal yng Nghymru yn golygu bod rhaid wrth ofal wrth ddod i gasgliadau cyffredinol am y boblogaeth ehangach yng Nghymru (gweler 1.16).
- 7.34 Mae canfyddiadau'r ymchwil hon yn awgrymu bod grwpiau o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn defnyddio eu Cymraeg, ond sydd yn nodi y byddent yn hoffi gwneud hynny. Gall grwpiau o'r fath fod yn 'anodd eu cyrraedd', hynny yw mae'n anodd iddynt ymgysylltu â mentrau Cymraeg cyfredol sydd wedi'u cynllunio i alluogi pobl i ddefnyddio eu sgiliau iaith. Wrth adnabod grwpiau o'r fath, cydnabyddwn yr angen i ddeall yn well eu nodweddion a'u hanghenion. Dylid casglu data demograffig ac ieithyddol cefndirol ynglŷn â siaradwyr Cymraeg, er mwyn eu cloddio a'u defnyddio fel elfen hanfodol o bolisi, ymchwil ac ymyriadau, gan gynnwys trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau a thu hwnt i'r maes hwnnw.
- *Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (gan gynnwys mentrau cymunedol a noddur gan Lywodraeth Cymru) yn mynd ati mewn modd systematig i gasglu data demograffig ac ieithyddol am rieni a darpar rieni yng Nghymru. Dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio ar gyfer ymchwil ddemograffig a dosbarthu targedu a gwybodaeth berthnasol ar weithgareddau hyrwyddo iaith i grwpiau penodol o siaradwyr Cymraeg.*
- 7.35 Yn ein sampl, canfuwyd dau grŵp rhieni lle mae trosglwyddo yn llai tebygol neu lle y gallai swmp y Gymraeg y bydd plant yn yn y cartref yn ei glywed fod yn fach: (1) plant parau lle mae un rhiant yn ddi-Gymraeg a'r llall yn siarad Cymraeg a (2) plant ymatebwyr o gartrefi Saesneg a gaffaelodd eu Cymraeg drwy'r system addysg Gymraeg. Mae'r ymchwil yn dangos bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar drosglwyddo yn wahanol ar gyfer y grwpiau hyn.

Ymddangosai na fyddai ymyriadau unffurf, cenedlaethol, 'un maint i bawb' ym maes trosglwyddo rhwng y cenedlaethau Cymru yn briodol. Dylai ymyriadau ystyried gwahaniaethau a all fodoli mewn grwpiau targed, megis math o deulu, er mwyn deall sut orau i ymgysylltu â grwpiau gwahanol.

- *Argymhellwn fod ymyriadau sydd yn ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn mabwysiadu dulliau gweithredu sydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o'r gwahanol fathau o deuluoedd a allai fodoli. Dylai'r ymyriadau hyn geisio ymateb yn uniongyrchol i'r heriau mae'r grwpiau hyn yn eu nodi.*

7.36 Dangosodd y gwaith ymchwil y gallai'r defnydd o'r Gymraeg rhwng plentyn a rhiant sydd yn siarad Cymraeg achosi pryder i bartner di-Gymraeg yn dilyn geni'r plentyn a bod hyn weithiau yn newid defnydd iaith yn y cartref. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr Cymraeg eu hiaith o gefndiroedd di-Gymraeg, wedi ystyried siarad Cymraeg â'u plentyn cyn neu ar ôl geni'r plentyn er gwaethaf dymuniad a welwyd yn aml iddo/iddi fynychu ysgol Gymraeg, ac er gwaethaf bodolaeth ymagweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ar y cyfan. Awgrymwn y dylid ystyried dulliau priodol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg cyn genedigaeth plentyn a/neu ystod y blynyddoedd cynnar plentyn er mwyn annog a chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

- *Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ymyriadau sy'n ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg dargedu siaradwyr Cymraeg mewn modd effeithiol cyn geni'r plentyn a/neu ystod blynyddoedd cynnar y plentyn, ac adolygu'r dull mwyaf priodol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn.*

7.37 Nododd rhai ymatebwyr o gartrefi di-Gymraeg bod profiadau negyddol yn yr ysgol neu ddefnydd prin o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth tra yn yr ysgol, yn golygu mai pur anaml yr oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol neu gymdeithasol. Roeddent yn credu bod hyn yn effeithio ar eu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant. Mae astudiaethau eraill wedi nodi hunanadroddiadau am ddefnydd isel o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth a phrofiadau goddrychol negyddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai o gartrefi di-Gymraeg (Aitchison & Carter 1988; Evas 1999; Musk 2006; Selleck 2012; Morris 2014). Nododd rhai ymatebwyr fod disgwyl iddynt siarad Cymraeg gan athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ond mai yn anaml iawn byddent yn gwneud hynny y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Rydym yn awgrymu bod angen cynnal trafodaethau ar annog defnydd o'r Gymraeg

mewn ysgolion, a bod y rhain yn agored ac anfeirniadol. Gallai gwaith blaenorol ar ymwybyddiaeth iaith gritigol (Eaves 2015) ddarparu mewnwelediad i sut y gellir cyflawni trafodaethau o'r fath.

- *Argymhellwn fod hyfforddiant cychwynnol athrawon a darpariaeth dysgu proffesiynol yn cynnwys cyfleoedd i hyfforddeion a staff ddatblygu dull seicolegol cymdeithasol o fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol ymhlith disgyblion sydd yn medru'r Gymraeg, ond nad ydynt yn ei defnyddio.*

7.38 Yn ogystal, fe nododd ymatebwyr o gefndiroedd teuluol di-Gymraeg yn ardal ymchwil de-ddwyrain Cymru nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg â'u plant—neu yn wir o gwbl—oherwydd canfyddiad o ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu hardal leol. Byddai ymarfer mapio yn cefnogi dealltwriaeth o lefelau cyfredol y ddarpariaeth ar gyfer oedolion sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ledled Cymru. Gellid defnyddio hyn i lunio darpariaeth addas a hygyrch lle nodir bylchau.

<sup>30</sup>Awgrymwn y gallai ysgolion lleol ddarparu hyb ar gyfer y Gymraeg yn y gymuned leol, yn enwedig ar gyfer rhieni Cymraeg eu hiaith nad ydynt yn teimlo'n hyderus yn yr iaith a/neu sydd yn canfod diffyg cyfle i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd. Byddai menter o'r fath yn enghraifft o allgymorth cymunedol. Byddai'n anelu at gynyddu hyder rhai rhieni Cymraeg eu hiaith trwy sicrhau eu bod yn ymwneud â'r Gymraeg drwy weithgareddau anffurfiol nad ydynt yn fygythiol. Dylid cynnal ymarfer sgopio er mwyn darganfod pa fodelau o allgymorth cymunedol sydd yn bodoli mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud ag iaith. Gellid addasu'r rhain, o bosibl, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhieni sydd yn medru'r Gymraeg nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd, er mwyn eu hailgyflwyno i ddefnydd iaith gweithredol. Mae cyfle hefyd i ymchwilio i effeithiolrwydd posibl cynlluniau mentora 'rhiant i riant' megis system *Voluntaris per a la llengua* (Casas & Danés 2004) a gwaith ar 'bendantrwydd ieithyddol' er mwyn canfod sut y gallai cynlluniau o'r fath helpu siaradwyr llai hyderus neu 'rydlyd' i ddefnyddio eu sgiliau iaith (Suay & Sanginés 2012).

---

